

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif ymchwil cymdeithasol: 126/2025

Dyddiad cyhoeddi: 24/03/2026

Gwerthusiad ffurfiannol o'r Cwricwlwm i Gymru: arolwg o uwch arweinwyr ac ymarferwyr – atodiadau technegol

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron

ISBN Digidol 978-1-83745-282-8

Teitl: Gwerthusiad ffurfiannol o'r Cwricwlwm i Gymru: arolwg o uwch arweinwyr ac ymarferwyr - atodiadau technegol

Awduron: Gillian Parkinson a Ben Tylden-Smith (AlphaPlus), Hefin Thomas a Joanne Davis (Arad Research), Yr Athro Cysylltiol Claire Sinnema (Prifysgol Auckland)

Parkinson, G; Tylden-Smith, B; Thomas, H; Davis, J; Sinnema, C. (2025). Gwerthusiad ffurfiannol o'r Cwricwlwm i Gymru: arolwg o uwch arweinwyr ac ymarferwyr. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Rhif Adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth 126/2026

Ar gael yn: [Gwerthusiad ffurfiannol y Cwricwlwm i Gymru: arolwg o uwch arweinwyr ac ymarferwyr | LLYW.CYMRU](#)

Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 126/2025.

Safbwyntiau'r ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid rhai Llywodraeth Cymru o reidrwydd

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â:

Cangen Ymchwil Ysgolion

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: curriculum.research@gov.wales

Cynnwys

Cynnwys	1
Rhestr termau	2
Atodiad A: Holiadur	4
Atodiad B: Gwybodaeth dechnegol am yr arolwg	25
Atodiad C: Canfyddiadau dadansoddiad o is-grwpiau	31
Atodiad D: Gwybodaeth dechnegol am FA a SEM a chanfyddiadau ychwanegol	81

Rhestr termau

AB

Addysg Bellach

ADY

Anghenion Dysgu Ychwanegol

Aelod/ymatebydd o'r UDRh ac ymatebydd nad oedd yn aelod o'r UDRh

Aelod/ymatebydd o'r uwch dîm rheoli ac ymatebydd nad oedd yn aelod o'r uwch dîm rheoli

Athro

Ymarferwyr nad oeddent yn uwch arweinwyr (gan gynnwys y rheini a adroddodd mai "athro", "gweithiwr cymorth dysgu" neu "arall" oedd eu rôl ac a adroddodd nad oeddent yn aelodau o'r uwch dîm rheoli). Yn rhan B o'r adroddiad hwn, er mwyn byrder, defnyddir y term "athrawon" er mwyn disgrifio'r rheini nad oedd yn uwch arweinwyr. Fodd bynnag, defnyddir y term "ymarferwyr nad oedd yn uwch arweinwyr" yn y dadansoddi is-grŵp drwy gydol yr adroddiad er mwyn osgoi dryswch gyda'r rheini a nododd eu prif rôl fel "athro".

CFI

Mynegai ffit gymharol

CFA

Ddadansoddi ffactorau er mwyn cadarnhau

CBGY

Cyfrifiad Blynnyddol o'r Gweithlu Ysgolion

CDU

Cynllun Datblygu Unigol. Dogfen statudol a ddarperir i ddysgwyr yr ystyrir bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

CYBLD

Cyfrifiad Ysgolion Blynnyddol ar Lefel Disgyblion

FA

Dadansoddi ffactorau

RMSEA

Cyfeiliorniad brasamcan isradd sgwâr cymedrig

SAC

Statws Athro Cymwysedig

SEM

Modelu hafaliadau strwythurol

SRMR

Gweddill isradd sgwâr cymedrig safonedig

TLI

Mynegai Tucker-Lewis

Uwch arweinwyr oedd yn addysgu (ac Uwch arweinwyr nad oedd yn addysgu)

Uwch arweinwyr mewn ysgolion ac UC Dau a ddywedodd fod ganddynt (neu nad oedd ganddynt) gyfrifoldebau addysgu neu gynorthwyo ag addysgu

UAwyr (ac ymarferwyr nad oedd yn UAwyr)

Uwch arweinwyr ac ymarferwyr nad oedd yn uwch arweinwyr

UCD

Uned Cyfeirio Disgyblion

Atodiad A: Holiadur

Cwricwlwm Cymru: Arolwg Uwch Arweinwyr ac Ymarferwyr 2024

Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu cwmni ymchwil Arad i gasglu barn uwch arweinwyr, athrawon a'r rhai sy'n cynorthwyo addysgu mewn ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion (UCD) a darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS) ar eu profiadau o weithredu'r Cwricwlwm i Gymru.

Byddem yn ddiolchgar iawn pe gallech gwblhau'r arolwg hwn. Bydd yn helpu Llywodraeth Cymru i ddeall beth sy'n gweithio'n dda wrth weithredu'r cwricwlwm, yr hyn sydd ddim yn gweithio cystal, a pha gymorth pellach sydd ei angen ar gyfer ysgolion ac athrawon. Bydd yr arolwg yn cymryd tua 15 munud i'w gwblhau.

Drwy gydol yr holiadur, defnyddir y term 'ysgolion' i gyfeirio at ysgolion, UCDAu a darpariaeth addysg arall heblaw yn yr ysgol er hwylusdra.

Mae'r holiadur yn cynnwys cwestiynau caeedig yn bennaf, ond mae rhai cwestiynau testun agored ar y diwedd os hoffech roi sylwadau pellach.

Darperir rhagor o wybodaeth neu esboniad o dermau ar rai cwestiynau, a gellir ei weld trwy hofran dros yr eicon canlynol ⓘ ar rai cwestiynau.

Cesglir rhywfaint o ddata personol yn yr holiadur (eich enw, eich rôl). Dim ond i fonitro pwy sydd wedi cwblhau'r holiadur y defnyddir y wybodaeth hon, fel na fyddwch yn derbyn nodiadau atgoffa diangen i'w gwblhau.

Beth fydd yn digwydd i fy ymatebion i'r arolwg?

Bydd Arad yn sicrhau bod y data crai yn anhysbys cyn ei rannu â Llywodraeth Cymru. Bydd y wybodaeth a gesglir yn cael ei defnyddio i gynhyrchu adroddiad a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Ni fydd yr adroddiad hwn yn cynnwys unrhyw wybodaeth y gellid ei defnyddio i adnabod cyfranogwyr unigol. Gellir gweld Hysbysiad Preifatrwydd sy'n rhoi rhagor o wybodaeth am sut y caiff y data a gesglir ei ddefnyddio yma.

Amdanoch chi

Enw cyntaf a chyfenw

1. Awdurdod Lleol yr ysgol

Blaenau Gwent

Pen-y-bont ar Ogwr

Caerffili

Caerdydd

Caerfyrddin
Ceredigion
Conwy
Sir Ddinbych
Sir y Fflint
Gwynedd
Ynys Môn
Merthyr Tudful
Sir Fynwy
Castell-nedd Port Talbot
Casnewydd
Sir Benfro
Powys
Rhondda Cynon Taf
Abertawe
Bro Morgannwg
Torfaen
Wreccsam
Ysgol tu allan i Gymru

2. Enw'r ysgol neu UCD

[RHESTR GWYMPLEN O YSGOLION]

24. Ydych chi'n aelod o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eich ysgol?

Ydw

Nac ydw

25. Oes gennych chi gyfrifoldebau addysgu neu gynorthwyo gydag addysgu? ⓘ

Oes, mae gen i gyfrifoldebau addysgu neu gynorthwyo gydag addysgu

Nac oes, nid oes gennyf gyfrifoldebau addysgu na chynorthwyo gydag addysgu

Amdanoch chi — prif rôl

26. Beth yw eich prif rôl yn yr ysgol? ①

Pennaeth/Athro sy'n gyfrifol am UCD

Uwch Arweinydd (e.e. dirprwy bennaeth, pennaeth cynorthwyol)

Arweinydd canol (e.e. pennaeth adran, pennaeth cyfadran)

Athro

Gweithiwr Cymorth Dysgu (e.e. Cynorthwydd Addysgu, Cynorthwydd Addysgu Lefel Uwch)

Arall (nodwch):

Amdanoch chi — blynyddoedd o brofiad mewn addysg

27. Nodwch faint o flynyddoedd o brofiad sydd gennych mewn addysgu/addysg.

Llai na 3 blynedd

3–5 mlynedd

6–10 mlynedd

11–15 mlynedd

16–20 mlynedd

21–25 mlynedd

26–30 mlynedd

31+ mlynedd

Amdanoch chi — rôl(au) arweinyddiaeth

28. Nodwch pa rolau arweinyddiaeth o'r canlynol sydd gennych, os o gwbl (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)

Dirprwy bennaeth

Pennaeth cynorthwyol

Pennaeth cyfadran

Pennaeth adran

Arweinydd Pwnc / Maes dysgu a phrofiad

Arweinydd bugeiliol a/neu Pennaeth Blwyddyn

Cydlynnydd ADY

Ddim un o'r uchod

Cyfrifoldeb arweinyddiaeth arall (nodwch):

Amdanoch chi — rôl(au) arweinyddiaeth ychwanegol

29. Nodwch pa rolau arweinyddiaeth ychwanegol o'r canlynol sydd gennych, os o gwbl (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)

Cydlynnydd ADY

Arweinydd Pwnc / Maes dysgu a phrofiad

Arweinydd bugeiliol a/neu Pennaeth Blwyddyn

Dim un o'r rhain

Cyfrifoldeb arweinyddiaeth arall (nodwch)

Amdanoch chi — profiad arweinyddiaeth

30. Nodwch faint o flynyddoedd o brofiad sydd gennych yn eich rôl arweinyddiaeth bresennol: ⓘ

Llai na 3 blynedd

3–5 mlynedd

6–10 mlynedd

11–15 mlynedd

16–20 mlynedd

21–25 mlynedd

26–30 mlynedd

31+ mlynedd

Amdanoch chi — maes cyfrifoldeb cwricwlwm

31. Oes gennych chi gyfrifoldeb am arwain agweddau o'r cwricwlwm mewn unrhyw un o'r meysydd canlynol? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)

Cyfrifoldeb cyffredinol am y cwricwlwm

Cyfrifoldeb cyffredinol am gynnydd ac asesu

Y Celfyddydau Mynegiannol

Iechyd a Lles

Dyniaethau

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Mathemateg a Rhifedd

Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Cymhwysedd digidol

Dim un o'r rhain

Agwedd arall o'r cwricwlwm (nodwch)

Amdanoch chi

32. Nodwch i ba raddau yr ydych yn/wedi ymwneud â'r canlynol:

(Ddim yn ymwybodol o hyn, Yn ymwybodol ond ddim yn gysylltiedig, Ysgol yn cymryd rhan ond nid fi, Yn ymwneud yn bersonol, Ddim yn siŵr)

Peilot cynllunio cwricwlwm Llywodraeth Cymru

Rhaglen Ysgolion Arloesi

Ysgol arweiniol partneriaeth Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA) / Rhan o bartneriaeth AGA

Rhaglen Ysgolion Creadigol Arweiniol

Rhwydwaith Cenedlaethol ar gyfer Gweithredu'r Cwricwlwm

Y prosiect 'Trafod Addysgeg'

Prosiect Ymholi Proffesiynol Cenedlaethol

Cyd-ddatblygu canllawiau'r cwricwlwm 2020-2022 ⓘ

Camau i'r Dyfodol: Cyd-ddatblygu dilyniant dysgu yng Nghymru Eraill (nodwch)

Ymrwymiad i newid cwricwlwm

33. I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiadau canlynol?

(Anghytuno'n gryf, Anghytuno, Ddim yn cytuno nac yn anghytuno, Cytuno, Cytuno'n gryf, Ddim yn siŵr)

Rwy'n barod i wneud newidiadau i'm hymarfer proffesiynol i wireddu dyheadau'r Cwricwlwm i Gymru

Rwyf bob amser yn hyrwyddo'r Cwricwlwm i Gymru wrth siarad â chydweithwyr.

Rwy'n ystyried bod y Cwricwlwm i Gymru yn llawer gwell na'r cwricwlwm blaenorol

Defnyddiwch y gwagle isod i egluro eich ymateb:

Gwybodaeth am newid cwricwlwm

34. I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiadau canlynol?

(Anghytuno'n gryf, Anghytuno, Ddim yn cytuno nac yn anghytuno, Cytuno, Cytuno'n gryf)

Mae'r rhesymau dros ddiwygio'r cwricwlwm yn glir i mi

Rwy'n deall fy rôl wrth weithredu'r Cwricwlwm i Gymru

Mae'r hyn sydd wedi newid yn y Cwricwlwm i Gymru o'i gymharu â'r cwricwlwm blaenorol yn glir i mi

Gallaf egluro prif elfennau'r Cwricwlwm i Gymru i eraill

Dealltwriaeth o newid y cwricwlwm

35. I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiadau canlynol?

(Anghytuno'n gryf, Anghytuno, Ddim yn cytuno nac yn anghytuno, Cytuno, Cytuno'n gryf)

Rwy'n deall sut y dylwn newid fy ymarfer mewn ymateb i'r Cwricwlwm i Gymru

Rwy'n deall beth sy'n ofynnol i'm hysgol wneud i gynllunio cwricwlwm ein hunain yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru

Rwy'n deall beth sy'n ofynnol i'm hysgol wneud i gynllunio trefniadau asesu ein hunain yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru

Y gallu i weithredu mewn ffyrdd sy'n gwireddu newid cwricwlwm — athrawon gweithredol

Os ydych yn uwch arweinydd sydd hefyd â chyfrifoldebau addysgu, atebwch y cwestiwn hwn mewn perthynas â'ch rôl fel athro gweithredol.

36. Gan feddwl am eich rôl wrth gynllunio a gweithredu y Cwricwlwm i Gymru, i ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiadau canlynol?

(Anghytuno'n gryf, Anghytuno, Ddim yn cytuno nac yn anghytuno, Cytuno, Cytuno'n gryf, Amherthnasol)

Rwy'n hyderus bod gen i'r sgiliau sydd eu hangen arnaf

Rwy'n hyderus o'm gwybodaeth pwnc

Rwy'n hyderus o'm gwybodaeth addysgeg

Rwy'n hyderus y gallaf ddarparu profiadau dilys a phwrrpasol i ddysgwyr

Rwy'n hyderus wrth gefnogi dysgwyr i wneud cysylltiadau rhwng pynciau a meysydd dysgu a phrofiad

Rwy'n hyderus o'm harbenigedd cynllunio cwricwlwm fy hun

Rwy'n hyderus o'm harbenigedd cynllunio asesu fy hun

Rwy'n hyderus o'm gallu i addasu fy ymarfer proffesiynol

Esboniwch eich ymateb isod os yr hoffech:

Y gallu i weithredu mewn ffyrdd sy'n gwireddu newid cwricwlwm

37. Gan feddwl am waith athrawon (gan gynnwys y rhai sy'n cynorthwyo gydag addysgu) yn eich ysgol.

Wrth gynllunio a gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru, i ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiadau canlynol? Rwy'n hyderus fod gan athrawon...

(Anghytuno'n gryf, Anghytuno, Ddim yn cytuno nac yn anghytuno, Cytuno, Cytuno'n gryf)

y sgiliau sydd eu hangen arnynt

y wybodaeth pwnc sydd ei hangen arnynt

y wybodaeth addysgol sydd ei hangen arnynt.

y gallu i ddarparu profiadau dilys a phwrrpasol i ddysgwyr.

y gallu i gefnogi dysgwyr i wneud cysylltiadau rhwng pynciau a meysydd dysgu a phrofiad

yr arbenigedd cynllunio cwricwlwm sydd ei angen arnynt

yr arbenigedd cynllunio asesu sydd ei angen arnynt
y gallu i addasu eu harferion proffesiynol

Eich amgylchedd gwaith

38. Gan feddwl am eich gwaith yn eich ysgol, i ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiadau canlynol:

(Anghytuno'n gryf, Anghytuno, Ddim yn cytuno nac yn anghytuno, Cytuno, Cytuno'n gryf)

Mae fy ysgol yn le da i weithio

Rwy'n fodlon gyda fy swydd

Rwy'n fodlon â'm cydbwysedd bywyd a gwaith

Mae fy ngwaith fel addysgwr yn ystyrlon

Mae fy mherthynas gyda dysgwyr yn rhoi boddhad i mi

Mae fy mherthynas gyda chydweithwyr yn gefnogol

Rwy'n teimlo gallaf fod yn fi fy hun gyda chydweithwyr yn y gwaith

Arweinyddiaeth y cwricwlwm

39. Atebwch y canlynol mewn perthynas â'ch rôl arwain yn eich ysgol: Fel arweinydd, pa mor hyderus ydych chi'n teimlo yn eich gallu i...

(Ddim yn hyderus o gwbl, Ddim mor hyderus, Ychydig yn hyderus, Hyderus iawn, Hyderus ofnadwy)

ddylanwadu ar ymrwymiad eraill i newid y cwricwlwm?

ddatblygu dealltwriaeth pobl eraill o sut i ymateb i'r Cwricwlwm i Gymru?

gefnogi eraill i ddatblygu eu dysgu a'u haddysgu?

ddatrys heriau wrth gynllunio a gweithredu'r cwricwlwm?

arwain trafodaethau cwricwlwm sy'n cefnogi gwella'r cwricwlwm?

sicrhau dull strategol fel bod dyheadau'r cwricwlwm yn cael eu cyflawni?

wella arferion y cwricwlwm yn seiliedig ar werthuso cadarn?

gysylltu pobl i gydweithio ar gynllunio cwricwlwm ac asesu?

Cydweithio ar gynllunio'r cwricwlwm

40. Wrth gynllunio'r cwricwlwm yn eich ysgol, i ba raddau y mae cydweithio wedi bod...

(Dim cydweithio, Rhywfaint o gydweithio, Llawer iawn o gydweithio, Ddim yn siŵr)

rhwng athrawon ⓘ

gydag ysgolion cynradd ⓘ

gydag ysgolion uwchradd ⓘ

gydag ysgolion arbennig ⓘ

gyda UC'Dau neu ddarparwyr EOTAS eraill ⓘ

gyda lleoliadau meithrin

gyda llywodraethwyr

gyda dysgwyr

gyda rhieni/gofalwyr

gyda sefydliadau Addysg Uwch

gyda busnesau neu gyflogwyr

gyda sefydliadau eraill

Cydweithio ar gynllunio'r cwricwlwm

41. Atebwch y cwestiwn isod mewn perthynas ag athrawon ac uwch arweinwyr yn eich ysgol: I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiadau canlynol?

(Anghytuno'n gryf, Anghytuno, Ddim yn cytuno nac yn anghytuno, Cytuno, Cytuno'n gryf)

Mae athrawon yn cymryd rhan yn gyson mewn trafodaethau/penderfyniadau am addysgeg

Mae cyfleoedd ar gael i athrawon i ysgogi newidiadau

Mae athrawon yn cymryd cyfrifoldeb ac atebolrwydd ar y cyd am gynnydd dysgwyr.

Mae athrawon yn cymryd rhan weithredol mewn cynnal disgwyliadau uchel i gynyddu cyflawniad dysgwyr

Mae arweinwyr yr ysgol hon yn ystyried cyngor gan athrawon wrth wneud penderfyniadau

Mae arweinyddiaeth yn cael ei meithrin a'i dosbarthu ymhlith athrawon

Dealltwriaeth gyffredin

42. Atebwch y cwestiwn isod mewn perthynas ag athrawon, uwch arweinwyr a'r rhai sy'n cynorthwyo addysgu yn eich ysgol: Ymhlith staff yn fy ysgol mae dealltwriaeth gyffredin o...

(Anghytuno'n gryf, Anghytuno, Ddim yn cytuno nac yn anghytuno, Cytuno, Cytuno'n gryf)

gynnydd dysgwyr

beth mae'n ei olygu i gael cwricwlwm cynhwysol

sut mae ein cwricwlwm yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu yn y ffyrdd a ddisgrifir gan y pedwar diben

Dysgu a chymorth proffesiynol

Mae'r cwestiwn isod yn gofyn am eich barn ar y cyfleoedd dysgu proffesiynol a'r cymorth sydd ar gael i chi. Gallai dysgu proffesiynol gynnwys yr hyn a ddarperir yn yr ysgol, yn allanol neu ar-lein gan athrawon ac eraill (e.e. awdurdod lleol, consortiwm rhanbarthol neu bartneriaeth).

43. I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiadau canlynol mewn perthynas â'r dysgu neu'r cymorth proffesiynol sydd ar gael i chi wrth ymateb i'r Cwricwlwm i Gymru?

(Anghytuno'n gryf, Anghytuno, Ddim yn cytuno nac yn anghytuno, Cytuno, Cytuno'n gryf)

Mae gen i fynediad at ddysgu proffesiynol o ansawdd uchel

Rwyf wedi bod yn rhan o ddigon o ddysgu proffesiynol i ddiwallu fy anghenion

Mae'r holl ddysgu proffesiynol rwyf wedi bod yn rhan ohono wedi bod o ansawdd uchel, yn fy marn i

Mae'r canllawiau lefel-ysgol, y gefnogaeth a'r adnoddau rwyf wedi'u defnyddio wedi diwallu fy anghenion

Mae cefnogaeth gan bartneriaid cymorth addysg wedi diwallu fy anghenion ⓘ

Mae'r canllawiau ehangach (e.e. ar Hwb), y cymorth a'r adnoddau rwyf wedi eu defnyddio wedi diwallu fy anghenion ⓘ

Mae gennyf fynediad at gefnogaeth briodol gan gorff llywodraethu fy ysgol neu bwyllgor rheoli fy UCD

Dysgu a chymorth proffesiynol — ymarferwyr

Mae'r cwestiwn isod yn gofyn am eich barn ar y cyfleoedd dysgu proffesiynol a'r cymorth sydd ar gael i chi. Gallai dysgu proffesiynol gynnwys yr hyn a ddarperir yn yr ysgol, yn allanol neu ar-lein gan athrawon ac eraill (e.e. awdurdod lleol, consortïwm rhanbarthol neu bartneriaeth).

44. I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiadau canlynol mewn perthynas â'r dysgu neu'r cymorth proffesiynol sydd ar gael i chi wrth ymateb i'r Cwricwlwm i Gymru?

(Anghytuno'n gryf, Anghytuno, Ddim yn cytuno nac yn anghytuno, Cytuno, Cytuno'n gryf)

Mae gen i fynediad at ddysgu proffesiynol o ansawdd uchel

Rwyf wedi cymryd rhan mewn digon o ddysgu proffesiynol i ddiwallu fy anghenion

Mae'r holl dysgu proffesiynol rwyf wedi bod yn rhan ohono wedi bod o ansawdd uchel, yn fy marn i

Mae'r canllawiau lefel-ysgol, y gefnogaeth a'r adnoddau rydw i wedi'u defnyddio wedi diwallu fy anghenion

Mae cefnogaeth gan bartneriaid cymorth addysg wedi diwallu fy anghenion ⓘ

Mae'r canllawiau ehangach (e.e. ar Hwb), y cymorth a'r adnoddau rwyf wedi eu defnyddio wedi diwallu fy anghenion ⓘ

Cymorth

45. I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiadau canlynol mewn perthynas â sut mae'r system addysg ehangach yn cefnogi gweithrediad y Cwricwlwm i Gymru?

(Anghytuno'n gryf, Anghytuno, Ddim yn cytuno nac yn anghytuno, Cytuno, Cytuno'n gryf)

Mae'r system arolygu ysgolion yn cyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru

Mae'r ffordd o ddatblygu cymwysterau newydd ar gyfer dysgwyr 14–16 oed yn cyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru

Mae digon o gyllid wedi'i glustnodi i gefnogi gwaith ar y Cwricwlwm i Gymru

Mae digon o amser wedi'i neilltuo i gefnogi gwaith ar y Cwricwlwm i Gymru

Mae arweinyddiaeth o safon ar draws y system addysg i gefnogi'r Cwricwlwm i Gymru ⓘ

Mae'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu, Arweinyddiaeth a Chynorthwyo Addysgu yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru

Mae digon o wybodaeth ar gael i mi i alluogi hunan-arfarnu effeithiol i gefnogi gweithredu Cwricwlwm i Gymru ⓘ

Ymagwedd at gynllunio'r cwricwlwm

46. I ba raddau mae'r ffordd o gynllunio'r cwricwlwm yn eich ysgol wedi cynnwys...

(Ddim o gwbl, Tipyn, Cryn dipyn, Llawer iawn, Ddim yn siŵr)

dysgu o ymholi proffesiynol ⓘ

defnyddio ymchwil addysgol

rhannu tystiolaeth ac arbenigedd ar draws rhwydweithiau lleol neu glwstwr

rhannu tystiolaeth ac arbenigedd ar draws rhwydweithiau rhanbarthol neu genedlaethol

cyd-weithio â sefydliadau addysg bellach ac uwch

Newidiadau i'r ymarfer – athrawon gweithredol

47. I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiadau canlynol? Lle bo'n briodol, rwyf wedi gwneud newidiadau sylweddol i...

(Anghytuno'n gryf, Anghytuno, Ddim yn cytuno nac yn anghytuno, Cytuno, Cytuno'n gryf)

fy nghynllunio

y dulliau addysgu/dysgu rwy'n eu defnyddio

y gweithgareddau addysgu/dysgu rwy'n eu defnyddio

yr adnoddau rydw i'n defnyddio yn fy addysgu

cynnwys/pynciau/themâu fy addysgu

ffocws asesu dysgwyr

fy nulliau o asesu dysgwyr

sut rydw i'n diwallu anghenion pob dysgwr unigol i'w galluogi i wneud cynnydd ar gyflymder priodol

Defnyddiwch y gofod isod i esbonio eich ymateb:

Newidiadau i'r ymarfer

48. I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiadau canlynol? Mae athrawon yn fy ysgol wedi gwneud newidiadau sylweddol i...

(Anghytuno'n gryf, Anghytuno, Ddim yn cytuno nac yn anghytuno, Cytuno, Cytuno'n gryf)

ddogfennaeth gynllunio

y dulliau dysgu a ddefnyddir

y gweithgareddau dysgu a ddefnyddir

yr adnoddau a ddefnyddir wrth addysgu

y cynnwys/themâu/pynciau a addysgir

ffocws asesu dysgwyr

yr ymagwedd tuag at asesu dysgwyr

sut maent yn diwallu anghenion pob dysgwr unigol i'w galluogi i wneud cynnydd ar gyflymder priodol

Defnyddiwch y gofod isod i esbonio eich ymateb:

Elfennau o'r cwricwlwm ar waith – athrawon gweithredol

49. I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiadau canlynol?

Rwy'n hyderus bod fy ymarfer addysgu yn adlewyrchu'r elfennau canlynol o'r cwricwlwm:

(Anghytuno'n gryf, Anghytuno, Ddim yn cytuno nac yn anghytuno, Cytuno, Cytuno'n gryf)

Y pedwar diben

Y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig

Y 12 egwyddor addysgeg

Yr egwyddorion cynnydd

Y disgrifiadau dysgu

50. I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r datganiadau canlynol?

Rwy'n hyderus bod fy ymarfer addysgu yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau canlynol...

(Anghytuno'n gryf, Anghytuno, Ddim yn cytuno nac yn anghytuno, Cytuno, Cytuno'n gryf, Ddim yn siŵr)

Creadigrwydd ac arloesedd ⓘ

Meddwl yn feirniadol a datrys problemau ⓘ

Effeithiolrwydd personol ⓘ

Cynllunio a threfnu ⓘ

Elfennau o'r cwricwlwm ar waith

51. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r canlynol:

Mae'r ymarfer addysgu yn fy ysgol yn adlewyrchu elfennau canlynol y cwricwlwm:

(Anghytuno'n gryf, Anghytuno, Ddim yn cytuno nac yn anghytuno, Cytuno, Cytuno'n gryf)

Y pedwar diben

Y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig

Y 12 egwyddor addysgeg

Yr egwyddorion cynnydd

Y disgrifiadau dysgu

52. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r canlynol: Rwy'n hyderus bod ymarfer addysgu yn fy ysgol yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau canlynol...

(Anghytuno'n gryf, Anghytuno, Ddim yn cytuno nac yn anghytuno, Cytuno, Cytuno'n gryf, Ddim yn siŵr)

Creadigrwydd ac arloesedd ⓘ

Meddwl yn feirniadol a datrys problemau ⓘ

Effeithiolrwydd personol ⓘ

Cynllunio a threfnu ⓘ

Elfennau o'r cwricwlwm ar waith

Nodwch i ba raddau ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau isod

53. Rwy'n hyderus bod cwricwlwm fy ysgol yn cael ei weithredu mewn ffordd sy'n cefnogi dilyniant mewn...

(Anghytuno'n gryf, Anghytuno, Ddim yn cytuno nac yn anghytuno, Cytuno, Cytuno'n gryf, Amherthnasol)

Saesneg

Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

Cymraeg

54. Rwy'n hyderus bod cwricwlwm fy ysgol yn cael ei weithredu mewn ffordd sy'n cefnogi cynnydd mewn...

(Anghytuno'n gryf, Anghytuno, Ddim yn cytuno nac yn anghytuno, Cytuno, Cytuno'n gryf)

Cymhwysedd Digidol

Llythrennedd

Rhifedd

55. Rwy'n hyderus bod cwricwlwm fy ysgol yn cael ei weithredu mewn ffordd sy'n cefnogi dilyniant mewn...

(Anghytuno'n gryf, Anghytuno, Ddim yn cytuno nac yn anghytuno, Cytuno, Cytuno'n gryf)

Celfyddydau Mynegiannol

Iechyd a Lles

Dyniaethau

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Mathemateg a Rhifedd

Gwyddoniaeth a Thechnoleg

56. Rwy'n hyderus bod cwricwlwm fy ysgol yn cael ei weithredu mewn ffordd sy'n cefnogi dilyniant mewn...

(Anghytuno'n gryf, Anghytuno, Ddim yn cytuno nac yn anghytuno, Cytuno, Cytuno'n gryf)

Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n gysylltiedig â Gwaith

Amrywiaeth

Addysg Hawliau Dynol

Cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol

Addysg Cydberthnasol a Rhywioldeb

Ymarfer addysgegol — athrawon gweithredol

Nodwch i ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau isod

57. Yn fy addysgu, rwy'n hyderus bod fy ymarfer...

(Anghytuno'n gryf, Anghytuno, Ddim yn cytuno nac yn anghytuno, Cytuno, Cytuno'n gryf)

yn annog ymdrech barhaus gan ddysgwyr

yn defnyddio cyfuniad o ddulliau

yn adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol

yn ennyn diddordeb dysgwyr

yn defnyddio egwyddorion asesu ar gyfer dysgu

yn annog dysgwyr i gymryd mwy o gyfrifoldeb dros eu dysgu

yn annog dysgwyr i wneud cysylltiadau o fewn ac ar draws meysydd dysgu

yn cefnogi datblygiad cymdeithasol ac emosiynol

yn cefnogi perthnasoedd cadarnhaol

yn annog cydweithio

yn cynnwys pob dysgwr

Ymarfer addysgegol

Nodwch i ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau isod

58. Rwy'n hyderus bod ymarfer addysgu yn fy ysgol i...

(Anghytuno'n gryf, Anghytuno, Ddim yn cytuno nac yn anghytuno, Cytuno, Cytuno'n gryf)

yn annog ymdrech barhaus gan ddysgwyr
yn defnyddio cyfuniad o ddulliau
yn adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol
yn ennyn diddordeb dysgwyr
yn defnyddio egwyddorion asesu ar gyfer dysgu
yn annog dysgwyr i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu
yn annog dysgwyr i wneud cysylltiadau o fewn ac ar draws meysydd dysgu
yn cefnogi datblygiad cymdeithasol ac emosiynol
yn cefnogi perthnasoedd cadarnhaol
yn annog cydweithio
yn cynnwys pob dysgwr

Cynnydd ac asesu — athrawon gweithredol

59. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r canlynol: Rwy'n hyderus bod fy ymarfer asesu...

(Anghytuno'n gryf, Anghytuno, Ddim yn cytuno nac yn anghytuno, Cytuno, Cytuno'n gryf)

yn cefnogi cynnydd pob dysgwr unigol
yn cefnogi dysgwyr i fod yn gyfranogwyr gweithredol yn y broses ddysgu
yn darparu adborth ystyrlon ac adeiladol i ddysgwyr
yn ymgorffori asesu o fewn addysgu a dysgu
yn adlewyrchu'r ddealltwriaeth gyffredin o gynnydd ⓘ
yn llunio darlun o ddatblygiad y dysgwr
yn defnyddio ystod eang o ddulliau asesu
yn helpu rhieni/gofalwyr i ddeall cynnydd eu plentyn

Cynnydd ac asesu

60. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r canlynol: Rwy'n hyderus bod fy ymarfer asesu yn fy ysgol...

(Anghytuno'n gryf, Anghytuno, Ddim yn cytuno nac yn anghytuno, Cytuno, Cytuno'n gryf)

yn cefnogi cynnydd pob dysgwr unigol

yn cefnogi dysgwyr i fod yn gyfranogwyr gweithredol yn y broses ddysgu

yn darparu adborth ystyrlon ac adeiladol i ddysgwyr

yn ymgorffori asesu o fewn addysgu a dysgu

yn adlewyrchu'r ddealltwriaeth gyffredin o gynnydd ⓘ

yn llunio darlun o ddatblygiad y dysgwr

yn defnyddio ystod eang o ddulliau asesu

yn helpu rhieni/gofalwyr i ddeall cynnydd eu plentyn

Galluogi dysgu

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?

61. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r canlynol? Rwy'n hyderus...

(Anghytuno'n gryf, Anghytuno, Ddim yn cytuno nac yn anghytuno, Cytuno, Cytuno'n gryf, Ddim yn siŵr)

yn fy ngallu i ddefnyddio arfer sy'n briodol o ran datblygiad i gefnogi cynnydd dysgwyr

yn fy ngallu i ddarparu profiadau dysgu sy'n briodol o ran datblygiad i gefnogi cynnydd dysgwyr

yn fy nghapasiti i sylwi, dadansoddi ac ymateb i anghenion dysgwyr unigol i gefnogi cynnydd

yn defnyddio'r amgylchedd awyr agored fel rhan o'm harferion addysgu a dysgu

yn gwneud y defnydd gorau o'r mannau dan do sydd ar gael ar gyfer addysgu a dysgu

Ymholi proffesiynol

Mae'r cwestiwn hwn yn gofyn am ymholi proffesiynol. Mae ymholi proffesiynol yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio ymchwil gydweithredol gan athrawon ac arweinwyr ysgolion i ymchwilio i syniadau addysgol newydd, rhoi cynnig ar arferion newydd i ddarganfod beth sy'n gweithio yn eu sefyllfaoedd eu hunain, a rhannu'r canfyddiadau gyda chydweithwyr.

62. Ydych chi wedi bod yn rhan o ymholi proffesiynol yn eich ysgol?

Ydw

Nac ydw

63. I ba raddau y mae ymholi proffesiynol yn cael ei annog yn eich ysgol?

Ddim o gwbl

Ychydig

Llawer

Llawer iawn

Ymholi proffesiynol

Nodwch i ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau isod

64. Yn fy ysgol, mae ymholi proffesiynol...

(Anghytuno'n gryf, Anghytuno, Ddim yn cytuno nac yn anghytuno, Cytuno, Cytuno'n gryf)

yn cefnogi ymchwiliad i addasrwydd addysgeg ar gyfer cyd-destunau a dysgwyr penodol

yn cefnogi ymchwiliad i addasrwydd asesu ar gyfer cyd-destunau a dysgwyr penodol

yn cynnwys cydweithio

yn defnyddio canfyddiadau o ymchwil perthnasol

yn archwilio achosion problemau sy'n ein hwynebu yn ein hymarfer

yn arwain at gwir welliannau mewn ymarfer

Cyfraniad i'r cwricwlwm

65. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r canlynol: Mae fy nghyfraniad i gynllunio a/neu ddatblygu'r cwricwlwm yn fy ysgol...

(Anghytuno'n gryf, Anghytuno, Ddim yn cytuno nac yn anghytuno, Cytuno, Cytuno'n gryf)

yn gwneud i mi deimlo bod gen i ddylanwad

yn gwneud i mi deimlo'n werthfawr

yn gwneud i mi deimlo'n frwdfrydig yn fy ngwaith

wedi ei lywio gan fy mhrofiadau yn y gorffennol

wedi ei gefnogi gan berthnasoedd gwaith cadarnhaol

wedi ei gefnogi gan ansawdd yr amgylchedd ffisegol rwy'n gweithio ynddo

Cynnydd dysgwyr

Atebwch y cwestiwn isod mewn perthynas â dysgwyr yn eich ysgol

66. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r isod:

Rwy'n hyderus y bydd cwricwlwm ein hysgol yn...

(Anghytuno'n gryf, Anghytuno, Ddim yn cytuno nac yn anghytuno, Cytuno, Cytuno'n gryf)

cefnogi ein dysgwyr i ddatblygu yn y ffyrdd a ddisgrifir yn y pedwar diben

cefnogi dysgwyr yr un mor dda i wneud cynnydd, waeth beth fo'u man cychwyn

cefnogi dysgwyr yr un mor dda i wneud cynnydd, waeth beth fo'u hamgylchiadau unigol

galluogi dysgwyr o aelwydydd incwm isel i wneud cynnydd mor llawn â'u cyfoedion

67. Wrth gymharu â'r cwricwlwm blaenorol, rwy'n hyderus y bydd cwricwlwm ein hysgol yn...

(Anghytuno'n gryf, Anghytuno, Ddim yn cytuno nac yn anghytuno, Cytuno, Cytuno'n gryf)

diwallu anghenion pob dysgwr yn well

arwain at wella cynnydd dysgwyr

helpu dysgwyr i gyrraedd eu potensial llawn

gwella lefelau cyrraedd cyffredinol dysgwyr

Cyn i chi fynd...

Os oes gennych amser, byddem wir yn gwerthfawrogi eich ymatebion i'r cwestiynau dewisol canlynol i gael dealltwriaeth ddyfnach o'ch ymatebion i'r arolwg.

Mae croeso i chi ymateb i bob un ohonynt, neu dim ond y rhai rydych chi'n teimlo atyniad atynt.

68. Y peth fwyaf heriol sy'n fy wynebu wrth ymateb i'r Cwricwlwm i Gymru yw...

69. Mae angen cymorth pellach arnaf i'm helpu...

70. Pe byddai cydweithiwr yn gofyn beth oeddwn i'n ei hoffi fwyaf am y Cwricwlwm i Gymru, byddwn i'n dweud...

Caniatâd i ailgysylltu â chi

71. A ydych yn cydsynio i ni ailgysylltu â chi fel rhan o ymchwil debyg yn ddiweddarach yn y gwerthusiad?

Bydd cymryd rhan yn rhoi cyfle pellach i chi rannu eich barn ar weithredu'r Cwricwlwm i Gymru a'n helpu i ddeall sut mae'r diwygiadau'n gweithio, pa gymorth pellach sydd ei angen ac os ydynt yn cael yr effaith a ddymunir ar bob dysgwr, ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hanghenion.

Ydw

Nac ydw

Os felly, nodwch eich cyfeiriad e-bost:

Diwedd yr arolwg

Atodiad B: Gwybodaeth dechnegol am yr arolwg

Mae'r Atodiad hwn yn cyflwyno gwybodaeth dechnegol bellach sy'n ymwneud â'r arolwg.

Isod, nodir y fframwaith samplu ar gyfer yr arolwg i uwch arweinwyr, gan ddangos y sampl a dargedwyd a phoblogaeth yr ysgolion ar gyfer yr arolwg, wedi'u rhannu yn ôl pob strata (maen prawf) yn y sampl.

Tabl 3. Nifer yr ysgolion unigryw ym mhoblogaeth yr arolwg a'r sampl a dargedwyd, yn seiliedig ar CYBLD 2023)

Categoriâu strata	Is-gategoriâu strata	Sampl ysgolion a dargedwyd	Poblogaeth ysgolion ac UC Dau
Sampl Cyffredinol	Cyfanswm	295	1,476
Sector	Cynradd	242	1,210
Sector	Canol (3-16/18) ac Uwchradd	41	205
Sector	UCD	4	22
Sector	Arbennig	8	39
Sector	Cyfanswm	295	1,476
Cyfrwng iaith	Pob ysgol cyfrwng Cymraeg a dwyieithog	88	440
Cyfrwng iaith	Pob ysgol cyfrwng Saesneg	195	975
Cyfrwng iaith	Cyfanswm	283	1,415
Sector a chyfrwng iaith	Ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a dwyieithog	77	384
Sector a chyfrwng iaith	Ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg	165	826
Sector a chyfrwng iaith	Cyfanswm	242	1,210
eFSM	Isel (ysgolion lle y mae llai nag 13% o ddysgwyr yn ddysgwyr eFSM)	91	455

Categoriâu strata	Is-gategoriâu strata	Sampl ysgolion a dargedwyd	Poblogaeth ysgolion ac UC Dau
eFSM	Canolig (ysgolion lle y mae 13.1-25% o ddysgwyr yn ddysgwyr eFSM)	97	483
eFSM	Uchel (ysgolion lle y mae dros 25% o ddysgwyr yn ddysgwyr eFSM)	95	477
eFSM	Cyfanswm	283	1,415
ADY	Isel (ysgolion lle y mae llai na 7% o ddysgwyr yn ddysgwyr ADY)	101	503
ADY	Canolig (ysgolion lle y mae 7.1-14% o ddysgwyr yn ddysgwyr ADY)	92	458
ADY	Uchel (ysgolion lle y mae dros 14% o ddysgwyr yn ddysgwyr ADY)	91	454
ADY	Cyfanswm	283	1,415
Dysgwyr Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol	Isel (ysgolion lle y mae llai na 4% yn ddysgwyr Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol)	87	434
Dysgwyr Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol	Canolig (ysgolion lle y mae 4.1-10% yn ddysgwyr Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol)	103	514
Dysgwyr Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol	Uchel (ysgolion lle y mae dros 10% yn ddysgwyr Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol)	93	467
Dysgwyr Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol	Cyfanswm	283	1,415
Rhanbarth	Canol de Cymru	93	466
Rhanbarth	Canolbarth a gorllewin Cymru	92	459

Categoriâu strata	Is-gategoriâu strata	Sampl ysgolion a dargedwyd	Poblogaeth ysgolion ac UC Dau
Rhanbarth	Gogledd Cymru	80	403
Rhanbarth	De-ddwyrain Cymru	30	148
Rhanbarth	Cyfanswm	295	1,476

Nodir y boblogaeth athrawon isod, yn seiliedig ar SWAC 2023/24.

Tabl 4. Nifer yr athrawon fesul sector a chyfrwng iaith

Sector / Cyfrwng iaith	Cyfrwng Cymraeg a dwyieithog	Cyfrwng Saesneg	Heb eu categoreiddio yn ôl cyfrwng iaith	Cyfanswm
Cynradd a meithrin	3105	9145	30	12280
Ysgolion uwchradd a phob oed (3-16/18)	2905	9315	0	12220
Ysgolion arbennig	Amh	Amh	920	920
Unedau Cyfeirio Disgyblion	Amh	Amh	320	320
Cyfanswm	6010	18460	1270	25740

Ffynhonnell: SWAC 2023/24

Tabl 5. Canran yr athrawon ysgol fesul sector a chyfrwng iaith.

Sector / iaith-cyfrwng	Cyfrwng Cymraeg a dwyieithog	Cyfrwng Saesneg	Heb eu categoreiddio yn ôl cyfrwng iaith	Cyfanswm
Cynradd a meithrin	12%	36%	0%	48%
Ysgolion uwchradd a chanol (3-16/18)	11%	36%	0%	47%
Ysgolion arbennig	0%	0%	4%	4%
Unedau Cyfeirio Disgyblion	0%	0%	1%	1%
Cyfanswm	23%	72%	5%	100%

Ffynhonnell: SWAC 2023/24

Tabl 7. Poblogaeth, sampl enghreifftiol a chyfyngau hyder ar gyfer athrawon yn ôl nifer y blynyddoedd ers sicrhau SAC

Blynyddoedd ers sicrhau SAC	Cyfanswm yr ymarferwyr yn y boblogaeth	Sampl enghreifftiol	Cyfwng hyder enghreifftiol +/-%
Llai na 3 blynedd	2405	95	10%
3-5 mlynedd	2328	92	10%
6-10 mlynedd	3649	145	8%
11-15 mlynedd	3978	158	8%
16-20 mlynedd	4229	168	7%
21-25 mlynedd	3886	154	8%
26-30 mlynedd	3131	124	9%
31 mlynedd +	1634	65	12%
Cyfanswm	25240	1000	3%

Ffynhonnell: SWAC 2023/24

Atodiad C: Canfyddiadau dadansoddiad o is-grwpiau

Mi wnaeth gwaith dadansoddiad o is-grwpiau^[Troednodyn 1] yn seiliedig ar ddata'r arolwg ganfod tueddiadau ystadegol nodedig a welwyd yn y data.

Ymrwymiad i newid y cwricwlwm (uwch arweinwyr)

Ar gyfer y datganiad “Rwyf bob amser yn hyrwyddo'r Cwricwlwm i Gymru wrth siarad â chydweithwyr”, roedd uwch arweinwyr o ysgolion lle y gwelir canran uchel o ddysgwyr eFSM yn fwy tebygol o gytuno, o'u cymharu ag ymatebwyr o ysgolion lle y gwelir canran ganolig o ddysgwyr eFSM. Yn ogystal, roedd uwch arweinwyr o ysgolion yn rhanbarth y canolbarth a'r gorllewin yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu ag ymatebwyr o ranbarth canol de Cymru.

Ar gyfer y datganiad, “Rwy'n ystyried bod y Cwricwlwm i Gymru yn llawer gwell na'r cwricwlwm blaenorol”, roedd uwch arweinwyr a oedd wedi gweithio ym maes addysgu neu addysg am 6 i 10 mlynedd yn llai tebygol o gytuno, o'u cymharu ag ymatebwyr yr oedd ganddynt dros 11 mlynedd o brofiad.

Gwybodaeth am newid cwricwlwm (uwch arweinwyr)

Ar gyfer y datganiad, “Gallaf egluro prif elfennau'r Cwricwlwm i Gymru i eraill”, roedd uwch arweinwyr o ysgolion lle y gwelir canran uchel o ddysgwyr sydd ag ADY yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu ag ymatebwyr o ysgolion lle y gwelir canran ganolig o ddysgwyr sydd ag ADY.

Ar gyfer y datganiad, “Rwy'n deall fy rôl wrth weithredu'r Cwricwlwm i Gymru”, roedd uwch arweinwyr yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai nad oeddent yn uwch arweinwyr. Roedd uwch arweinwyr o ranbarth y de ddwyrain yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ranbarth y gogledd.

Ar gyfer y datganiad “Mae'r hyn sydd wedi newid yn y Cwricwlwm i Gymru o'i gymharu â'r cwricwlwm blaenorol yn glir i mi”, roedd uwch arweinwyr yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai nad oeddent yn uwch arweinwyr. Roedd uwch arweinwyr nad oedd yn addysgu yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu ag uwch arweinwyr sy'n addysgu, ac roedd uwch arweinwyr oedd â dros 31 mlynedd o brofiad ym myd addysg yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai sydd ag 11 i 30 mlynedd o brofiad. Roedd uwch arweinwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion cyfrwng Saesneg.

Ar gyfer y datganiad, “Mae'r rhesymau dros ddiwygio'r cwricwlwm yn glir i mi”, roedd uwch arweinwyr o UC Dau neu ysgolion arbennig yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion uwchradd. Roedd uwch arweinwyr o ysgolion lle y gwelir canran isel o ddysgwyr ethnig leiafrifol yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolig o ddysgwyr ethnig leiafrifol. Roedd uwch arweinwyr nad oedd yn addysgu yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â chyfrifoldebau addysgu ac roedd uwch arweinwyr oedd â 6 i 20 mlynedd o brofiad arwain yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r

[1] Cynhaliwyd gwaith dadansoddi o'r gwahaniaethau fesul is-grŵp trwy gyfuno ymatebion uwch arweinwyr sy'n addysgu ac uwch arweinwyr nad ydynt yn addysgu.

rhai oedd â llai na 3 blynedd o brofiad. Roedd uwch arweinwyr oedd â 6 i 10 mlynedd o brofiad ym myd addysg yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â dros 30 mlynedd o brofiad ym myd addysg.

Dealltwriaeth o newid y cwricwlwm (uwch arweinwyr)

Ar gyfer y datganiad, "Rwy'n deall sut y dylwn newid fy ymarfer mewn ymateb i'r Cwricwlwm i Gymru", roedd uwch arweinwyr yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai nad oedd yn uwch arweinwyr. Roedd uwch arweinwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion cyfrwng Saesneg.

Ar gyfer y datganiad, "Rwy'n deall beth sy'n ofynnol i'm hysgol wneud i gynllunio cwricwlwm ein hunain yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru", roedd uwch arweinwyr yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai nad oedd yn uwch arweinwyr. Roedd uwch arweinwyr oedd â 31 mlynedd o brofiad neu fwy ym myd addysg yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai sydd ag 11 i 30 mlynedd o brofiad. Roedd uwch arweinwyr o ysgolion lle y gwelir canran isel neu uchel o ddysgwyr ethnig leiafrifol yn llai tebygol o gytuno, o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolig o ddysgwyr ethnig leiafrifol. Roedd uwch arweinwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion cyfrwng Saesneg. Roedd uwch arweinwyr o ysgolion lle y gwelir canran uchel o ddysgwyr sydd ag ADY yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran isel o ddisgyblion sydd ag ADY. Roedd uwch arweinwyr oedd â 31 mlynedd o brofiad neu fwy ym myd addysg yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â 3 i 10 mlynedd o brofiad ym myd addysg.

Ar gyfer y datganiad, "Rwy'n deall beth sy'n ofynnol i'm hysgol wneud i gynllunio trefniadau asesu ein hunain yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru", roedd uwch arweinwyr oedd â 31 mlynedd o brofiad neu fwy ym myd addysg yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â 6-10 mlynedd o brofiad.

Y gallu i weithredu mewn ffyrdd sy'n gwireddu newid cwricwlwm (uwch arweinwyr)

Ar gyfer y datganiad ynghylch hyder mewn sgiliau ymarferwyr i wireddu newid cwricwlwm, gwelwyd gwahaniaeth amlwg rhwng ymatebion arweinwyr canol o'u cymharu ag ymatebion athrawon, gydag arweinwyr canol, ar gyfartaledd, yn fwy tebygol o gytuno.

Ar gyfer y datganiad ynghylch hyder am wybodaeth pwnc, gwelwyd gwahaniaeth amlwg rhwng uwch arweinwyr o'u cymharu â'r rhai nad oedd yn uwch arweinwyr, gydag uwch arweinwyr ar gyfartaledd yn fwy tebygol o gytuno. Ar gyfer y datganiad hwn, roedd uwch arweinwyr yn fwy tebygol o adrodd lefelau cytuno is os oeddent yn gweithio mewn ysgolion lle y gwelir canran isel o ddysgwyr sydd ag ADY, o'u cymharu ag ysgolion lle y gwelir canran ganolig o ddysgwyr sydd ag ADY, neu os nad oes ganddynt unrhyw gyfrifoldebau cwricwlwm o'u cymharu â'r rhai oedd â chyfrifoldebau cwricwlwm.^[Troednodyn 2]

[2] Yn cael eu diffinio fel bod yn gyfrifol am y cwricwlwm mewn un o'r meysydd canlynol neu fwy, y Celfyddydau Mynegiannol, Iechyd a Lles, y Dyniaethau, Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, Mathemateg a Rhifedd, Gwyddoniaeth a Thechnoleg, neu gymhwysedd Digidol.

Ar gyfer y datganiad ynghylch hyder am wybodaeth addysgegol, roedd uwch arweinwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg ar gyfartaledd yn llai tebygol o gytuno na'r rhai o ysgolion cyfrwng Saesneg. Roedd uwch arweinwyr o ysgolion lle y gwelir canran uchel o ddysgwyr ethnig leiafrifol yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran isel o ddysgwyr ethnig leiafrifol.

Ar gyfer y datganiad ynghylch hyder am y ddarpariaeth profiadau dilys, roedd uwch arweinwyr o ysgolion lle y gwelir canran isel o ddysgwyr eFSM ar gyfartaledd yn fwy tebygol o gytuno na'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolog o ddysgwyr eFSM. Roedd uwch arweinwyr o ysgolion lle y gwelir canran uchel o ddysgwyr ethnig leiafrifol yn llai tebygol o gytuno gyda'r datganiad o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolog o ddysgwyr ethnig leiafrifol.

Ar gyfer y datganiad ynghylch hyder wrth gynorthwyo dysgwyr i wneud cysylltiadau rhwng pynciau a meysydd dysgu a phrofiad, roedd uwch arweinwyr o ysgolion lle y gwelir canran uchel o ddysgwyr o gefndir ethnig leiafrifol yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolog o ddysgwyr o gefndir ethnig leiafrifol.

Ar gyfer y datganiad ynghylch hyder am arbenigedd cynllunio cwricwlwm, roedd uwch arweinwyr oedd â 31 mlynedd o brofiad neu fwy o addysgu yn fwy tebygol o gytuno nag uwch arweinwyr oedd â llai na 3 blynedd neu rhwng 11 a 30 mlynedd o brofiad. Roedd uwch arweinwyr gyda dros 21 mlynedd o brofiad arwain yn llai tebygol o gytuno gyda'r datganiad o'u cymharu â'r rhai oedd â rhwng 0 a 5 mlynedd o brofiad arwain.

Ar gyfer y datganiad ynghylch hyder am gynllunio asesu, roedd uwch arweinwyr oedd â dros 21 mlynedd o brofiad arwain yn llai tebygol o gytuno gyda'r datganiad, o'u cymharu â'r rhai oedd â llai nag 21 mlynedd o brofiad arwain.

Ar gyfer y datganiad ynghylch hyder am y gallu i addasu ymarfer proffesiynol, roedd uwch arweinwyr yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai nad oedd yn uwch arweinwyr. Roedd uwch arweinwyr oedd â 6 i 20 mlynedd o brofiad arwain yn llai tebygol o gytuno gyda'r datganiad o'u cymharu â'r rhai oedd â 0-3 blynedd o brofiad arwain.

Lles (uwch arweinwyr)

Ar gyfer y datganiad, "Mae fy ysgol yn lle da i weithio", roedd uwch arweinwyr yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai nad oedd yn uwch arweinwyr. Roedd uwch arweinwyr nad oedd yn addysgu yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â chyfrifoldebau addysgu, ac roedd uwch arweinwyr o ysgolion lle y gwelir canran uchel o ddysgwyr eFSM yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolog o ddysgwyr eFSM. Roedd uwch arweinwyr oedd â 3 i 5 mlynedd o brofiad arwain yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â llai na 3 blynedd o brofiad neu dros 20 mlynedd o brofiad. Roedd uwch arweinwyr cynradd yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion uwchradd.

Ar gyfer y datganiad, "Rwy'n fodlon gyda fy swydd", roedd uwch arweinwyr yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai nad oedd yn uwch arweinwyr. Roedd uwch arweinwyr heb gyfrifoldebau cwricwlwm yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â chyfrifoldebau

cwricwlwm, ac roedd uwch arweinwyr cynradd yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion uwchradd. Roedd uwch arweinwyr o ranbarth y de ddwyrain yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ranbarth y gogledd.

Ar gyfer y datganiad, "Rwy'n fodlon â'm cydbwysedd bywyd a gwaith", roedd uwch arweinwyr yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai nad oedd yn uwch arweinwyr. Roedd uwch arweinwyr cynradd yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion uwchradd. Roedd uwch arweinwyr o'r de ddwyrain yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ranbarthau y canolbarth a'r gorllewin, a'r gogledd.

Ar gyfer y datganiad, "Mae fy ngwaith fel addysgwr yn ystyrlon", roedd uwch arweinwyr yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai nad oedd yn uwch arweinwyr. Roedd uwch arweinwyr o ysgolion lle y gwelir canran isel neu uchel o ddysgwyr sydd ag ADY yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolig o ddysgwyr sydd ag ADY. Roedd uwch arweinwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion cyfrwng Saesneg ac roedd uwch arweinwyr cynradd yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion uwchradd.

Ar gyfer y datganiad, "Mae fy mherthynas gyda dysgwyr yn rhoi boddhad i mi", roedd uwch arweinwyr yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai nad oedd yn uwch arweinwyr. Roedd uwch arweinwyr oedd â 31 mlynedd o brofiad neu fwy ym myd addysg yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai sydd ag 11 i 30 mlynedd o brofiad. Roedd uwch arweinwyr o UC Dau ac ysgolion arbennig yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion uwchradd.

Ar gyfer y datganiad, "Mae fy mherthynas gyda chydweithwyr yn gefnogol", roedd uwch arweinwyr yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai nad oedd yn uwch arweinwyr. Roedd uwch arweinwyr oedd â dros 21 mlynedd o brofiad arwain yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â llai nag 21 mlynedd o brofiad. Roedd uwch arweinwyr o ranbarth y de ddwyrain yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ranbarthau canol de Cymru, y gogledd a'r canolbarth a'r gorllewin ac roedd uwch arweinwyr o ysgolion lle y gwelir canran isel o ddysgwyr eFSM yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolig o ddysgwyr eFSM. Roedd uwch arweinwyr cynradd yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion uwchradd.

Ar gyfer y datganiad, "Rwy'n teimlo gallaf fod yn fi fy hun gyda chydweithwyr yn y gwaith", roedd uwch arweinwyr oedd â 6 i 10 mlynedd neu 31 mlynedd o brofiad neu fwy ym myd addysg yn fwy tebygol o gytuno, o'u cymharu â'r rhai sydd ag 11 i 30 mlynedd o brofiad ym myd addysg.

Effeithiolrwydd wrth arwain y cwricwlwm (uwch arweinwyr)

Ar gyfer y datganiad am hyder uwch arweinwyr yn eu gallu i "ddylanwadu ar ymrwymiad eraill i newid y cwricwlwm", roedd y rhai oedd â 31 mlynedd o brofiad neu fwy ym myd addysg yn fwy tebygol o fod yn hyderus o'u cymharu â'r rhai sydd ag 11 i 30 mlynedd o brofiad. Roedd y rhai oedd â 6 i 10 mlynedd o brofiad yn llai tebygol o fod yn hyderus na'r rhai sydd ag 11 mlynedd o brofiad neu fwy ym myd addysg. Roedd uwch arweinwyr nad

oedd yn addysgu yn fwy tebygol o fod yn hyderus o'u cymharu ag uwch arweinwyr sy'n addysgu. Roedd uwch arweinwyr o ysgolion lle y gwelir canran isel o ddysgwyr ethnig leiafrifol yn llai tebygol o fod yn hyderus na'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolog o ddysgwyr ethnig leiafrifol. Roedd uwch arweinwyr o ranbarth y gogledd yn llai tebygol o fod yn hyderus na'r rhai o ranbarthau y de ddwyrain, y canolbarth a'r gorllewin a chanol de Cymru, ac roedd y rhai heb unrhyw gyfrifoldebau cwricwlwm yn llai tebygol o fod yn hyderus nag ymatebwyr oedd â chyfrifoldebau cwricwlwm.

Ar gyfer y datganiad ynghylch hyder uwch arweinwyr yn eu gallu i "ddatblygu dealltwriaeth pobl eraill o sut i ymateb i'r Cwricwlwm i Gymru", roedd uwch arweinwyr o ysgolion lle y gwelir canran uchel o ddysgwyr eFSM yn fwy tebygol o fod yn hyderus na'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolog o ddysgwyr eFSM. Roedd uwch arweinwyr o ysgolion lle y gwelir canran isel o ddysgwyr ethnig leiafrifol yn llai tebygol o fod yn hyderus na'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolog neu uchel o ddysgwyr ethnig leiafrifol. Roedd uwch arweinwyr oedd â 6 i 10 mlynedd o brofiad ym myd addysg yn llai tebygol o fod yn hyderus na'r rhai sydd ag 11 mlynedd o brofiad neu fwy ym myd addysg, ac roedd y rhai heb unrhyw gyfrifoldebau cwricwlwm yn llai tebygol o fod yn hyderus na'r rhai oedd â chyfrifoldebau cwricwlwm. Roedd uwch arweinwyr o ranbarth y canolbarth a'r gorllewin yn llai tebygol o fod yn hyderus o'u cymharu â'r rhai o ranbarth y de ddwyrain.

Ar gyfer y datganiad ynghylch hyder uwch arweinwyr yn eu gallu i "gefnogi eraill i ddatblygu eu dysgu a'u haddysgu", roedd uwch arweinwyr o ysgolion lle y gwelir canran uchel o ddysgwyr sydd ag ADY yn llai tebygol o fod yn hyderus na'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran isel neu ganolog o ddysgwyr sydd ag ADY. Roedd y rhai o ysgolion lle y gwelir canran isel o ddysgwyr ethnig leiafrifol yn llai tebygol o fod yn hyderus na'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolog o ddysgwyr ethnig leiafrifol. Roedd uwch arweinwyr oedd â hyd at 3 blynedd o brofiad ym myd addysg yn llai tebygol o fod yn hyderus na'r rhai oedd â 3 blynedd o brofiad neu fwy, ac roedd y rhai heb unrhyw gyfrifoldebau cwricwlwm yn llai tebygol o fod yn hyderus na'r rhai oedd â chyfrifoldebau cwricwlwm. Roedd uwch arweinwyr yn rhanbarth y de ddwyrain yn fwy tebygol o fod yn hyderus o'u cymharu â'r rhai o ranbarthau y gogledd a'r canolbarth a'r gorllewin. Roedd uwch arweinwyr oedd â 3 i 5 mlynedd o brofiad arwain yn llai tebygol o fod yn hyderus o'u cymharu â'r rhai sydd ag 21 mlynedd o brofiad arwain neu fwy.

Ar gyfer y datganiad ynghylch hyder uwch arweinwyr yn eu gallu i "ddatrys heriau wrth gynllunio a gweithredu'r cwricwlwm", roedd uwch arweinwyr o ysgolion lle y gwelir canran isel o ddysgwyr ethnig leiafrifol yn llai tebygol o fod yn hyderus na'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolog o ddysgwyr ethnig leiafrifol. Roedd y rhai oedd â 6 i 10 mlynedd o brofiad ym myd addysg yn llai tebygol o fod yn hyderus na'r rhai sydd ag 11 mlynedd o brofiad neu fwy, ac roedd y rhai heb unrhyw gyfrifoldebau cwricwlwm yn llai tebygol o fod yn hyderus na'r rhai oedd â chyfrifoldebau cwricwlwm. Roedd uwch arweinwyr o'r gogledd yn llai tebygol o fod yn hyderus o'u cymharu â'r rhai o ranbarth y de ddwyrain.

Ar gyfer y datganiad ynghylch hyder uwch arweinwyr yn eu gallu i "arwain trafodaethau cwricwlwm sy'n cefnogi gwella'r cwricwlwm", roedd uwch arweinwyr o ysgolion lle y gwelir canran uchel o ddysgwyr sydd ag ADY yn llai tebygol o fod yn hyderus na'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolog o ddysgwyr sydd ag ADY. Roedd uwch arweinwyr o ysgolion lle y gwelir canran isel o ddysgwyr ethnig leiafrifol yn llai tebygol o fod yn hyderus na'r rhai o

O ran hyder yn y ffaith bod ymarferion addysgu yn cynnwys pob dysgwr, roedd uwch arweinwyr o ysgolion lle y gwelir canran uchel o ddysgwyr eFSM yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolig o ddysgwyr eFSM. Roedd uwch arweinwyr y mae eu prif rôl yn arweinydd canol yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai y mae eu prif rôl yn athro. Roedd uwch arweinwyr oedd â 31 mlynedd o brofiad neu fwy ym myd addysg yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â 3 i 30 mlynedd o brofiad, ac roedd y rhai oedd â 3 i 5 mlynedd o brofiad yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai sydd ag 11 i 30 mlynedd o brofiad.

Cynnydd ac asesu (uwch arweinwyr)

O ran hyder yn y ffaith bod ymarferion asesu yn cefnogi cynnydd dysgwyr unigol, roedd uwch arweinwyr y mae eu prif rôl yn arweinydd canol yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai y mae eu prif rôl yn athro.

O ran hyder yn y ffaith bod ymarferion asesu yn cefnogi dysgwyr i fod yn gyfranogwyr gweithredol yn y broses ddysgu, roedd uwch arweinwyr oedd â 6 i 20 mlynedd o brofiad arwain yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â llai na 3 blynedd o brofiad arwain. Roedd uwch arweinwyr o ysgolion lle y gwelir canran uchel o ddysgwyr eFSM yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolig o ddysgwyr eFSM. Roedd uwch arweinwyr o ysgolion lle y gwelir canran uchel o ddysgwyr ethnig leiafrifol yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolig o ddysgwyr ethnig leiafrifol. Roedd uwch arweinwyr o ysgolion lle y gwelir canran uchel o ddysgwyr sydd ag ADY yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai lle y gwelir canran isel o ddysgwyr sydd ag ADY. Roedd uwch arweinwyr y mae eu prif rôl yn arweinydd canol yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai y mae eu prif rôl yn athro.

O ran hyder yn y ffaith bod ymarferion asesu yn cynnwys darparu adborth ystyrlon ac adeiladol, roedd uwch arweinwyr cynradd yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu ag arweinwyr uwchradd. Roedd uwch arweinwyr y mae eu prif rôl yn arweinydd canol yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai y mae eu prif rôl yn athro.

O ran hyder yn y ffaith bod ymarferion asesu yn ymgorffori asesu o fewn addysgu a dysgu, roedd uwch arweinwyr oedd â 6 i 20 mlynedd o brofiad arwain yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â llai na 6 blynedd o brofiad arwain. Roedd uwch arweinwyr y mae eu prif rôl yn arweinydd canol yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai y mae eu prif rôl yn athro.

O ran hyder yn y ffaith bod ymarferion asesu yn adlewyrchu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd, roedd uwch arweinwyr o ysgolion lle y gwelir canran uchel o ddysgwyr eFSM yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolig o ddysgwyr eFSM. Roedd uwch arweinwyr y mae eu prif rôl yn arweinydd canol yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai y mae eu prif rôl yn athro. Roedd uwch arweinwyr o ysgolion lle y gwelir canran uchel o ddysgwyr sydd ag ADY yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran isel o ddysgwyr sydd ag ADY.

O ran hyder yn y ffaith bod ymarferion asesu yn cefnogi datblygiad y dysgwr, roedd uwch arweinwyr oedd â 6 i 20 mlynedd o brofiad arwain yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â llai na 3 blynedd o brofiad arwain. Roedd uwch arweinwyr oedd â 3 i 5 mlynedd o brofiad ym myd addysg yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â 6 blynedd o brofiad neu fwy.

O ran hyder yn y ffaith bod ymarferion asesu yn defnyddio ystod eang o ddulliau asesu, roedd uwch arweinwyr oedd â 31 mlynedd o brofiad neu fwy ym myd addysg yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â 3 i 30 mlynedd o brofiad. Roedd y rhai oedd â 3 i 5 mlynedd o brofiad ym myd addysg yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai sydd ag 11 i 30 mlynedd o brofiad. Roedd uwch arweinwyr oedd â 6 i 20 mlynedd o brofiad arwain yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â dros 20 mlynedd o brofiad arwain.

O ran hyder yn y ffaith bod ymarferion asesu yn helpu rhieni/gofalwyr i ddeall cynnydd eu plentyn, roedd uwch arweinwyr yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai nad oedd yn uwch arweinwyr. Roedd uwch arweinwyr oedd â 31 mlynedd o brofiad neu fwy ym myd addysg yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â 3 i 30 mlynedd o brofiad. Roedd y rhai oedd â 3 i 5 mlynedd o brofiad ym myd addysg yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai sydd ag 11 i 30 mlynedd o brofiad. Roedd uwch arweinwyr cynradd yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu ag uwch arweinwyr uwchradd.

Galluogi Dysgu (uwch arweinwyr)

Ar gyfer y datganiad ynghylch hyder yn "fy ngallu i ddefnyddio arfer sy'n briodol o ran datblygiad i gefnogi cynnydd dysgwyr", roedd uwch arweinwyr oedd â 3 i 5 mlynedd o brofiad ym myd addysg yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â 6 blynedd o brofiad neu fwy. Roedd uwch arweinwyr o ysgolion arbennig ac UC Dau yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion cynradd.

Ar gyfer y datganiad ynghylch hyder yn "fy ngallu i ddarparu profiadau dysgu sy'n briodol o ran datblygiad i gefnogi cynnydd dysgwyr", roedd uwch arweinwyr o ysgolion arbennig ac UC Dau yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion cynradd ac uwchradd. Roedd uwch arweinwyr y mae eu prif rôl yn arweinydd canol yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai y mae eu prif rôl yn athro.

Ar gyfer y datganiad ynghylch hyder mewn “gwneud y defnydd gorau o’r mannau dan do sydd ar gael ar gyfer addysgu a dysgu”, roedd uwch arweinwyr o ysgolion lle y gwelir canran isel o ddysgwyr ethnig leiafrifol yn llai tebygol o gytuno o’u cymharu â’r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolog neu uchel o ddysgwyr ethnig leiafrifol. Roedd uwch arweinwyr oedd â 3 i 5 mlynedd o brofiad arwain yn llai tebygol o gytuno o’u cymharu â’r rhai oedd â llai na 3 neu rhwng 6 ac 20 mlynedd o brofiad arwain.

Ymholi proffesiynol (uwch arweinwyr)

Ar gyfer y datganiad ynghylch y graddau yr anogir ymholi proffesiynol yn eu hysgol, roedd uwch arweinwyr yn fwy tebygol o adrodd am lefelau anogaeth uwch na’r rhai nad oedd yn uwch arweinwyr. Mae uwch arweinwyr nad oedd yn addysgu yn fwy tebygol o adrodd am lefelau anogaeth uwch o’u cymharu ag athrawon, ac mae’r rhai oedd â 31 mlynedd o brofiad neu fwy ym myd addysg yn fwy tebygol o adrodd am lefelau anogaeth uwch o’u cymharu â’r rhai sydd ag 11 i 30 mlynedd o brofiad. Roedd uwch arweinwyr y mae eu prif rôl yn arweinydd canol yn llai tebygol o adrodd am anogaeth o’u cymharu â’r rhai y mae eu prif rôl yn athro, ac roedd uwch arweinwyr heb unrhyw gyfrifoldebau cwricwlwm yn llai tebygol o adrodd am anogaeth o’u cymharu â’r rhai oedd â chyfrifoldebau cwricwlwm. Roedd uwch arweinwyr o ysgolion lle y gwelir canran uchel o ddysgwyr ethnig leiafrifol yn llai tebygol o adrodd am anogaeth na’r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolog o ddysgwyr ethnig leiafrifol.

Ar gyfer y datganiad ynghylch ymholi proffesiynol yn eu hysgol yn cefnogi ymchwiliad i addasrwydd addysgeg ar gyfer cyd-destunau a dysgwyr penodol, roedd uwch arweinwyr oedd â 6 i 20 mlynedd o brofiad arwain yn fwy tebygol o gytuno o’u cymharu â’r rhai oedd â llai na 3 mlynedd o brofiad arwain. Roedd uwch arweinwyr oedd â 3 i 5 mlynedd o brofiad ym myd addysg yn llai tebygol o gytuno o’u cymharu â’r rhai oedd â 31 mlynedd o brofiad neu fwy. Roedd uwch arweinwyr y mae eu prif rôl yn arweinydd canol yn llai tebygol o gytuno o’u cymharu â’r rhai y mae eu prif rôl yn athro.

Ar gyfer y datganiad ynghylch ymholi proffesiynol yn eu hysgol yn cefnogi ymchwiliad i addasrwydd asesu ar gyfer cyd-destunau a dysgwyr penodol, roedd uwch arweinwyr yn fwy tebygol o gytuno o’u cymharu â’r rhai nad oedd yn uwch arweinwyr. Roedd uwch arweinwyr o ranbarth y de ddwyrain yn fwy tebygol o gytuno o’u cymharu â’r rhai o ranbarth canol de Cymru. Roedd uwch arweinwyr cynradd yn llai tebygol o gytuno o’u cymharu ag uwch arweinwyr uwchradd ac roedd y rhai y mae eu prif rôl yn arweinydd canol yn llai tebygol o gytuno o’u cymharu â’r rhai y mae eu prif rôl yn athro. Roedd uwch arweinwyr oedd â 3 i 5 mlynedd o brofiad ym myd addysg yn llai tebygol o gytuno o’u cymharu â’r rhai oedd â 31 mlynedd o brofiad neu fwy.

Ar gyfer y datganiad ynghylch ymholi proffesiynol yn eu hysgol yn cynnwys cydweithio, roedd uwch arweinwyr oedd â 31 mlynedd o brofiad neu fwy ym myd addysg yn fwy tebygol o gytuno o’u cymharu â’r rhai oedd â 6 i 30 mlynedd o brofiad. Roedd uwch arweinwyr y mae eu prif rôl yn arweinydd canol yn llai tebygol o gytuno o’u cymharu â’r rhai y mae eu prif rôl yn athro. Roedd uwch arweinwyr o ranbarth y de ddwyrain yn fwy tebygol o gytuno o’u cymharu â’r rhai o ranbarthau y canolbarth a’r gorllewin a’r gogledd.

Ar gyfer y datganiad ynghylch ymholi proffesiynol yn eu hysgol yn defnyddio canfyddiadau o waith ymchwil perthnasol, roedd uwch arweinwyr yn fwy tebygol o gytuno o’u cymharu â’r

rhai nad oedd yn uwch arweinwyr. Roedd uwch arweinwyr oedd â 31 mlynedd o brofiad neu fwy ym myd addysg yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â 3 i 5 neu 11 i 30 mlynedd o brofiad. Roedd uwch arweinwyr y mae eu prif rôl yn arweinydd canol yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai y mae eu prif rôl yn athro ac roedd yr uwch arweinwyr hynny heb unrhyw gyfrifoldebau cwricwlwm yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â chyfrifoldebau cwricwlwm.

Ar gyfer y datganiad ynghylch ymholi proffesiynol yn eu hysgol yn archwilio achosion problemau sy'n ein hwynebu yn ein hymarfer, roedd uwch arweinwyr oedd â 3 i 5 mlynedd o brofiad ym myd addysg yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â 6 blynedd o brofiad neu fwy.

Ar gyfer y datganiad ynghylch ymholi proffesiynol yn eu hysgol yn arwain at wir welliannau mewn ymarfer, roedd uwch arweinwyr yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai nad oedd yn uwch arweinwyr. Roedd uwch arweinwyr oedd â 31 mlynedd o brofiad neu fwy ym myd addysg yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â 3 i 5 neu 11 i 30 mlynedd o brofiad. Roedd uwch arweinwyr cynradd yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu ag uwch arweinwyr uwchradd ac roedd y rhai y mae eu prif rôl yn arweinydd canol yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai y mae eu prif rôl yn athro.

Cyfraniad i'r cwricwlwm (uwch arweinwyr)

Ar gyfer y datganiad "mae'n gwneud i mi deimlo bod gen i ddylanwad", roedd uwch arweinwyr yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai nad oedd yn uwch arweinwyr. Roedd uwch arweinwyr oedd â 6 i 20 mlynedd o brofiad arwain yn fwy tebygol o gytuno na'r rhai oedd â llai na 3 blynedd o brofiad arwain, ac roedd uwch arweinwyr o ysgolion lle y gwelir canran uchel o ddysgwyr eFSM yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai lle y gwelir canran ganolig o ddysgwyr eFSM. Roedd uwch arweinwyr o ysgolion lle y gwelir canran isel neu uchel o ddysgwyr ethnig leiafrifol yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolig o ddysgwyr ethnig leiafrifol. Roedd uwch arweinwyr o ysgolion lle y gwelir canran isel o ddysgwyr sydd ag ADY yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolig o ddysgwyr sydd ag ADY. Roedd uwch arweinwyr cynradd yn llai tebygol o gytuno na'r rhai o ysgolion uwchradd, ac roedd uwch arweinwyr y mae eu prif rôl yn arweinydd canol yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai y mae eu prif rôl yn athro.

Ar gyfer y datganiad "mae'n gwneud i mi deimlo'n werthfawr", roedd uwch arweinwyr yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai nad oedd yn uwch arweinwyr. Roedd uwch arweinwyr o ysgolion lle y gwelir canran uchel o ddysgwyr eFSM yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran isel neu ganolig o ddysgwyr eFSM. Roedd uwch arweinwyr o ysgolion lle y gwelir canran isel neu uchel o ddysgwyr ethnig leiafrifol yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolig o ddysgwyr ethnig leiafrifol. Roedd uwch arweinwyr cynradd yn llai tebygol o gytuno na'r rhai o ysgolion uwchradd, ac roedd uwch arweinwyr y mae eu prif rôl yn arweinydd canol yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai y mae eu prif rôl yn athro.

Ar gyfer y datganiad "mae'n gwneud i mi deimlo'n frwdfrydig yn fy ngwaith", roedd uwch arweinwyr yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai nad oedd yn uwch arweinwyr. Roedd uwch arweinwyr cynradd yn llai tebygol o gytuno na'r rhai o ysgolion uwchradd, ac

roedd uwch arweinwyr y mae eu prif rôl yn arweinydd canol yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai y mae eu prif rôl yn athro.

Ar gyfer y datganiad “yn cael ei gefnogi gan berthnasoedd gwaith cadarnhaol”, roedd uwch arweinwyr yn fwy tebygol o gytuno na'r rhai nad oedd yn uwch arweinwyr, ac roedd uwch arweinwyr oedd â 31 mlynedd o brofiad neu fwy ym myd addysg yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai sydd ag 11 i 30 mlynedd o brofiad.

Ar gyfer y datganiad “yn cael ei gefnogi gan ansawdd yr amgylchedd ffisegol rwy'n gweithio ynddo”, roedd uwch arweinwyr yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai nad oedd yn uwch arweinwyr. Roedd uwch arweinwyr o ysgolion lle y gwelir canran uchel o ddysgwyr eFSM yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran isel neu ganolig o ddysgwyr eFSM. Roedd uwch arweinwyr oedd â 3 i 5 mlynedd o brofiad arwain yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â llai na 3 blynedd neu fwy na 6 blynedd o brofiad arwain neu fwy.

Hyder y bydd dysgwyr yn gwneud cynnydd (uwch arweinwyr)

Ar gyfer y datganiad ynghylch hyder y byddai cwricwlwm yr ysgol yn “cefnogi ein dysgwyr i ddatblygu yn y ffyrdd a ddisgrifir yn y pedwar diben”, roedd uwch arweinwyr o ysgolion lle y gwelir canran uchel o ddysgwyr eFSM yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolig o ddysgwyr eFSM.

Ar gyfer y datganiad ynghylch hyder y byddai cwricwlwm yr ysgol yn “cefnogi dysgwyr yr un mor dda i wneud cynnydd, waeth beth fo'u man cychwyn”, roedd uwch arweinwyr o ysgolion lle y gwelir canran uchel o ddysgwyr eFSM yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolig o ddysgwyr eFSM. Roedd uwch arweinwyr o ysgolion lle y gwelir canran isel o ddysgwyr ethnig leiafrifol yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolig o ddysgwyr ethnig leiafrifol.

Ar gyfer y datganiad ynghylch hyder y byddai cwricwlwm yr ysgol yn “cefnogi dysgwyr yr un mor dda i wneud cynnydd, waeth beth fo'u hamgylchiadau unigol”, roedd uwch arweinwyr o ysgolion lle y gwelir canran isel o ddysgwyr ethnig leiafrifol yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolig o ddysgwyr ethnig leiafrifol.

Ar gyfer y datganiad ynghylch hyder y byddai cwricwlwm yr ysgol yn “galluogi dysgwyr o aelwydydd incwm isel i wneud cynnydd mor llawn â'u cyfoedion”, roedd uwch arweinwyr o ysgolion lle y gwelir canran uchel o ddysgwyr eFSM yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolig o ddysgwyr eFSM. Roedd uwch arweinwyr o ysgolion lle y gwelir canran isel o ddysgwyr ethnig leiafrifol yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolig neu uchel o ddysgwyr ethnig leiafrifol.

Ar gyfer y datganiad y byddai'r cwricwlwm newydd yn “diwallu anghenion pob dysgwyr yn well”, roedd uwch arweinwyr o ysgolion lle y gwelir canran isel neu uchel o ddysgwyr eFSM yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolig o ddysgwyr eFSM. Roedd uwch arweinwyr o ysgolion lle y gwelir canran isel o ddysgwyr ethnig leiafrifol yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolig neu uchel o ddysgwyr ethnig leiafrifol. Roedd uwch arweinwyr oedd â 6 i 20

mlynedd o brofiad arwain yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â llai na 3 blynedd o brofiad arwain.

Ar gyfer y datganiad y byddai'r cwricwlwm newydd yn "arwain at wella cynnydd dysgwyr", roedd uwch arweinwyr o ysgolion lle y gwelir canran uchel o ddysgwyr sydd ag ADY yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran isel neu ganolig o ddysgwyr sydd ag ADY. Roedd uwch arweinwyr o ysgolion lle y gwelir canran isel o ddysgwyr ethnig leiafrifol yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolig neu uchel o ddysgwyr ethnig leiafrifol.

Ar gyfer y datganiad y byddai'r cwricwlwm newydd yn "helpu dysgwyr i gyrraedd eu potensial llawn", roedd uwch arweinwyr o ysgolion lle y gwelir canran uchel o ddysgwyr sydd ag ADY yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran isel neu ganolig o ddysgwyr sydd ag ADY. Roedd uwch arweinwyr o ysgolion lle y gwelir canran uchel o ddysgwyr eFSM yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolig o ddysgwyr eFSM. Roedd uwch arweinwyr o ysgolion lle y gwelir canran isel o ddysgwyr ethnig leiafrifol yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolig neu uchel o ddysgwyr ethnig leiafrifol.

Ar gyfer y datganiad y byddai'r cwricwlwm newydd yn "gwella lefelau cyrhaeddiad cyffredinol dysgwyr", roedd uwch arweinwyr o ysgolion lle y gwelir canran uchel o ddysgwyr eFSM yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolig o ddysgwyr eFSM. Roedd uwch arweinwyr o ysgolion lle y gwelir canran isel o ddysgwyr ethnig leiafrifol yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolig neu uchel o ddysgwyr ethnig leiafrifol.

Ymrwymiad i newid cwricwlwm (athrawon)

Ar gyfer y datganiad "Rydw i'n barod i wneud newidiadau i'm harfer proffesiynol i wireddu dyheadau'r Cwricwlwm i Gymru", roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu ag ymatebwyr o ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr o ysgolion lle y gwelir canran uchel o ddysgwyr ethnig leiafrifol yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran isel o ddysgwyr ethnig leiafrifol.

Ar gyfer y datganiad "Rwyf bob amser yn hyrwyddo'r Cwricwlwm i Gymru wrth siarad â chydweithwyr", roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd ac ysgolion arbennig ac UC Dau yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu ag ymatebwyr o ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr oedd â llai na 3 blynedd o brofiad ym myd addysg yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â rhwng 3 a 30 mlynedd o brofiad. Roedd ymatebwyr y mae eu prif rôl yn LSW yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai y mae eu prif rôl yn athro neu'n arweinydd canol.

Ar gyfer y datganiad "Rwy'n ystyried bod y Cwricwlwm i Gymru yn llawer gwell na'r cwricwlwm blaenorol", roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd ac ysgolion arbennig ac UC Dau yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu ag ymatebwyr o ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr o ysgolion arbennig ac UC Dau hefyd yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion cynradd. Roedd ymatebwyr oedd â 6 i 10 mlynedd o brofiad ym myd addysg yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai sydd ag 11 i 30 mlynedd o brofiad. Roedd ymatebwyr heb unrhyw gyfrifoldebau cwricwlwm yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â chyfrifoldebau cwricwlwm.

Gwybodaeth am newid cwricwlwm (athrawon)

Ar gyfer y datganiad “Mae’r rhesymau dros ddiwygio’r cwricwlwm yn glir i mi”, roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd ac ysgolion arbennig ac UC Dau yn fwy tebygol o gytuno o’u cymharu â’r rhai o ysgolion uwchradd ac roedd ymatebwyr o ysgolion arbennig ac UC Dau hefyd yn fwy tebygol o gytuno o’u cymharu â’r rhai o ysgolion cynradd. Roedd ymatebwyr nad oedd yn addysgu yn llai tebygol o gytuno o’u cymharu â’r rhai oedd â chyfrifoldebau addysgu, ac roedd y rhai heb gyfrifoldebau cwricwlwm yn llai tebygol o gytuno o’u cymharu â’r rhai oedd â chyfrifoldebau cwricwlwm. Roedd ymatebwyr oedd â 6 i 20 mlynedd o brofiad arwain yn llai tebygol o gytuno o’u cymharu â’r rhai oedd â llai na 3 blynedd o brofiad arwain.

Ar gyfer y datganiad “Rwy’n deall fy rôl wrth weithredu’r Cwricwlwm i Gymru”, roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd ac ysgolion arbennig ac UC Dau yn fwy tebygol o gytuno o’u cymharu â’r rhai o ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr o ysgolion lle y gwelir canran isel o ddysgwyr sydd ag ADY yn fwy tebygol o gytuno o’u cymharu â’r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolog neu uchel o ddysgwyr sydd ag ADY. Roedd ymatebwyr nad oedd yn addysgu yn llai tebygol o gytuno o’u cymharu â’r rhai oedd â chyfrifoldebau addysgu. Roedd ymatebwyr y mae eu prif rôl yn LSW yn llai tebygol o gytuno o’u cymharu â’r rhai y mae eu prif rôl yn arweinydd canol.

Ar gyfer y datganiad “Mae’r hyn sydd wedi newid yn y Cwricwlwm i Gymru o’i gymharu â’r cwricwlwm blaenorol yn glir i mi”, roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd ac ysgolion arbennig ac UC Dau yn fwy tebygol o gytuno o’u cymharu â’r rhai o ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr nad oedd yn addysgu yn llai tebygol o gytuno o’u cymharu â’r rhai oedd â chyfrifoldebau addysgu, ac roedd y rhai y mae eu prif rôl yn LSW yn llai tebygol o gytuno o’u cymharu â’r rhai y mae eu prif rôl yn athro neu’r arweinydd canol.

Ar gyfer y datganiad “Gallaf egluro prif elfennau’r Cwricwlwm i Gymru i eraill”, roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd ac ysgolion arbennig ac UC Dau yn fwy tebygol o gytuno o’u cymharu â’r rhai o ysgolion uwchradd. Roedd y rhai y mae eu prif rôl yn LSW yn llai tebygol o gytuno o’u cymharu â’r rhai y mae eu prif rôl yn athro neu’r arweinydd canol. Roedd ymatebwyr oedd â 3 i 5 mlynedd o brofiad ym myd addysg yn fwy tebygol o gytuno o’u cymharu â’r rhai sydd ag 11 i 30 mlynedd o brofiad. Roedd ymatebwyr sydd 31 mlynedd o brofiad neu fwy ym myd addysg yn llai tebygol o gytuno o’u cymharu â’r rhai oedd â llai na 6 blynedd o brofiad neu rhwng 11 a 30 mlynedd o brofiad. Roedd ymatebwyr oedd â 3 i 5 mlynedd o brofiad ym myd addysg yn fwy tebygol o gytuno o’u cymharu â’r rhai oedd â 6 i 10 mlynedd o brofiad. Roedd ymatebwyr heb gyfrifoldebau cwricwlwm yn llai tebygol o gytuno o’u cymharu â’r rhai oedd â chyfrifoldebau cwricwlwm.

Dealltwriaeth o newid cwricwlwm (athrawon)

Ar gyfer y datganiad “Rwy’n deall sut y dylwn newid fy ymarfer mewn ymateb i’r Cwricwlwm i Gymru”, roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd ac ysgolion arbennig ac UC Dau yn fwy tebygol o gytuno o’u cymharu â’r rhai o ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr oedd â llai na 3 blynedd o brofiad ym myd addysg yn fwy tebygol o gytuno o’u cymharu â’r rhai oedd â 6 i 10 mlynedd o brofiad. Roedd ymatebwyr oedd â 3 i 5 mlynedd o brofiad ym myd addysg yn fwy tebygol o gytuno o’u cymharu â’r rhai oedd â 6 blynedd o brofiad neu fwy ym myd addysg.

Ar gyfer y datganiad “Rwy’n deall beth sy’n ofynnol i’m hysgol wneud i gynllunio cwricwlwm ein hunain yn unol â’r Cwricwlwm i Gymru”, roedd ymatebwyr sydd ag 21 mlynedd o brofiad arwain neu fwy yn fwy tebygol o gytuno o’u cymharu â’r rhai oedd â 6 i 20 mlynedd o brofiad arwain.

Ar gyfer y datganiad “Rwy’n deall beth sy’n ofynnol i’m hysgol wneud i gynllunio ein trefniadau asesu ein hunain yn unol â’r Cwricwlwm i Gymru”, roedd ymatebwyr oedd â 3 i 5 mlynedd o brofiad arwain yn fwy tebygol o gytuno o’u cymharu â’r rhai oedd â 6 i 20 mlynedd o brofiad arwain.

Y gallu i weithredu mewn ffyrdd sy’n gwireddu newid cwricwlwm (athrawon)

Ar gyfer y datganiad ynghylch hyder mewn sgiliau ymarferwyr, roedd ymatebwyr o ysgolion arbennig ac UC Dau yn fwy tebygol o gytuno o’u cymharu ag ymatebwyr o ysgolion cynradd ac uwchradd. Roedd ymatebwyr o ysgolion lle y gwelir canran isel o ddysgwyr sydd ag ADY hefyd yn fwy tebygol o gytuno nag ymatebwyr o ysgolion lle y gwelir canran ganolig o ddysgwyr sydd ag ADY. O’u cymharu â’r rhai y mae eu prif rôl yn “athro” neu’n LSW, roedd arweinwyr canol yn fwy tebygol o gytuno.

Ar gyfer y datganiad ynghylch hyder mewn gwybodaeth pwnc, roedd ymatebwyr nad oedd yn addysgu yn llai tebygol o gytuno na’r rhai oedd â chyfrifoldebau addysgu. Roedd y rhai y mae eu prif rôl yn LSW hefyd yn llai tebygol o gytuno o’u cymharu ag athrawon, roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd yn llai tebygol o gytuno o’u cymharu â’r rhai o ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr mewn ysgolion lle y gwelir canran isel o ddysgwyr sydd ag ADY yn fwy tebygol o gytuno na’r rhai mewn ysgolion lle y gwelir canran ganolig o ddysgwyr sydd ag ADY. Roedd arweinwyr canol yn fwy tebygol o gytuno o’u cymharu ag athrawon ac LSW, and roedd uwch arweinwyr yn fwy tebygol o gytuno o’u cymharu â’r rhai nad oedd yn uwch arweinwyr. Roedd ymatebwyr oedd â 3 i 5 mlynedd o brofiad ym myd addysg yn fwy tebygol o gytuno o’u cymharu â’r rhai oedd â llai na 3 neu rhwng 6 a 10 mlynedd o brofiad.

Ar gyfer y datganiad ynghylch hyder mewn gwybodaeth addysgegol, roedd y rhai y mae eu prif rôl yn LSW yn llai tebygol o gytuno o’u cymharu ag athrawon ac arweinwyr canol. Roedd ymatebwyr o ysgolion lle y gwelir canran isel o ddysgwyr ethnig leiafrifol yn llai tebygol o gytuno o’u cymharu â’r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolig o ddysgwyr ethnig leiafrifol. Roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd yn llai tebygol o gytuno o’u cymharu ag ymatebwyr o ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr oedd â 3 i 5 mlynedd o brofiad ym myd addysg yn fwy tebygol o gytuno o’u cymharu â’r rhai sydd ag 11 i 30 mlynedd o brofiad ym myd addysg.

Ar gyfer y datganiad ynghylch hyder am ddarparu profiadau dilys, roedd ymatebwyr nad oedd yn addysgu yn llai tebygol o gytuno na’r rhai oedd â chyfrifoldebau addysgu. Roedd ymatebwyr o ysgolion lle y gwelir canran isel o ddysgwyr eFSM yn llai tebygol o gytuno na’r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolig o ddysgwyr eFSM. Roedd ymatebwyr o ysgolion lle y gwelir canran uchel o ddysgwyr ethnig leiafrifol yn fwy tebygol o gytuno o’u cymharu â’r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolig o ddysgwyr ethnig leiafrifol. Roedd y rhai o ranbarth y canolbarth a’r gorllewin yn fwy tebygol o gytuno o’u cymharu â’r rhai o ranbarth canol de Cymru, ac roedd y rhai oedd â 3 i 5 mlynedd o brofiad ym myd addysg yn fwy tebygol o gytuno o’u cymharu â’r rhai oedd â 6 i 30 mlynedd o brofiad.

Ar gyfer y datganiad ynghylch hyder mewn arbenigedd cynllunio cwricwlwm, roedd ymatebwyr oedd â dros 20 mlynedd o brofiad arwain yn fwy tebygol o gytuno gyda'r datganiad o'u cymharu â'r rhai oedd â llai nag 20 mlynedd o brofiad arwain.

Ar gyfer y datganiad ynghylch hyder mewn arbenigedd cynllunio asesu, roedd ymatebwyr oedd â dros 20 mlynedd o brofiad arwain yn fwy tebygol o gytuno gyda'r datganiad o'u cymharu â'r rhai oedd â llai nag 20 mlynedd o brofiad arwain.

Ar gyfer y datganiad ynghylch hyder am y gallu i addasu arfer proffesiynol, roedd ymatebwyr sy'n uwch arweinwyr yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu ag ymatebwyr nad oedd yn uwch arweinwyr. Roedd ymatebwyr oedd â 6 i 20 mlynedd o brofiad arwain yn fwy tebygol o gytuno gyda'r datganiad o'u cymharu â'r rhai oedd â 0 i 3 blynedd o brofiad arwain. Roedd y rhai oedd â 3 i 5 mlynedd o brofiad ym myd addysg yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â llai na 3 blynedd neu dros 5 mlynedd o brofiad ym myd addysg. Roedd ymatebwyr yn rhanbarthau y de ddwyrain a'r canolbarth a'r gorllewin yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ranbarth canol de Cymru. Roedd y rhai o ysgolion Arbennig/UCDau yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu ag ymatebwyr o ysgolion cynradd ac uwchradd. Roedd ymatebwyr o ysgolion lle y gwelir canran uchel o ddysgwyr eFSM yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran isel o ddysgwyr eFSM.

Lles (athrawon)

Ar gyfer y datganiad "Mae fy ysgol yn lle da i weithio", roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr oedd â llai na 3 blynedd o brofiad ym myd addysg yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â dros 3 blynedd o brofiad. Roedd ymatebwyr oedd â dros 20 mlynedd o brofiad arwain yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â llai nag 20 mlynedd o brofiad arwain. Roedd ymatebwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion cyfrwng Saesneg.

Ar gyfer y datganiad "Rwy'n fodlon gyda fy swydd", roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr oedd â llai na 3 blynedd o brofiad ym myd addysg yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â 6 blynedd o brofiad neu fwy. Roedd ymatebwyr oedd â dros 20 mlynedd o brofiad arwain yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â llai na 6 blynedd o brofiad arwain. Roedd ymatebwyr o ranbarth y de ddwyrain yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ranbarthau canol de Cymru a'r gogledd.

Ar gyfer y datganiad "Rwy'n fodlon â'm cydbwysedd bywyd a gwaith", roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd ac ysgolion arbennig ac UCDau yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr y mae eu prif rôl yn LSW yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai y mae eu prif rôl yn athro neu'n arweinydd canol, ac roedd ymatebwyr heb gyfrifoldebau cwricwlwm yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â chyfrifoldebau cwricwlwm.

Ar gyfer y datganiad "Mae fy ngwaith fel addysgwr yn ystyrlon", roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd ac ysgolion arbennig ac UCDau yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr o ysgolion lle y gwelir canran isel o ddysgwyr ethnig

leiafrifol yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolig o ddysgwyr ethnig leiafrifol.

Ar gyfer y datganiad "Mae fy mherthynas â dysgwyr yn rhoi boddhad i mi", roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd ac ysgolion arbennig ac UC Dau yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr y mae eu prif rôl yn arweinydd canol yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai y mae eu prif rôl yn athro. Roedd ymatebwyr o ranbarth y gogledd yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu a'r rhai o ranbarthau y canolbarth a'r gorllewin a'r de ddwyrain. Roedd ymatebwyr o ysgolion lle y gwelir canran uchel o ddysgwyr ethnig leiafrifol yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran isel o ddysgwyr ethnig leiafrifol. Roedd ymatebwyr oedd â 3 i 5 mlynedd o brofiad ym myd addysg yn fwy cadarnhaol o'u cymharu â'r rhai oedd â 6 i 10 mlynedd neu 31 mlynedd o brofiad neu fwy.

Ar gyfer y datganiad "Mae fy mherthynas gyda chydweithwyr yn gefnogol", roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr o ysgolion lle y gwelir canran isel o ddysgwyr eFSM yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu a'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolig o ddysgwyr eFSM. Roedd ymatebwyr o ranbarth y canolbarth a'r gorllewin yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ranbarth y de ddwyrain.

Ar gyfer y datganiad "Rwy'n teimlo gallaf fod yn fi fy hun gyda chydweithwyr yn y gwaith", roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr oedd â llai na 3 blynedd o brofiad ym myd addysg yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â 6 blynedd o brofiad neu fwy.

Cydweithio ar gynllunio cwricwlwm (athrawon)

Ar gyfer y datganiad ynghylch cydweithio "rhwng athrawon", roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd yn fwy tebygol o adrodd am gydweithio o'u cymharu ag ymatebwyr o ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr o ysgolion lle y gwelir canran isel o ddysgwyr sydd ag ADY yn fwy tebygol o adrodd am gydweithio o'u cymharu ag ysgolion lle y gwelir canran ganolig o ddysgwyr sydd ag ADY. Roedd ymatebwyr o ysgolion lle y gwelir canran uchel o ddysgwyr eFSM yn llai tebygol o adrodd am gydweithio o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran isel o ddysgwyr eFSM. Roedd ymatebwyr o ranbarth y canolbarth a'r gorllewin yn llai tebygol o adrodd am gydweithio o'u cymharu â'r rhai o ranbarth y gogledd. Roedd ymatebwyr oedd â 3 i 5 mlynedd o brofiad ym myd addysg yn fwy tebygol o adrodd am gydweithio o'u cymharu â'r rhai oedd â 6 i 10 neu 31 mlynedd o brofiad neu fwy.

Ar gyfer y datganiad ynghylch cydweithio "gydag ysgolion cynradd", roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd yn fwy tebygol o adrodd am gydweithio o'u cymharu ag ymatebwyr o ysgolion uwchradd, ysgolion arbennig ac UC Dau. Roedd ymatebwyr oedd â 3 i 5 mlynedd o brofiad ym myd addysg yn fwy tebygol o adrodd am gydweithio o'u cymharu â'r rhai oedd â 6 i 30 mlynedd o brofiad. Roedd ymatebwyr oedd â 6 i 20 mlynedd o brofiad arwain yn llai tebygol o adrodd am gydweithio o'u cymharu â'r rhai sydd ag 21 mlynedd o brofiad arwain neu fwy. Roedd ymatebwyr heb gyfrifoldebau cwricwlwm yn fwy tebygol o adrodd am gydweithio o'u cymharu â'r rhai oedd â chyfrifoldebau cwricwlwm. Roedd ymatebwyr o ranbarth y gogledd yn llai tebygol o adrodd am gydweithio o'u cymharu â'r rhai o ranbarth canol de Cymru.

Ar gyfer y datganiad ynghylch cydweithio “gydag ysgolion uwchradd”, roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd yn fwy tebygol o adrodd am gydweithio o’u cymharu ag ymatebwyr o ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr y mae eu prif rôl yn LSW yn fwy tebygol o adrodd am gydweithio o’u cymharu â’r rhai y mae eu prif rôl yn athro. Roedd ymatebwyr oedd â 6 i 20 mlynedd o brofiad arwain yn llai tebygol o adrodd am gydweithio o’u cymharu â’r rhai oedd â llai na 3 blynedd o brofiad arwain.

Ar gyfer y datganiad ynghylch cydweithio “gydag ysgolion arbennig”, roedd ymatebwyr o ysgolion arbennig ac UC Dau yn fwy tebygol o adrodd am gydweithio o’u cymharu â’r rhai o ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr y mae eu prif rôl yn LSW yn fwy tebygol o adrodd am gydweithio o’u cymharu â’r rhai y mae eu prif rôl yn athro neu’n arweinydd canol. Roedd ymatebwyr heb gyfrifoldebau cwricwlwm yn fwy tebygol o adrodd am gydweithio o’u cymharu â’r rhai oedd â chyfrifoldebau cwricwlwm. Roedd ymatebwyr o ranbarth y canolbarth a’r gorllewin yn fwy tebygol o adrodd am gydweithio o’u cymharu â’r rhai o ranbarth canol de Cymru. Roedd ymatebwyr nad oedd yn addysgu yn llai tebygol o adrodd am gydweithio o’u cymharu â’r rhai oedd â chyfrifoldebau addysgu.

Ar gyfer y datganiad ynghylch cydweithio “gydag UC Dau neu ddarparwyr EOTAS eraill”, roedd ymatebwyr o ysgolion arbennig ac UC Dau yn fwy tebygol o adrodd am gydweithio o’u cymharu ag ymatebwyr o ysgolion cynradd ac uwchradd. Roedd ymatebwyr y mae eu prif rôl yn LSW yn fwy tebygol o adrodd am gydweithio o’u cymharu â’r rhai y mae eu prif rôl yn athro neu’n arweinydd canol. Roedd ymatebwyr oedd â llai na 3 blynedd o brofiad yn fwy tebygol o adrodd am gydweithio o’u cymharu â’r rhai oedd â dros 3 blynedd o brofiad. Roedd ymatebwyr oedd â 3 i 5 mlynedd o brofiad ym myd addysg yn fwy tebygol o adrodd am gydweithio o’u cymharu â’r rhai oedd â 6 i 10 mlynedd o brofiad. Roedd ymatebwyr oedd â 6 i 10 mlynedd o brofiad ym myd addysg yn fwy tebygol o adrodd am gydweithio o’u cymharu â’r rhai sydd ag 11 i 30 mlynedd o brofiad. Roedd ymatebwyr o ranbarth y canolbarth a’r gorllewin yn fwy tebygol o adrodd am gydweithio o’u cymharu â’r rhai o ranbarthau y gogledd a chanol de Cymru, ac roedd y rhai o ysgolion cyfrwng Cymraeg yn fwy tebygol o adrodd am gydweithio o’u cymharu â’r rhai o ysgolion cyfrwng Saesneg. Roedd ymatebwyr o ysgolion lle y gwelir canran isel neu uchel o ddysgwyr ethnig leiafrifol yn llai tebygol o adrodd am gydweithio o’u cymharu â’r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolog o ddysgwyr ethnig leiafrifol. Roedd ymatebwyr o ysgolion lle y gwelir canran uchel o ddysgwyr eFSM yn fwy tebygol o adrodd am gydweithio o’u cymharu â’r rhai o ysgolion lle y gwelir canran isel o ddysgwyr eFSM.

Ar gyfer y datganiad ynghylch cydweithio “gyda lleoliadau meithrin”, roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd yn fwy tebygol o adrodd am gydweithio o’u cymharu ag ymatebwyr o ysgolion arbennig, UC Dau ac ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr oedd â 6 i 20 mlynedd o brofiad arwain yn llai tebygol o adrodd am gydweithio o’u cymharu â’r rhai oedd â llai na 3 blynedd neu 21 mlynedd o brofiad arwain neu fwy. Roedd ymatebwyr oedd â llai na 3 blynedd o brofiad ym myd addysg yn fwy tebygol o adrodd am gydweithio o’u cymharu â’r rhai oedd â 3 i 5 mlynedd o brofiad. Roedd ymatebwyr o ysgolion lle y gwelir canran isel o ddysgwyr sydd ag ADY yn llai tebygol o adrodd am gydweithio o’u cymharu â’r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolog o ddysgwyr sydd ag ADY. Roedd ymatebwyr o ysgolion lle y gwelir canran uchel o ddysgwyr ethnig leiafrifol yn llai tebygol o adrodd am gydweithio o’u cymharu â’r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolog o ddysgwyr ethnig leiafrifol.

Ar gyfer y datganiad ynghylch cydweithio “gyda llywodraethwyr”, roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd yn fwy tebygol o adrodd am gydweithio o’u cymharu ag ymatebwyr o ysgolion arbennig, UC Dau ac ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr oedd â llai na 3 blynedd o brofiad ym myd addysg yn fwy tebygol o adrodd am gydweithio o’u cymharu â’r rhai oedd â dros 3 blynedd o brofiad. Roedd ymatebwyr oedd â 6 i 20 mlynedd o brofiad arwain yn llai tebygol o adrodd am gydweithio o’u cymharu â’r rhai oedd â llai na 6 blynedd neu 21 mlynedd o brofiad arwain neu fwy.

Ar gyfer y datganiad ynghylch cydweithio “gyda dysgwyr”, roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd yn fwy tebygol o adrodd am gydweithio o’u cymharu ag ymatebwyr o ysgolion arbennig, UC Dau ac ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr oedd â 3 i 5 mlynedd o brofiad arwain yn fwy tebygol o adrodd am gydweithio o’u cymharu â’r rhai oedd â llai na 3 blynedd neu 6 i 20 mlynedd o brofiad arwain. Roedd ymatebwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg yn fwy tebygol o adrodd am gydweithio o’u cymharu â’r rhai o ysgolion cyfrwng Saesneg. Roedd ymatebwyr o ysgolion lle y gwelir canran isel o ddysgwyr eFSM yn llai tebygol o adrodd am gydweithio o’u cymharu â’r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolog o ddysgwyr eFSM.

Ar gyfer y datganiad ynghylch cydweithio “gyda rhieni/gofalwyr”, roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd yn fwy tebygol o adrodd am gydweithio o’u cymharu ag ymatebwyr o ysgolion arbennig, UC Dau ac ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr y mae eu prif rôl yn LSW yn fwy tebygol o adrodd am gydweithio o’u cymharu â’r rhai y mae eu prif rôl yn athro. Roedd ymatebwyr oedd â llai na 3 blynedd o brofiad ym myd addysg yn fwy tebygol o adrodd am gydweithio o’u cymharu â’r rhai sydd ag 11 mlynedd o brofiad neu fwy. Roedd ymatebwyr oedd â 6 i 20 mlynedd o brofiad arwain yn llai tebygol o adrodd am gydweithio o’u cymharu â’r rhai oedd â llai na 6 neu 21 mlynedd o brofiad arwain neu fwy. Roedd ymatebwyr o ysgolion lle y gwelir canran uchel o ddysgwyr ethnig leiafrifol yn llai tebygol o adrodd am gydweithio o’u cymharu â’r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolog o ddysgwyr ethnig leiafrifol.

Ar gyfer y datganiad ynghylch cydweithio “gyda sefydliadau Addysg Uwch”, roedd ymatebwyr y mae eu prif rôl yn LSW yn fwy tebygol o adrodd am gydweithio o’u cymharu rhai y mae eu prif rôl yn athro neu’n arweinydd canol. Roedd ymatebwyr oedd â llai na 3 blynedd neu 6 i 10 mlynedd o brofiad ym myd addysg yn fwy tebygol o adrodd am gydweithio o’u cymharu â’r rhai sydd ag 11 i 30 mlynedd o brofiad. Roedd ymatebwyr oedd â dros 20 mlynedd o brofiad arwain yn fwy tebygol o adrodd am gydweithio o’u cymharu â’r rhai oedd â llai nag 20 mlynedd o brofiad arwain. Roedd ymatebwyr heb gyfrifoldebau cwricwlwm yn fwy tebygol o adrodd am gydweithio o’u cymharu â’r rhai oedd â chyfrifoldebau cwricwlwm. Roedd ymatebwyr nad oedd yn addysgu yn llai tebygol o adrodd am gydweithio o’u cymharu â’r rhai oedd â chyfrifoldebau addysgu. Roedd ymatebwyr o ranbarth y canolbarth a’r gorllewin yn fwy tebygol o adrodd am gydweithio o’u cymharu â’r rhai o ranbarth y gogledd.

Ar gyfer y datganiad ynghylch cydweithio “gyda busnesau neu gyflogwyr”, roedd ymatebwyr oedd â llai na 3 blynedd o brofiad ym myd addysg yn fwy tebygol o adrodd am gydweithio o’u cymharu â’r rhai oedd â dros 3 blynedd o brofiad. Roedd ymatebwyr oedd â 6 i 10 mlynedd o brofiad ym myd addysg yn fwy tebygol o adrodd am gydweithio o’u cymharu â’r rhai sydd ag 11 i 30 mlynedd o brofiad. Roedd ymatebwyr oedd â dros 20 mlynedd o brofiad arwain yn fwy tebygol o adrodd am gydweithio o’u cymharu â’r rhai oedd â llai na 3 blynedd o

brofiad arwain. Roedd ymatebwyr o ysgolion lle y gwelir canran isel neu uchel o ddysgwyr ethnig leiafrifol yn llai tebygol o adrodd am gydweithio o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolig o ddysgwyr ethnig leiafrifol.

Ar gyfer y datganiad ynghylch cydweithio "gyda sefydliadau eraill", roedd ymatebwyr oedd â 3 i 5 mlynedd o brofiad ym myd addysg yn fwy tebygol o adrodd am gydweithio o'u cymharu â'r rhai sydd ag 11 i 30 mlynedd o brofiad. Roedd ymatebwyr o ysgolion lle y gwelir canran uchel o ddysgwyr ethnig leiafrifol yn llai tebygol o adrodd am gydweithio o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran isel neu ganolig o ddysgwyr ethnig leiafrifol.

Ar gyfer y datganiad "Mae athrawon yn cymryd rhan yn gyson mewn trafodaethau/penderfyniadau am addysgeg", roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu ag ymatebwyr o ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr y mae eu prif rôl yn arweinydd canol yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai y mae eu prif rôl yn athro. Roedd ymatebwyr o ysgolion lle y gwelir canran isel o ddysgwyr sydd ag ADY yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai lle gwelir canran ganolig o ddysgwyr sydd ag ADY. Roedd ymatebwyr o ysgolion lle y gwelir canran uchel o ddysgwyr eFSM yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai lle y gwelir canran ganolig o ddysgwyr eFSM.

Ar gyfer y datganiad "Mae cyfleoedd ar gael i athrawon ysgogi newidiadau", roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu ag ymatebwyr o ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr y mae eu prif rôl yn arweinydd canol neu'n LSW yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai y mae eu prif rôl yn athro. Roedd ymatebwyr o ysgolion lle y gwelir canran isel o ddysgwyr sydd ag ADY yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai lle y gwelir canran ganolig o ddysgwyr sydd ag ADY. Roedd ymatebwyr oedd â llai na 3 blynedd o brofiad ym myd addysg yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â 31 mlynedd o brofiad neu fwy.

Ar gyfer y datganiad "Mae athrawon yn cymryd cyfrifoldeb ac atebolrwydd ar y cyd am gynydd y dysgwyr", roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu ag ymatebwyr o ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr o ranbarth y canolbarth a'r gorllewin yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ranbarth y gogledd.

Ar gyfer y datganiad "Mae athrawon yn cymryd rhan weithredol mewn cynnal disgwyliadau uchel i gynyddu cyflawniad dysgwyr", roedd ymatebwyr oedd â 31 mlynedd neu fwy o brofiad ym myd addysg yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â llai na 30 mlynedd o brofiad ym myd addysg.

Ar gyfer y datganiad "Mae arweinwyr yn yr ysgol hon yn ystyried cyngor gan athrawon wrth wneud penderfyniadau", roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu ag ymatebwyr o ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr oedd â llai na 3 blynedd o brofiad ym myd addysg yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai sydd ag 11 mlynedd neu fwy o brofiad ym myd addysg. Roedd ymatebwyr nad oedd yn addysgu yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â chyfrifoldebau addysgu. Roedd ymatebwyr o ysgolion lle y gwelir canran uchel o ddysgwyr eFSM yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran isel o ddysgwyr eFSM.

Ar gyfer y datganiad "Mae arweinyddiaeth yn cael ei meithrin a'i dosbarthu ymhlith athrawon", roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu ag

ymatebwyr o ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr y mae eu prif rôl yn arweinydd canol yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai y mae eu prif rôl yn athro neu'n LSW. Roedd ymatebwyr oedd â llai na 3 blynedd o brofiad ym myd addysg yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â 6 blynedd o brofiad neu fwy ym myd addysg. Roedd ymatebwyr oedd â dros 6 blynedd o brofiad arwain yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â llai na 3 blynedd o brofiad arwain. Roedd ymatebwyr oedd â 3 i 5 mlynedd o brofiad arwain yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â 6 i 20 mlynedd o brofiad arwain.

Dealltwriaeth gyffredin o agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru (athrawon)

Ar gyfer y datganiad ynghylch y ddealltwriaeth gyffredin o "gynnydd dysgwr", roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr o ysgolion lle y gwelir canran uchel o ddysgwyr eFSM yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolig o ddysgwyr eFSM.

Ar gyfer y datganiad ynghylch y ddealltwriaeth gyffredin o "beth mae'n ei olygu i gael cwricwlwm cynhwysol", roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd, ysgolion arbennig ac UC Dau yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr o ysgolion lle y gwelir canran uchel o ddysgwyr eFSM yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran isel neu ganolig o ddysgwyr eFSM. Roedd ymatebwyr o ysgolion lle y gwelir canran uchel o ddysgwyr sydd ag ADY yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran isel o ddysgwyr sydd ag ADY.

Ar gyfer y datganiad ynghylch y ddealltwriaeth gyffredin o "sut mae ein cwricwlwm yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu yn y ffyrdd a ddisgrifir gan y pedwar diben", roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd ac ysgolion arbennig ac UC Dau yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr y mae eu prif rôl yn athro yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai y mae eu prif rôl yn un ac eithrio athro. Roedd ymatebwyr o ranbarth y gogledd yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ranbarth canol de Cymru ac roedd y rhai oedd â 3 i 5 mlynedd o brofiad arwain yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â llai na 3 blynedd o brofiad arwain.

Dysgu a chymorth proffesiynol (athrawon)

O ran y datganiad ynghylch mynediad at ddysgu proffesiynol o ansawdd uchel, roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr nad oedd yn uwch arweinwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion cyfrwng Saesneg. Ond roedd ymatebwyr sy'n uwch arweinwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion cyfrwng Saesneg. Roedd ymatebwyr o ysgolion lle y gwelir canran isel o ddysgwyr ethnig leiafrifol yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolig o ddysgwyr ethnig leiafrifol. Roedd ymatebwyr o ysgolion lle y gwelir canran uchel o ddysgwyr sydd ag ADY yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran isel o ddysgwyr sydd ag ADY. Roedd ymatebwyr oedd â 3 i 5 mlynedd o brofiad arwain yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â 6 i 20 mlynedd o brofiad arwain.

O ran y datganiad ynghylch cyfanswm y dysgu proffesiynol sy'n diwallu anghenion, roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion uwchradd. Roedd arweinwyr canol nad oedd yn uwch arweinwyr yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai y mae eu prif rôl yn athro, ac roedd y rhai y mae eu prif rôl yn LSW hefyd yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai y mae eu prif rôl yn athro. Roedd arweinwyr canol sy'n uwch arweinwyr, fodd bynnag, yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai y mae eu prif rôl yn athro. Roedd ymatebwyr o ysgolion lle y gwelir canran isel o ddysgwyr eFSM yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai lle y gwelir canran ganolig o ddysgwyr eFSM. Roedd ymatebwyr nad oedd yn uwch arweinwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion cyfrwng Saesneg. Roedd ymatebwyr sy'n uwch arweinwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion cyfrwng Saesneg. Roedd ymatebwyr o ysgolion lle y gwelir canran isel o ddysgwyr ethnig leiafrifol yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolig o ddysgwyr ethnig leiafrifol. Roedd ymatebwyr sy'n uwch arweinwyr o ysgolion lle y gwelir canran uchel o ddysgwyr ethnig leiafrifol hefyd yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolig o ddysgwyr ethnig leiafrifol. Roedd uwch arweinwyr o ranbarth y de ddwyrain hefyd yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ranbarth canol de Cymru. Roedd ymatebwyr oedd â 31 mlynedd o brofiad neu fwy ym myd addysg yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â llai nag 11 mlynedd o brofiad ym myd addysg. Roedd ymatebwyr sy'n uwch arweinwyr ac oedd â 6 i 20 mlynedd o brofiad arwain yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu ag uwch arweinwyr sydd ag 21 mlynedd o brofiad neu fwy.

O ran y datganiad ynghylch ansawdd y dysgu proffesiynol, roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion cyfrwng Saesneg. Roedd ymatebwyr oedd â 3 i 20 mlynedd o brofiad arwain yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â llai na 3 blynedd o brofiad arwain. Roedd ymatebwyr o ysgolion lle y gwelir canran uchel o ddysgwyr sydd ag ADY yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai lle y gwelir canran isel neu ganolig o ddysgwyr sydd ag ADY. Roedd ymatebwyr o ysgolion lle y gwelir canran uchel o ddysgwyr eFSM yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran isel o ddysgwyr eFSM.

O ran y datganiad ynghylch canllawiau, cymorth ac adnoddau ar lefel ysgol, roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr nad oedd yn uwch arweinwyr ac y mae eu prif rôl yn arweinydd canol yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai y mae eu prif rôl yn athro, ond roedd ymatebwyr sy'n uwch arweinwyr ac y mae eu prif rôl yn arweinydd canol yn llai tebygol o gytuno. Roedd y rhai nad oedd yn uwch arweinwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion cyfrwng Saesneg, ond roedd uwch arweinwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg yn llai tebygol o gytuno. Roedd ymatebwyr o ranbarth y de ddwyrain hefyd yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ranbarth canol de Cymru. Roedd ymatebwyr oedd â llai na 3 blynedd o brofiad ym myd addysg yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â 6 blynedd neu fwy o brofiad ym myd addysg. Roedd ymatebwyr oedd â 6 i 20 mlynedd o brofiad arwain yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â llai na 6 blynedd o brofiad arwain. Roedd ymatebwyr o ysgolion lle

y gwelir canran isel o ddysgwyr sydd ag ADY yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai lle y gwelir canran ganolig o ddysgwyr sydd ag ADY.

O ran y datganiad ynghylch cymorth gan bartneriaid cymorth addysg, roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion cyfrwng Saesneg. Roedd ymatebwyr y mae eu prif rôl yn LSW yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai y mae eu prif rôl yn athro. Roedd ymatebwyr nad oedd yn uwch arweinwyr ac y mae eu prif rôl yn arweinydd canol yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai y mae eu prif rôl yn athro, ond roedd ymatebwyr sy'n uwch arweinwyr ac y mae eu prif rôl yn arweinydd canol yn llai tebygol o gytuno na'r rhai y mae eu prif rôl yn athro. Roedd uwch arweinwyr o ranbarthau y gogledd, y canolbarth a'r gorllewin a'r de ddwyrain i gyd yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ranbarth canol de Cymru. Roedd ymatebwyr o ysgolion lle y gwelir canran uchel o ddysgwyr eFSM yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran isel o ddysgwyr eFSM. Roedd ymatebwyr oedd â 6 i 20 mlynedd o brofiad arwain yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â 3 i 5 mlynedd neu 21 mlynedd o brofiad arwain neu fwy.

O ran y datganiad ynghylch y canllawiau, y cymorth a'r adnoddau ehangach, roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd, UC'Dau ac ysgolion arbennig yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion uwchradd. Roedd uwch arweinwyr o ysgolion lle y gwelir canran uchel o ddysgwyr sydd ag ADY yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran isel neu ganolig o ddysgwyr sydd ag ADY. Roedd y rhai nad oedd yn uwch arweinwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion cyfrwng Saesneg, ond roedd uwch arweinwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg yn llai tebygol o gytuno. Roedd y rhai nad oedd yn uwch arweinwyr o ysgolion lle y gwelir canran uchel o ddysgwyr eFSM yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran isel neu ganolig o ddysgwyr eFSM, ond roedd uwch arweinwyr o ysgolion lle y gwelir canran uchel o ddysgwyr eFSM yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran isel neu ganolig o ddysgwyr eFSM. Roedd uwch arweinwyr o ranbarth y de ddwyrain hefyd yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ranbarth canol de Cymru. Roedd ymatebwyr o ranbarth y canolbarth a'r gorllewin yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ranbarth y gogledd. Roedd ymatebwyr oedd â llai na 6 blynedd o brofiad ym myd addysg yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â 6 i 10 mlynedd neu 31 mlynedd neu fwy o brofiad ym myd addysg.

Cymorth system (athrawon)

Ar gyfer y datganiad "Mae'r system arolygu ysgolion yn cyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru", roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd, ysgolion arbennig ac UC'Dau yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu ag ymatebwyr o ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr y mae eu prif rôl yn LSW yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai y mae eu prif rôl yn athro.

Ar gyfer y datganiad "Mae'r ffordd o ddatblygu cymwysterau newydd ar gyfer dysgwyr 14-16 oed yn cyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru", roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd, ysgolion arbennig ac UC'Dau yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu ag ymatebwyr o ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr oedd â 6 i 20 mlynedd o brofiad arwain yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â llai na 3 blynedd o brofiad arwain. Roedd ymatebwyr o

ysgolion lle y gwelir canran uchel o ddysgwyr ethnig leiafrifol yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran isel neu ganolig o ddysgwyr ethnig leiafrifol.

Ar gyfer y datganiad "Mae digon o gyllid wedi'i glustnodi i gefnogi'r gwaith ar y Cwricwlwm i Gymru", roedd ymatebwyr y mae eu prif rôl yn LSW yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai y mae eu prif rôl yn athro neu'n arweinydd canol. Roedd ymatebwyr oedd â 3 i 5 mlynedd o brofiad arwain yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â llai na 3 blynedd o brofiad arwain.

Ar gyfer y datganiad "Mae digon o amser wedi'i neilltuo i gefnogi gwaith ar y Cwricwlwm i Gymru", roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu ag ymatebwyr o ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr y mae eu prif rôl yn LSW yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai y mae eu prif rôl yn athro neu'n arweinydd canol. Roedd ymatebwyr oedd â 6 i 20 mlynedd o brofiad arwain yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â llai na 3 blynedd o brofiad arwain. Roedd ymatebwyr o ysgolion lle y gwelir canran uchel o ddysgwyr ethnig leiafrifol yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolig o ddysgwyr ethnig leiafrifol.

Ar gyfer y datganiad "Mae arweinyddiaeth o safon ar draws y system addysg i gefnogi'r Cwricwlwm i Gymru", roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu ag ymatebwyr o ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr y mae eu prif rôl yn LSW yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai y mae eu prif rôl yn athro neu'n arweinydd canol. Roedd ymatebwyr oedd â llai na 3 blynedd o brofiad ym myd addysg yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai sydd ag 11 i 30 mlynedd o brofiad. Roedd ymatebwyr o ysgolion lle y gwelir canran uchel o ddysgwyr ethnig leiafrifol yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolig o ddysgwyr ethnig leiafrifol.

Ar gyfer y datganiad "Mae'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu, Arweinyddiaeth a Chynorthwyo Addysgu yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru", roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu ag ymatebwyr o ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr oedd â llai na 3 blynedd o brofiad ym myd addysg yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai sydd ag 11 mlynedd o brofiad neu fwy. Roedd ymatebwyr oedd â 3 i 5 mlynedd o brofiad ym myd addysg yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â 31 mlynedd o brofiad neu fwy. Roedd ymatebwyr o ysgolion lle y gwelir canran uchel o ddysgwyr ethnig leiafrifol yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolig o ddysgwyr ethnig leiafrifol.

Ar gyfer y datganiad "Mae digon o wybodaeth ar gael i mi i alluogi hunan-arfarnu effeithiol i gefnogi gweithredu Cwricwlwm i Gymru", roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu ag ymatebwyr o ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr oedd â llai na 3 blynedd o brofiad ym myd addysg yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai sydd ag 11 mlynedd o brofiad neu fwy. Roedd ymatebwyr oedd â 6 i 10 mlynedd o brofiad ym myd addysg yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â 31 mlynedd o brofiad neu fwy. Roedd ymatebwyr oedd â dros 20 mlynedd o brofiad arwain yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â llai nag 20 mlynedd o brofiad arwain. Roedd ymatebwyr o ysgolion lle y gwelir canran uchel o ddysgwyr ethnig leiafrifol yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolig o ddysgwyr ethnig leiafrifol.

Dulliau ysgolion o gynllunio cwricwlwm (athrawon)

Ar gyfer y datganiad ynghylch cynllunio cwricwlwm yn cynnwys “dysgu o ymholi proffesiynol”, roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd yn fwy tebygol o adrodd am gyswllt o’u cymharu â’r rhai o ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr y mae eu prif rôl yn LSW yn fwy tebygol o adrodd am gyswllt o’u cymharu â’r rhai y mae eu prif rôl yn athro. Roedd ymatebwyr oedd â llai na 3 blynedd o brofiad ym myd addysg yn fwy tebygol o adrodd am gyswllt o’u cymharu â’r rhai sydd ag 11 mlynedd o brofiad neu fwy.

Ar gyfer y datganiad ynghylch cynllunio cwricwlwm yn cynnwys “defnyddio ymchwil addysgol”, roedd ymatebwyr oedd â llai na 3 blynedd o brofiad ym myd addysg yn fwy tebygol o adrodd am gyswllt o’u cymharu â’r rhai oedd â 6 blynedd o brofiad neu fwy. Roedd ymatebwyr o ysgolion lle y gwelir canran isel o ddysgwyr sydd ag ADY yn fwy tebygol o adrodd am gyswllt o’u cymharu â’r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolig o ddysgwyr sydd ag ADY.

Ar gyfer y datganiad ynghylch cynllunio cwricwlwm yn cynnwys “rhannu tystiolaeth ac arbenigedd ar draws rhwydweithiau lleol neu glwstwr”, roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd yn fwy tebygol o adrodd am gyswllt o’u cymharu â’r rhai o ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr oedd â llai na 3 blynedd o brofiad ym myd addysg yn fwy tebygol o adrodd am gyswllt o’u cymharu â’r rhai oedd â 3 blynedd o brofiad neu fwy. Roedd ymatebwyr oedd â 3 i 5 mlynedd o brofiad ym myd addysg yn fwy tebygol o adrodd am gyswllt o’u cymharu â’r rhai sydd ag 11 i 30 mlynedd o brofiad. Roedd ymatebwyr y mae eu prif rôl yn arweinydd canol neu’n LSW yn fwy tebygol o adrodd am gyswllt o’u cymharu â’r rhai y mae eu prif rôl yn athro. Roedd ymatebwyr oedd â 6 i 20 mlynedd o brofiad arwain yn llai tebygol o adrodd am gyswllt o’u cymharu â’r rhai oedd â llai na 6 blynedd o brofiad arwain.

Ar gyfer y datganiad ynghylch cynllunio cwricwlwm yn cynnwys “rhannu tystiolaeth ac arbenigedd ar draws rhwydweithiau rhanbarthol neu genedlaethol”, roedd ymatebwyr y mae eu prif rôl yn LSW yn fwy tebygol o adrodd am gyswllt o’u cymharu â’r rhai y mae eu prif rôl yn athro. Roedd ymatebwyr o ysgolion lle y gwelir canran uchel o ddysgwyr sydd ag ADY yn fwy tebygol o adrodd am gyswllt o’u cymharu â’r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolig o ddysgwyr sydd ag ADY. Roedd ymatebwyr oedd â 6 i 20 mlynedd o brofiad arwain yn llai tebygol o adrodd am gyswllt o’u cymharu â’r rhai oedd â llai na 3 blynedd o brofiad arwain.

Ar gyfer y datganiad ynghylch cynllunio cwricwlwm yn cynnwys “cydweithio â Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch”, roedd ymatebwyr oedd â llai na 5 mlynedd o brofiad ym myd addysg yn fwy tebygol o adrodd am gyswllt o’u cymharu â’r rhai sydd ag 11 i 30 mlynedd o brofiad. Roedd ymatebwyr y mae eu prif rôl yn LSW yn fwy tebygol o adrodd am gyswllt o’u cymharu â’r rhai y mae eu prif rôl yn athro neu’n arweinydd canol. Roedd ymatebwyr o ranbarth y gogledd yn llai tebygol o adrodd am gyswllt o’u cymharu â’r rhai o ranbarth canol de Cymru. Roedd ymatebwyr o ysgolion lle y gwelir canran isel neu uchel o ddysgwyr ethnig leiafrifol yn llai tebygol o adrodd am gyswllt o’u cymharu â’r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolig o ddysgwyr ethnig leiafrifol.

Newidiadau i arfer (athrawon)

O ran gwneud newidiadau sylweddau i waith cynllunio, roedd ymatebwyr o ysgolion arbennig ac UC Dau yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr o ranbarth y gogledd yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ranbarth y canolbarth a'r gorllewin. Roedd ymatebwyr oedd â 3 i 5 mlynedd o brofiad arwain yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â 6 i 20 mlynedd o brofiad arwain.

O ran gwneud newidiadau sylweddol i ddulliau addysgu neu ddysgu, roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr oedd â 6 i 20 mlynedd o brofiad arwain yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â llai na 6 blynedd o brofiad arwain.

O ran gwneud newidiadau sylweddol i weithgareddau addysgu neu ddysgu, roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr oedd â 6 i 20 mlynedd o brofiad arwain yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â llai na 6 blynedd o brofiad arwain.

O ran gwneud newidiadau sylweddol i'r adnoddau a ddefnyddir, roedd ymatebwyr y mae eu prif rôl yn arweinydd canol yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai y mae eu prif rôl yn athro neu'n LSW. Roedd ymatebwyr o ysgolion lle y gwelir canran isel o ddysgwyr sydd ag ADY yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolig o ddysgwyr sydd ag ADY. Roedd ymatebwyr oedd â 6 i 20 mlynedd o brofiad arwain yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â llai na 6 blynedd o brofiad arwain.

O ran gwneud newidiadau sylweddol i gynnwys, pynciau a themâu, roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd ac ysgolion arbennig ac UC Dau yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion uwchradd.

O ran gwneud newidiadau sylweddol i'r ffocws ar gyfer asesu dysgwyr, roedd ymatebwyr oedd â llai 3 blynedd o brofiad ym myd addysg yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â 31 mlynedd o brofiad neu fwy. Roedd ymatebwyr oedd â 6 i 20 mlynedd o brofiad arwain yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â 3 i 5 mlynedd o brofiad arwain.

O ran gwneud newidiadau sylweddol i ddulliau o asesu dysgwyr, roedd ymatebwyr oedd â 3 i 5 mlynedd o brofiad ym myd addysg yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai sydd ag 11 mlynedd o brofiad neu fwy. Roedd ymatebwyr oedd â 6 i 20 mlynedd o brofiad arwain yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â 3 i 5 mlynedd o brofiad arwain.

O ran gwneud newidiadau sylweddol er mwyn diwallu anghenion dysgwyr unigol i'w galluogi i wneud cynnydd, roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr oedd â llai na 3 blynedd o brofiad ym myd addysg yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â llai nag 11 mlynedd o brofiad neu fwy. Roedd ymatebwyr o ysgolion lle y gwelir canran isel o ddysgwyr ethnig leiafrifol yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolig o ddysgwyr ethnig leiafrifol. Roedd ymatebwyr oedd â 6 i 20 mlynedd o brofiad arwain yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â llai na 3 blynedd o brofiad arwain.

Agweddau o'r Cwricwlwm i Gymru ar waith (athrawon)

O ran a yw arfer addysgu yn adlewyrchu'r pedwar diben, roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd ac ysgolion arbennig ac UC'Dau yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr y mae eu prif rôl yn arweinydd canol yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai y mae eu prif rôl yn athro neu'n LSW. Roedd ymatebwyr oedd â 3 i 5 mlynedd o brofiad ym myd addysg yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â llai na 3 blynedd neu 6 blynedd o brofiad neu fwy.

O ran a yw arferion addysgu yn adlewyrchu'r datganiad o'r hyn sy'n bwysig, roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu ag ymatebwyr o ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr y mae eu prif rôl yn arweinydd canol yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai y mae eu prif rôl yn athro neu'n LSW. Roedd ymatebwyr oedd â 3 i 5 mlynedd o brofiad ym myd addysg yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai sydd ag 11 i 30 mlynedd o brofiad.

O ran a adlewyrchir yr egwyddorion addysgegol mewn arferion addysgu, roedd ymatebwyr oedd â 3 i 5 mlynedd o brofiad ym myd addysg yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â 6 blynedd o brofiad neu fwy.

O ran a adlewyrchir yr egwyddorion cynnydd mewn arferion addysgu, roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu ag ymatebwyr o ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr o ysgolion lle y gwelir canran uchel o ddysgwyr ethnig leiafrifol yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran isel neu ganolig o ddysgwyr ethnig leiafrifol.

O ran a yw arferion addysgu yn adlewyrchu disgrifiadau dysgu, roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu ag ymatebwyr o ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr y mae eu prif rôl yn arweinydd canol yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai y mae eu prif rôl yn athro neu'n LSW.

O ran a yw arferion addysgu yn cynorthwyo datblygiad creadigrwydd ac arloesi dysgwyr, roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd ac ysgolion arbennig ac UC'Dau yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu ag ymatebwyr o ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr o ranbarth y canolbarth a'r gorllewin yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ranbarth canol de Cymru. Roedd y rhai oedd â 3 i 5 mlynedd o brofiad ym myd addysg yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â llai na 3 blynedd neu 6 blynedd o brofiad neu fwy.

O ran a yw arferion addysgu yn cynorthwyo datblygiad meddwl yn feirniadol a datrys problemau dysgwyr, roedd ymatebwyr oedd â 3 i 5 mlynedd o brofiad ym myd addysg yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â 6 blynedd o brofiad neu fwy. Roedd ymatebwyr nad oedd yn addysgu yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â chyfrifoldebau addysgu.

O ran a yw arferion addysgu yn cynorthwyo datblygiad effeithiolrwydd personol dysgwyr, roedd ymatebwyr nad oedd yn addysgu yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â chyfrifoldebau addysgu. Roedd ymatebwyr oedd â 3 i 5 mlynedd o brofiad ym myd addysg yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â 6 i 10 mlynedd o brofiad. Roedd

ymatebwyr oedd â 6 i 20 mlynedd o brofiad arwain yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai sydd ag 21 mlynedd o brofiad arwain neu fwy.

O ran a yw arferion addysgu yn cynorthwyo datblygiad cynllunio a threfnu dysgwyr, roedd ymatebwyr nad oedd yn addysgu yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â chyfrifoldebau addysgu.

O ran gweithredu'r cwricwlwm yn cefnogi cynnydd yn Saesneg, roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu ag ymatebwyr o ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr oedd â 3 i 5 mlynedd o brofiad ym myd addysg yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â 6 i 30 mlynedd o brofiad. Roedd ymatebwyr o ysgolion lle y gwelir canran uchel o ddysgwyr sydd ag ADY yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran isel neu ganolig o ddysgwyr sydd ag ADY. Roedd ymatebwyr o ysgolion lle y gwelir canran uchel o ddysgwyr eFSM yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran isel neu ganolig o ddysgwyr eFSM. Roedd ymatebwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion cyfrwng Saesneg.

O ran gweithredu'r cwricwlwm yn cefnogi cynnydd mewn crefydd, gwerthoedd a moeseg, roedd ymatebwyr o ysgolion arbennig ac UC Dau yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu ag ymatebwyr o ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr o ysgolion lle y gwelir canran isel o ddysgwyr sydd ag ADY yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolig neu uchel o ddysgwyr sydd ag ADY. Roedd ymatebwyr o ysgolion lle y gwelir canran isel o ddysgwyr ethnig leiafrifol yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolig o ddysgwyr ethnig leiafrifol. Roedd ymatebwyr o ranbarth y gogledd yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ranbarth canol de Cymru. Roedd ymatebwyr oedd â 6 i 10 mlynedd o brofiad ym myd addysg yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai sydd ag 11 i 30 mlynedd o brofiad. Roedd ymatebwyr oedd â 6 i 20 mlynedd o brofiad arwain yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â llai na 3 blynedd o brofiad arwain.

O ran gweithredu'r cwricwlwm yn cefnogi cynnydd yn y Gymraeg, roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu ag ymatebwyr o ysgolion arbennig, UC Dau ac ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr o ysgolion arbennig ac UC Dau yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu ag ymatebwyr o ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr y mae eu prif rôl yn LSW yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai y mae eu prif rôl yn arweinydd canol.

O ran gweithredu'r cwricwlwm yn cefnogi cynnydd mewn cymhwysedd digidol, roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu ag ymatebwyr o ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr o ysgolion lle y gwelir canran uchel o ddysgwyr eFSM yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai lle y gwelir canran isel o ddysgwyr eFSM.

O ran gweithredu'r cwricwlwm yn cefnogi cynnydd mewn llythrennedd, roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu ag ymatebwyr o ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr o ysgolion lle y gwelir canran uchel o ddysgwyr eFSM yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai lle y gwelir canran ganolig o ddysgwyr eFSM. Roedd ymatebwyr

o ysgolion lle y gwelir canran uchel o ddysgwyr ethnig leiafrifol yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran isel o ddysgwyr ethnig leiafrifol.

O ran gweithredu'r cwricwlwm yn cefnogi cynnydd mewn rhifedd, roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu ag ymatebwyr o ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr oedd â 6 i 20 mlynedd o brofiad arwain yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â llai na 3 blynedd o brofiad arwain.

Ar gyfer y datganiad ynghylch gweithredu'r cwricwlwm yn cefnogi cynnydd yn y "Celfyddydau mynegiannol", roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu ag ymatebwyr o ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr oedd â 6 i 20 mlynedd o brofiad arwain yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â llai na 3 blynedd o brofiad arwain. Roedd ymatebwyr oedd â 6 i 10 mlynedd o brofiad ym myd addysg yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â 3 i 5 mlynedd neu 11 blynedd o brofiad a mwy.

Ar gyfer y datganiad ynghylch gweithredu'r cwricwlwm yn cefnogi cynnydd mewn "Iechyd a Lles", roedd ymatebwyr o ysgolion arbennig ac UC Dau yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu ag ymatebwyr o ysgolion cynradd ac roedd y ddau grŵp hwn yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu ag ymatebwyr o ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr o ranbarth y gogledd yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ranbarthau y de ddwyrain a chanol de Cymru. Roedd ymatebwyr o ranbarth y canolbarth a'r gorllewin yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ranbarth y de ddwyrain. Roedd ymatebwyr o ysgolion lle y gwelir canran isel o ddysgwyr sydd ag ADY yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai lle y gwelir canran ganolog o ddysgwyr sydd ag ADY. Roedd ymatebwyr oedd â 3 i 5 mlynedd o brofiad ym myd addysg yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â 31 mlynedd o brofiad neu fwy.

Ar gyfer y datganiad ynghylch gweithredu'r cwricwlwm yn cefnogi cynnydd yn y "Dyniaethau", roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu ag ymatebwyr o ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr o ranbarth y de ddwyrain yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ranbarthau y gogledd, y canolbarth a'r gorllewin a chanol de Cymru. Roedd ymatebwyr oedd â 6 i 10 mlynedd a dros 31 mlynedd o brofiad ym myd addysg yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai sydd ag 11 i 30 mlynedd o brofiad ym myd addysg. Roedd ymatebwyr oedd â 3 i 5 mlynedd o brofiad ym myd addysg yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â 6 i 10 mlynedd neu 31 mlynedd o brofiad a mwy ym myd addysg. Roedd ymatebwyr y mae eu prif rôl yn arweinydd canol yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai y mae eu prif rôl yn LSW.

Ar gyfer y datganiad ynghylch gweithredu'r cwricwlwm yn cefnogi cynnydd mewn "Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu", roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd, ysgolion arbennig ac UC Dau yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu ag ymatebwyr o ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr o ysgolion lle y gwelir canran isel o ddysgwyr sydd ag ADY yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai lle y gwelir canran ganolog o ddysgwyr sydd ag ADY. Roedd ymatebwyr oedd â 3 i 5 mlynedd o brofiad ym myd addysg yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â 6 blynedd o brofiad neu fwy ym myd addysg. Roedd y rhai oedd â 31 mlynedd o brofiad neu fwy ym myd addysg yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai sydd ag 11 i 30 mlynedd o brofiad ym myd addysg. Roedd ymatebwyr sydd ag 21 mlynedd o brofiad arwain neu fwy yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â 3 i 20 mlynedd

o brofiad arwain. Roedd ymatebwyr o ranbarth y canolbarth a'r gorllewin yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ranbarth y de ddwyrain.

Ar gyfer y datganiad ynghylch gweithredu'r cwricwlwm yn cefnogi cynnydd mewn "mathemateg a rhifedd", roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu ag ymatebwyr o ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr o ysgolion lle y gwelir canran isel o ddysgwyr sydd ag ADY yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai lle y gwelir canran ganolig o ddysgwyr sydd ag ADY. Roedd ymatebwyr oedd â dros 20 mlynedd o brofiad arwain yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â llai nag 20 mlynedd o brofiad arwain. Roedd ymatebwyr o ranbarth y de ddwyrain yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ranbarth canol de Cymru ac roedd y rhai oedd â 31 mlynedd o brofiad neu fwy ym myd addysg yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â 0 i 30 mlynedd o brofiad ym myd addysg.

Ar gyfer y datganiad ynghylch gweithredu'r cwricwlwm yn cefnogi cynnydd mewn "Gwyddoniaeth a thechnoleg", roedd ymatebwyr o ysgolion lle y gwelir canran isel o ddysgwyr eFSM yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai lle y gwelir canran ganolig o ddysgwyr eFSM. Roedd ymatebwyr o ranbarth y de ddwyrain yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ranbarthau y gogledd, y canolbarth a'r gorllewin a chanol de Cymru ac roedd y rhai oedd â 31 mlynedd o brofiad neu fwy ym myd addysg yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â 6 i 30 mlynedd o brofiad ym myd addysg. Roedd ymatebwyr oedd â dros 20 mlynedd o brofiad arwain yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â 6 i 20 mlynedd o brofiad arwain.

Ar gyfer y datganiad ynghylch gweithredu'r cwricwlwm yn cefnogi cynnydd mewn "Gyrfaedd a phrofiadau sy'n gysylltiedig â gwaith", roedd ymatebwyr o ysgolion arbennig ac UC'Dau yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion cynradd neu uwchradd. Roedd ymatebwyr nad oedd yn addysgu yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â chyfrifoldebau addysgu ac roedd ymatebwyr o ranbarth y de ddwyrain yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ranbarthau y gogledd, y canolbarth a'r gorllewin a chanol de Cymru.

Ar gyfer y datganiad ynghylch gweithredu'r cwricwlwm yn cefnogi cynnydd mewn "Amrywiaeth", roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd, ysgolion arbennig ac UC'Dau yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr o ysgolion lle y gwelir canran isel o ddysgwyr eFSM yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolig o ddysgwyr eFSM. Roedd ymatebwyr o ranbarth y de ddwyrain yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ranbarthau y gogledd a chanol de Cymru, ac roedd y rhai oedd â 6 i 11 mlynedd o brofiad ym myd addysg yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai sydd ag 11 i 30 mlynedd o brofiad. Roedd y rhai oedd â 31 mlynedd o brofiad neu fwy ym myd addysg yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â llai na 6 mlynedd neu 11 i 30 mlynedd o brofiad. Roedd ymatebwyr nad oedd yn addysgu yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â chyfrifoldebau addysgu.

Ar gyfer y datganiad ynghylch gweithredu'r cwricwlwm yn cefnogi cynnydd mewn "Addysg hawliau dynol", roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd, ysgolion arbennig ac UC'Dau yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr o ranbarth y de ddwyrain yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ranbarthau y canolbarth a'r

gorllewin a chanol de Cymru ac roedd y rhai oedd â 31 mlynedd neu fwy o brofiad ym myd addysg yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â 0 i 30 mlynedd o brofiad. Roedd ymatebwyr nad oedd yn addysgu yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â chyfrifoldebau addysgu.

Ar gyfer y datganiad ynghylch gweithredu'r cwricwlwm yn cefnogi cynnydd mewn "Cyd-destunau Lleol, Cenedlaethol a Rhyngwladol", roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr o ysgolion lle y gwelir canran isel o ddysgwyr sydd ag ADY yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolig neu uchel o ddysgwyr sydd ag ADY. Roedd ymatebwyr o ysgolion lle y gwelir canran isel o ddysgwyr ethnig leiafrifol yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolig neu uchel o ddysgwyr ethnig leiafrifol. Roedd ymatebwyr o ranbarth y de ddwyrain yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ranbarthau y gogledd, y canolbarth a'r gorllewin a chanol de Cymru, ac roedd y rhai oedd â 31 mlynedd neu fwy o brofiad ym myd addysg yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â 3 i 5 neu 11 i 30 mlynedd o brofiad. Roedd ymatebwyr oedd â 6 i 20 mlynedd o brofiad arwain yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â llai na 3 blynedd o brofiad arwain.

Ar gyfer y datganiad ynghylch gweithredu'r cwricwlwm yn cefnogi cynnydd mewn "addysg cydberthynas a rhywioldeb", roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd ac ysgolion arbennig ac UC Dau yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr o ysgolion lle y gwelir canran isel o ddysgwyr eFSM yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolig neu uchel o ddysgwyr eFSM. Roedd ymatebwyr o ysgolion lle y gwelir canran uchel o ddysgwyr sydd ag ADY yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran isel o ddysgwyr sydd ag ADY. Roedd ymatebwyr o ranbarth y de ddwyrain yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ranbarthau y gogledd, y canolbarth a'r gorllewin a chanol de Cymru ac roedd y rhai oedd â 31 mlynedd neu fwy o brofiad ym myd addysg yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai sydd ag 11 i 30 mlynedd o brofiad.

Arferion addysgegol (athrawon)

O ran hyder yn y ffaith bod arferion addysgu yn annog ymdrech barhaus gan ddysgwyr, roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd ac ysgolion arbennig ac UC Dau yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr y mae eu prif rôl yn arweinydd canol yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai y mae eu prif rôl yn athro neu'n LSW. Roedd ymatebwyr o ranbarthau y canolbarth a'r gorllewin yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ranbarth canol de Cymru. Roedd ymatebwyr oedd â dros 20 mlynedd o brofiad arwain yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â llai nag 20 mlynedd o brofiad arwain.

O ran hyder yn y ffaith bod arferion addysgu yn defnyddio cyfuniad o ddulliau, roedd ymatebwyr oedd â dros 20 mlynedd o brofiad arwain yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â llai na 3 blynedd neu 6 i 20 mlynedd o brofiad arwain. Roedd ymatebwyr nad oedd yn addysgu yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â chyfrifoldebau addysgu. Roedd ymatebwyr o ysgolion lle y gwelir canran uchel o ddysgwyr eFSM yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran isel o ddysgwyr eFSM.

O ran hyder yn y ffaith bod arferion addysgu yn adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol, roedd ymatebwyr o ranbarth y canolbarth a'r gorllewin yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ranbarthau y gogledd a chanol de Cymru. Roedd ymatebwyr o ysgolion lle y gwelir canran isel o ddysgwyr sydd ag ADY yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai lle y gwelir canran ganolog o ddysgwyr sydd ag ADY. Roedd ymatebwyr oedd â dros 20 mlynedd o brofiad arwain yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â llai na 3 blynedd o brofiad arwain. Roedd ymatebwyr oedd â 6 i 10 mlynedd o brofiad ym myd addysg yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â llai na 6 blynedd a rhwng 11 ac 30 mlynedd o brofiad ym myd addysg. Roedd ymatebwyr nad oedd yn addysgu yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â chyfrifoldebau addysgu.

O ran hyder yn y ffaith bod arferion addysgu yn ennyn diddordeb dysgwyr, roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu ag ymatebwyr o ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr y mae eu prif rôl yn arweinydd canol yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai y mae eu prif rôl yn athro. Roedd ymatebwyr oedd â dros 20 mlynedd o brofiad arwain yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â llai na 3 blynedd neu rhwng 6 ac 20 mlynedd o brofiad arwain.

O ran hyder yn y ffaith bod arferion addysgu yn defnyddio egwyddorion asesu ar gyfer dysgu, roedd ymatebwyr oedd â dros 20 mlynedd o brofiad arwain yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â llai nag 20 mlynedd o brofiad arwain. Roedd ymatebwyr oedd â 3 i 5 mlynedd o brofiad ym myd addysg yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â 6 i 10 mlynedd o brofiad ym myd addysg.

O ran hyder yn y ffaith bod arferion addysgu yn annog dysgwyr i gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu, roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu ag ymatebwyr o ysgolion arbennig, UC Dau ac ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr oedd â dros 20 mlynedd o brofiad arwain yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â llai na 3 blynedd neu rhwng 6 ac 20 mlynedd o brofiad arwain. Roedd ymatebwyr o ysgolion lle y gwelir canran uchel o ddysgwyr eFSM yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran isel neu ganolog o ddysgwyr eFSM.

O ran hyder yn y ffaith bod arferion addysgu yn annog dysgwyr i wneud cysylltiadau o fewn ac ar draws meysydd dysgu, roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu ag ymatebwyr o ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr y mae eu prif rôl yn arweinydd canol yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai y mae eu prif rôl yn athro. Roedd ymatebwyr oedd â dros 20 mlynedd o brofiad arwain yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â 6 i 20 mlynedd o brofiad arwain.

O ran hyder yn y ffaith bod arferion addysgu yn cefnogi datblygiad cymdeithasol ac emosiynol, roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd, ysgolion arbennig ac UC Dau yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu ag ymatebwyr o ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr oedd â dros 20 mlynedd o brofiad arwain yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â llai na 3 blynedd o brofiad arwain. Roedd ymatebwyr oedd â 3 i 5 mlynedd o brofiad arwain yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â 6 i 20 mlynedd o brofiad arwain. Roedd ymatebwyr o ranbarthau y gogledd a'r de ddwyrain yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ranbarthau y canolbarth a'r gorllewin a chanol de Cymru. Roedd ymatebwyr oedd â

31 mlynedd neu fwy o brofiad ym myd addysg yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai sydd ag 11-30 mlynedd o brofiad.

O ran hyder yn y ffaith bod arferion addysgu yn cefnogi perthnasoedd cadarnhaol, roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd, ysgolion arbennig ac UC'Dau yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu ag ymatebwyr o ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr oedd â 3 i 5 mlynedd o brofiad arwain yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â llai na 3 blynedd o brofiad arwain. Roedd ymatebwyr o ranbarth y de ddwyrain yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ranbarthau y canolbarth a'r gorllewin a chanol de Cymru. Roedd ymatebwyr oedd â 3 i 5 mlynedd o brofiad ym myd addysg yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â 6 i 10 neu 31 mlynedd a mwy o brofiad.

O ran hyder yn y ffaith bod arferion addysgu yn annog cydweithio, roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu ag ymatebwyr o ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr o ranbarth y de ddwyrain yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ranbarthau y gogledd a chanol de Cymru. Roedd ymatebwyr oedd â 3 i 5 mlynedd o brofiad ym myd addysg yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â 6 i 30 mlynedd o brofiad. Roedd ymatebwyr oedd â 3 i 5 mlynedd o brofiad arwain yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â 6 i 20 mlynedd o brofiad arwain. Roedd ymatebwyr o ysgolion lle y gwelir canran uchel o ddysgwyr ethnig leiafrifol yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolig o ddysgwyr ethnig leiafrifol.

O ran hyder yn y ffaith bod arferion addysgu yn cynnwys pob dysgwr, roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu ag ymatebwyr o ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr o ranbarth y de ddwyrain yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ranbarthau y gogledd, y canolbarth a'r gorllewin a chanol de Cymru. Roedd ymatebwyr y mae eu prif rôl yn arweinydd canol yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai y mae eu prif rôl yn LSW. Roedd ymatebwyr oedd â 3 i 5 mlynedd o brofiad ym myd addysg yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â 6 i 10 mlynedd o brofiad. Roedd ymatebwyr oedd â 3 i 5 mlynedd o brofiad arwain yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â 6 i 20 mlynedd o brofiad arwain.

Cynnydd ac asesu (athrawon)

O ran hyder yn y ffaith bod ymarferion asesu yn cynorthwyo cynnydd pob dysgwr unigol, roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd ac ysgolion arbennig ac UC'Dau yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr y mae eu prif rôl yn arweinydd canol yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai y mae eu prif rôl yn athro.

O ran hyder yn y ffaith bod ymarferion asesu yn cynorthwyo dysgwyr i fod yn gyfranogwyr gweithredol yn y broses ddysgu, roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion uwchradd. Roedd y rhai y mae eu prif rôl yn arweinydd canol yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai y mae eu prif rôl yn athro. Roedd ymatebwyr o ysgolion lle y gwelir canran uchel o ddysgwyr sydd ag ADY yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran isel neu ganolig o ddysgwyr sydd ag ADY. Roedd ymatebwyr oedd â 6 i 10 mlynedd o brofiad ym myd addysg yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â 3 i 5 neu 11 mlynedd neu fwy o brofiad ym myd addysg. Roedd y rhai oedd â 6 i 20 mlynedd o brofiad arwain yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â llai na 3 blynedd o brofiad arwain.

O ran hyder yn y ffaith bod ymarferion asesu yn darparu adborth ystyrllon ac adeiladol i ddysgwyr, roedd ymatebwyr y mae eu prif rôl yn arweinydd canol yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai y mae eu prif rôl yn athro. Roedd ymatebwyr nad oedd yn addysgu yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â chyfrifoldebau addysgu. Roedd ymatebwyr oedd â 6 i 10 mlynedd o brofiad ym myd addysg yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai sydd ag 11 mlynedd neu fwy o brofiad ym myd addysg.

O ran hyder yn y ffaith bod ymarferion asesu yn ymgorffori asesu o fewn addysgu a dysgu, roedd ymatebwyr nad oedd yn addysgu yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â chyfrifoldebau addysgu. Roedd y rhai oedd â 6 i 20 mlynedd o brofiad arwain yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â llai na 6 neu dros 20 mlynedd o brofiad arwain.

O ran hyder yn y ffaith bod ymarferion asesu yn adlewyrchu'r ddealltwriaeth gyffredin o gynnydd, roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion uwchradd. Roedd y rhai y mae eu prif rôl yn arweinydd canol yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai y mae eu prif rôl yn athro. Roedd y rhai oedd â 6 i 20 mlynedd o brofiad arwain yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â llai na 3 blynedd o brofiad arwain. Roedd ymatebwyr oedd â 6 i 10 mlynedd o brofiad ym myd addysg yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â 31 mlynedd o brofiad neu fwy ym myd addysg.

O ran hyder yn y ffaith bod ymarferion asesu yn adeiladu darlun o ddatblygiad y dysgwr, roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr y mae eu prif rôl yn arweinydd canol yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai y mae eu prif rôl yn athro. Roedd y rhai oedd â 6 i 20 mlynedd o brofiad arwain yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â llai na 3 blynedd o brofiad arwain.

O ran defnyddio ystod eang o ddulliau asesu, roedd ymatebwyr oedd â 6 i 10 mlynedd o brofiad ym myd addysg yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â llai na 6 neu rhwng 11 a 30 mlynedd o brofiad ym myd addysg. Roedd y rhai oedd â 6 i 20 mlynedd o brofiad arwain yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â lai na 6 neu dros 20 mlynedd o brofiad arwain.

O ran rhieni/gofalwyr yn deall cynnydd eu plentyn, roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion uwchradd. Roedd y rhai oedd â 6 i 20 mlynedd o brofiad arwain yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â llai na 6 neu dros 20 mlynedd o brofiad arwain. Roedd ymatebwyr o ysgolion lle y gwelir canran uchel o ddysgwyr ethnig leiafrifol yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolog o ddysgwyr ethnig leiafrifol.

Galluogi Dysgu (athrawon)

Ar gyfer y datganiad ynghylch hyder yn "fy ngallu i ddefnyddio arfer sy'n briodol o ran datblygiad i gefnogi cynnydd dysgwyr", roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu ag ymatebwyr o ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr o ysgolion lle y gwelir canran isel o ddysgwyr ethnig leiafrifol yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolog o ddysgwyr ethnig leiafrifol.

Ar gyfer y datganiad ynghylch hyder yn “fy ngallu i ddarparu profiadau dysgu sy’n briodol o ran datblygiad i gefnogi cynnydd dysgwyr”, roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd yn fwy tebygol o gytuno o’u cymharu ag ymatebwyr o ysgolion uwchradd.

Ar gyfer y datganiad ynghylch hyder yn “fy nghapasiti i sylwi, dadansoddi ac ymateb i anghenion dysgwyr unigol i gefnogi cynnydd”, roedd ymatebwyr o ysgolion lle y gwelir canran isel o ddysgwyr sydd ag ADY yn fwy tebygol o gytuno o’u cymharu â’r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolog o ddysgwyr sydd ag ADY.

Ar gyfer y datganiad ynghylch hyder mewn “defnyddio’r amgylchedd awyr agored fel rhan o’r harferion addysgu a dysgu”, roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd, ysgolion arbennig ac UC Dau yn fwy tebygol o gytuno o’u cymharu ag ymatebwyr o ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr o ysgolion lle y gwelir canran uchel o ddysgwyr eFSM yn llai tebygol o gytuno o’u cymharu â’r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolog o ddysgwyr eFSM. Roedd ymatebwyr o ranbarth y canolbarth a’r gorllewin yn fwy tebygol o gytuno o’u cymharu â’r rhai o ranbarth y gogledd. Roedd ymatebwyr oedd â 3 i 5 mlynedd o brofiad ym myd addysg yn fwy tebygol o gytuno o’u cymharu â’r rhai oedd â 6 i 10 mlynedd o brofiad ym myd addysg. Roedd ymatebwyr oedd â 3 i 5 mlynedd o brofiad arwain yn fwy tebygol o gytuno o’u cymharu â’r rhai oedd â 6 i 20 mlynedd o brofiad arwain.

Ar gyfer y datganiad ynghylch hyder mewn “gwneud y defnydd gorau o’r manau dan do sydd ar gael ar gyfer addysgu a dysgu”, roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd, ysgolion arbennig ac UC Dau yn fwy tebygol o gytuno o’u cymharu ag ymatebwyr o ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr oedd â 3 i 5 mlynedd o brofiad arwain yn fwy tebygol o gytuno o’u cymharu â’r rhai oedd â llai 3 blynedd neu rhwng 6 ac 20 mlynedd o brofiad arwain. Roedd ymatebwyr o ranbarth y de ddwyrain yn fwy tebygol o gytuno o’u cymharu â’r rhai o ranbarth y gogledd.

Ymholi proffesiynol (athrawon)

Ar gyfer y datganiad ynghylch y graddau yr anogir ymholi proffesiynol, roedd ymatebwyr nad oedd yn addysgu yn llai tebygol o adrodd am anogaeth o’u cymharu â’r rhai oedd â chyfrifoldebau addysgu. Roedd ymatebwyr oedd â 3 i 5 mlynedd o brofiad arwain yn debygol o adrodd am lai o anogaeth o’u cymharu â’r rhai oedd â llai 3 blynedd o brofiad arwain. Roedd ymatebwyr heb gyfrifoldebau cwricwlwm yn fwy tebygol o adrodd am anogaeth o’u cymharu â’r rhai oedd â chyfrifoldebau cwricwlwm. Roedd ymatebwyr o ysgolion lle y gwelir canran uchel o ddysgwyr ethnig leiafrifol yn fwy tebygol o adrodd am anogaeth o’u cymharu â’r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolog o ddysgwyr ethnig leiafrifol. Roedd ymatebwyr o ranbarth y canolbarth a’r gorllewin yn fwy tebygol o gytuno o’u cymharu â’r rhai o ranbarth y gogledd.

Ar gyfer y datganiad bod ymholi proffesiynol yn “cefnogi ymchwiliad i addasrwydd addysgeg ar gyfer cyd-destunau a dysgwyr penodol”, roedd ymatebwyr oedd â 6 i 20 mlynedd o brofiad arwain yn llai tebygol o gytuno o’u cymharu â’r rhai oedd â llai na 3 blynedd neu 20 mlynedd neu fwy o brofiad arwain.

Ar gyfer y datganiad bod ymholi proffesiynol yn “cefnogi ymchwiliad i addasrwydd asesu ar gyfer cyd-destunau a dysgwyr penodol”, roedd ymatebwyr y mae eu prif rôl yn arweinydd canol yn fwy tebygol o gytuno o’u cymharu â’r rhai y mae eu prif rôl yn athro. Roedd

ymatebwyr oedd â 6 i 20 mlynedd o brofiad arwain yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â llai na 3 blynedd neu 20 mlynedd neu fwy o brofiad arwain.

Ar gyfer y datganiad bod ymholi proffesiynol "yn cynnwys cydweithio", roedd ymatebwyr oedd â 3 i 20 mlynedd o brofiad arwain yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â llai na 3 blynedd o brofiad arwain.

Ar gyfer y datganiad bod ymholi proffesiynol "yn defnyddio canfyddiadau o ymchwil perthnasol", roedd ymatebwyr y mae eu prif rôl yn arweinydd canol yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai y mae eu prif rôl yn athro. Roedd ymatebwyr o ranbarth y gogledd yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai yn rhanbarthau y canolbarth a'r gorllewin a chanol de Cymru. Roedd ymatebwyr oedd â 6 i 20 mlynedd o brofiad arwain yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â llai na 6 neu 20 mlynedd o brofiad arwain neu fwy. Roedd ymatebwyr oedd â 3 i 5 mlynedd o brofiad ym myd addysg yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â 31 mlynedd o brofiad neu fwy.

Ar gyfer y datganiad bod ymholi proffesiynol "yn archwilio achosion problemau sy'n ein hwynebu yn ein hymarfer", roedd ymatebwyr y mae eu prif rôl yn LSW yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai y mae eu prif rôl yn athro. Roedd ymatebwyr oedd â 6 i 20 mlynedd o brofiad arwain yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â 3 i 5 mlynedd o brofiad arwain.

Ar gyfer y datganiad bod ymholi proffesiynol "yn arwain at gwir welliannau mewn ymarfer", roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu ag ymatebwyr o ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr y mae eu prif rôl yn athro yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai y mae eu prif rôl yn rhywbeth ac eithrio athro.

Cyfraniad i'r cwricwlwm (athrawon)

Ar gyfer y datganiad "yn gwneud i mi deimlo bod gen i ddylanwad", roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd ac ysgolion arbennig ac UC Dau yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr y mae eu prif rôl yn arweinydd canol yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai y mae eu prif rôl yn athro. Roedd ymatebwyr o ysgolion lle y gwelir canran isel o ddysgwyr sydd ag ADY yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolig o ddysgwyr sydd ag ADY. Roedd ymatebwyr o ysgolion lle y gwelir canran isel o ddysgwyr ethnig leiafrifol yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolig o ddysgwyr ethnig leiafrifol. Roedd ymatebwyr oedd â 6 i 20 mlynedd o brofiad arwain yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â llai na 3 blynedd o brofiad arwain.

Ar gyfer y datganiad "yn gwneud i mi deimlo'n werthfawr", roedd ymatebwyr o ysgolion cynradd ac ysgolion arbennig ac UC Dau yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion uwchradd. Roedd ymatebwyr oedd â llai na 3 blynedd o brofiad ym myd addysg yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â 6 i 30 mlynedd o brofiad ym myd addysg. Roedd ymatebwyr o ysgolion lle y gwelir canran isel o ddysgwyr sydd ag ADY yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolig neu uchel o ddysgwyr sydd ag ADY. Roedd ymatebwyr o ysgolion lle y gwelir canran isel o ddysgwyr ethnig leiafrifol yn fwy tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai o ysgolion lle y gwelir canran ganolig o ddysgwyr ethnig leiafrifol. Roedd ymatebwyr oedd â dros 6 blynedd o brofiad

arwain yn llai tebygol o gytuno o'u cymharu â'r rhai oedd â llai na 3 blynedd o brofiad arwain.

Gwireddu sy'n cefnogi cynnydd mewn agweddau o'r cwricwlwm	Q53. I ba raddau ydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau isod. Rwy'n hyderus bod cwricwlwm fy ysgol yn cael ei weithredu mewn ffordd sy'n cefnogi dilyniant mewn...	Q53.3. Cymraeg	✓	0.629
Gwireddu sy'n cefnogi cynnydd mewn agweddau o'r cwricwlwm	Q54. Rwy'n hyderus bod cwricwlwm fy ysgol yn cael ei weithredu mewn ffordd sy'n cefnogi dilyniant mewn...	Q54.4. Cymhwysedd Digidol	✓	0.689
Gwireddu sy'n cefnogi cynnydd mewn agweddau o'r cwricwlwm	Q54. Rwy'n hyderus bod cwricwlwm fy ysgol yn cael ei weithredu mewn ffordd sy'n cefnogi dilyniant mewn...	Q54.5. Llythrennedd	✓	0.786
Gwireddu sy'n cefnogi cynnydd mewn agweddau o'r cwricwlwm	Q54. Rwy'n hyderus bod cwricwlwm fy ysgol yn cael ei weithredu mewn ffordd sy'n cefnogi dilyniant mewn...	Q54.6. Rhifedd	✓	0.716

Enw'r ffactor	Bôn y cwestiwn	Datganiadau'r cwestiwn	Wedi llwytho ar y ffactor?	Cyfernod FA
Gwireddu sy'n cefnogi cynnydd mewn agweddau o'r cwricwlwm	Q55. Rwy'n hyderus bod cwricwlwm fy ysgol yn cael ei weithredu mewn ffordd sy'n cefnogi dilyniant mewn...	Q55.1. Celfyddydau Mynegiannol	✓	0.736
Gwireddu sy'n cefnogi cynnydd mewn agweddau o'r cwricwlwm	Q55. Rwy'n hyderus bod cwricwlwm fy ysgol yn cael ei weithredu mewn ffordd sy'n cefnogi dilyniant mewn...	Q55.2. Iechyd a Lles	✓	0.757
Gwireddu sy'n cefnogi cynnydd mewn agweddau o'r cwricwlwm	Q55. Rwy'n hyderus bod cwricwlwm fy ysgol yn cael ei weithredu mewn ffordd sy'n cefnogi dilyniant mewn...	Q55.3. Dyniaethau	✓	0.803
Gwireddu sy'n cefnogi cynnydd mewn agweddau o'r cwricwlwm	Q55. Rwy'n hyderus bod cwricwlwm fy ysgol yn cael ei weithredu mewn ffordd sy'n cefnogi dilyniant mewn...	Q55.4. Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu	✓	0.815

Enw'r ffactor	Bôn y cwestiwn	Datganiadau'r cwestiwn	Wedi llwytho ar y ffactor?	Cyfernod FA
Gwireddu sy'n cefnogi cynnydd mewn agweddau o'r cwricwlwm	Q55. Rwy'n hyderus bod cwricwlwm fy ysgol yn cael ei weithredu mewn ffordd sy'n cefnogi dilyniant mewn...	Q55.5. Mathemateg a Rhifedd	✓	0.784
Gwireddu sy'n cefnogi cynnydd mewn agweddau o'r cwricwlwm	Q55. Rwy'n hyderus bod cwricwlwm fy ysgol yn cael ei weithredu mewn ffordd sy'n cefnogi dilyniant mewn...	Q55.6. Gwyddoniaeth a Thechnoleg	✓	0.748
Gwireddu sy'n cefnogi cynnydd mewn agweddau o'r cwricwlwm	Q56. Rwy'n hyderus bod cwricwlwm fy ysgol yn cael ei weithredu mewn ffordd sy'n cefnogi dilyniant mewn...	Q56.1. Gyrfaedd a Phrofiadau sy'n gysylltiedig â Gwaith	✓	0.577
Gwireddu sy'n cefnogi cynnydd mewn agweddau o'r cwricwlwm	Q56. Rwy'n hyderus bod cwricwlwm fy ysgol yn cael ei weithredu mewn ffordd sy'n cefnogi dilyniant mewn...	Q56.2. Amrywiaeth	✓	0.711

Enw'r ffactor	Bôn y cwestiwn	Datganiadau'r cwestiwn	Wedi llwytho ar y ffactor?	Cyfernod FA
Gwireddu sy'n cefnogi cynnydd mewn agweddau o'r cwricwlwm	Q56. Rwy'n hyderus bod cwricwlwm fy ysgol yn cael ei weithredu mewn ffordd sy'n cefnogi dilyniant mewn...	Q56.3. Addysg Hawliau Dynol	✓	0.695
Gwireddu sy'n cefnogi cynnydd mewn agweddau o'r cwricwlwm	Q56. Rwy'n hyderus bod cwricwlwm fy ysgol yn cael ei weithredu mewn ffordd sy'n cefnogi dilyniant mewn...	Q56.4. Cyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol	✓	0.672
Gwireddu sy'n cefnogi cynnydd mewn agweddau o'r cwricwlwm	Q56. Rwy'n hyderus bod cwricwlwm fy ysgol yn cael ei weithredu mewn ffordd sy'n cefnogi dilyniant mewn...	Q56.5. Addysg Cydberthnasol a Rhywioldeb	✓	0.663
Ansawdd addysgeg ac asesu	Q57. I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau isod. Yn fy addysgu, rwy'n hyderus bod fy ymarfer ...[Athrawon]	Q57.2. yn annog ymdrech barhaus gan ddysgwyr	✓	0.887

Enw'r ffactor	Bôn y cwestiwn	Datganiadau'r cwestiwn	Wedi llwytho ar y ffactor?	Cyfernod FA
Ansawdd addysgeg ac asesu	Q57. I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau isod. Yn fy addysgu, rwy'n hyderus bod fy ymarfer ...[Athrawon]	Q57.3. yn defnyddio cyfuniad o ddulliau	✓	0.897
Ansawdd addysgeg ac asesu	Q57. I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau isod. Yn fy addysgu, rwy'n hyderus bod fy ymarfer ...[Athrawon]	Q57.7. yn adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol	✓	0.911
Ansawdd addysgeg ac asesu	Q57. I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau isod. Yn fy addysgu, rwy'n hyderus bod fy ymarfer ...[Athrawon]	Q57.8. yn ennyn diddordeb dysgwyr	✓	0.907
Ansawdd addysgeg ac asesu	Q57. I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau isod. Yn fy addysgu, rwy'n hyderus bod fy ymarfer ...[Athrawon]	Q57.9. yn defnyddio egwyddorion asesu ar gyfer dysgu	✓	0.887

Enw'r ffactor	Bôn y cwestiwn	Datganiadau'r cwestiwn	Wedi llwytho ar y ffactor?	Cyfernod FA
Ansawdd addysgeg ac asesu	Q57. I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau isod. Yn fy addysgu, rwy'n hyderus bod fy ymarfer ...[Athrawon]	Q57.10. yn annog dysgwyr i gymryd mwy o gyfrifoldeb dros eu dysgu	✓	0.829
Ansawdd addysgeg ac asesu	Q57. I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau isod. Yn fy addysgu, rwy'n hyderus bod fy ymarfer ...[Athrawon]	Q57.11. yn annog dysgwyr i wneud cysylltiadau o fewn ac ar draws meysydd dysgu	✓	0.871
Ansawdd addysgeg ac asesu	Q57. I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau isod. Yn fy addysgu, rwy'n hyderus bod fy ymarfer ...[Athrawon]	Q57.12. yn cefnogi datblygiad cymdeithasol ac emosiynol	✓	0.840
Ansawdd addysgeg ac asesu	Q57. I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau isod. Yn fy addysgu, rwy'n hyderus bod fy ymarfer ...[Athrawon]	Q57.13. yn cefnogi perthnasoedd cadarnhaol	✓	0.905

Enw'r ffactor	Bôn y cwestiwn	Datganiadau'r cwestiwn	Wedi llwytho ar y ffactor?	Cyfernod FA
Ansawdd addysgeg ac asesu	Q57. I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau isod. Yn fy addysgu, rwy'n hyderus bod fy ymarfer ...[Athrawon]	Q57.14. yn annog cydweithio	✓	0.905
Ansawdd addysgeg ac asesu	Q57. I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau isod. Yn fy addysgu, rwy'n hyderus bod fy ymarfer ...[Athrawon]	Q57.15. yn cynnwys pob dysgwr	✓	0.877
Ansawdd addysgeg ac asesu	Q58. I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r canlynol? Rwy'n hyderus bod ymarfer addysgu yn fy ysgol i... [Ymarferwyr nad oedd yn addysgu]	Q58.1. yn annog ymdrech barhaus gan ddysgwyr	✓	0.887
Ansawdd addysgeg ac asesu	Q58. I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r canlynol? Rwy'n hyderus bod ymarfer addysgu yn fy ysgol i... [Ymarferwyr nad oedd yn addysgu]	Q58.2. yn defnyddio cyfuniad o ddulliau	✓	0.897

Enw'r ffactor	Bôn y cwestiwn	Datganiadau'r cwestiwn	Wedi llwytho ar y ffactor?	Cyfernod FA
Ansawdd addysgeg ac asesu	Q58. I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r canlynol? Rwy'n hyderus bod ymarfer addysgu yn fy ysgol i... [Ymarferwyr nad oedd yn addysgu]	Q58.5. yn adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol	✓	0.911
Ansawdd addysgeg ac asesu	Q58. I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r canlynol? Rwy'n hyderus bod ymarfer addysgu yn fy ysgol i... [Ymarferwyr nad oedd yn addysgu]	Q58.6. yn ennyn diddordeb dysgwyr	✓	0.907
Ansawdd addysgeg ac asesu	Q58. I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r canlynol? Rwy'n hyderus bod ymarfer addysgu yn fy ysgol i... [Ymarferwyr nad oedd yn addysgu]	Q58.8. yn defnyddio egwyddorion asesu ar gyfer dysgu	✓	0.887
Ansawdd addysgeg ac asesu	Q58. I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r canlynol? Rwy'n hyderus bod ymarfer addysgu yn fy ysgol i... [Ymarferwyr nad oedd yn addysgu]	Q58.9. yn annog dysgwyr i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu	✓	0.829

Enw'r ffactor	Bôn y cwestiwn	Datganiadau'r cwestiwn	Wedi llwytho ar y ffactor?	Cyfernod FA
Ansawdd addysgeg ac asesu	Q58. I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r canlynol? Rwy'n hyderus bod ymarfer addysgu yn fy ysgol i... [Ymarferwyr nad oedd yn addysgu]	Q58.10. yn annog dysgwyr i wneud cysylltiadau o fewn ac ar draws meysydd dysgu	✓	0.871
Ansawdd addysgeg ac asesu	Q58. I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r canlynol? Rwy'n hyderus bod ymarfer addysgu yn fy ysgol i... [Ymarferwyr nad oedd yn addysgu]	Q58.11. yn cefnogi datblygiad cymdeithasol ac emosiynol	✓	0.840
Ansawdd addysgeg ac asesu	Q58. I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r canlynol? Rwy'n hyderus bod ymarfer addysgu yn fy ysgol i... [Ymarferwyr nad oedd yn addysgu]	Q58.12. yn cefnogi perthnasoedd cadarnhaol	✓	0.905
Ansawdd addysgeg ac asesu	Q58. I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r canlynol? Rwy'n hyderus bod ymarfer addysgu yn fy ysgol i... [Ymarferwyr nad oedd yn addysgu]	Q58.13. yn annog cydweithio	✓	0.905

Enw'r ffactor	Bôn y cwestiwn	Datganiadau'r cwestiwn	Wedi llwytho ar y ffactor?	Cyfernod FA
Ansawdd addysgeg ac asesu	Q58. I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r canlynol? Rwy'n hyderus bod ymarfer addysgu yn fy ysgol i... [Ymarferwyr nad oedd yn addysgu]	Q58.14. yn cynnwys pob dysgwr	✓	0.877
Ansawdd addysgeg ac asesu	Q60. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r canlynol: Rwy'n hyderus bod ymarfer asesu yn fy ysgol.....[Athrawon]	Q59.1. yn cefnogi cynnydd pob dysgwr unigol	✓	0.844
Ansawdd addysgeg ac asesu	Q60. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r canlynol: Rwy'n hyderus bod ymarfer asesu yn fy ysgol.....[Athrawon]	Q59.2. yn cefnogi dysgwyr i fod yn gyfranogwyr gweithredol yn y broses ddysgu	✓	0.837
Ansawdd addysgeg ac asesu	Q60. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r canlynol: Rwy'n hyderus bod ymarfer asesu yn fy ysgol.....[Athrawon]	Q59.3. yn darparu adborth ystyrlon ac adeiladol i ddysgwyr	✓	0.816

Enw'r ffactor	Bôn y cwestiwn	Datganiadau'r cwestiwn	Wedi llwytho ar y ffactor?	Cyfernod FA
Ansawdd addysgeg ac asesu	Q60. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r canlynol: Rwy'n hyderus bod ymarfer asesu yn fy ysgol.....[Athrawon]	Q59.4. yn ymgorffori asesu o fewn addysgu a dysgu	✓	0.822
Ansawdd addysgeg ac asesu	Q60. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r canlynol: Rwy'n hyderus bod ymarfer asesu yn fy ysgol.....[Athrawon]	Q59.5. yn adlewyrchu'r ddealltwriaeth gyffredin o gynnydd ⓘ	✓	0.797
Ansawdd addysgeg ac asesu	Q60. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r canlynol: Rwy'n hyderus bod ymarfer asesu yn fy ysgol.....[Athrawon]	Q59.6. yn llunio darlun o ddatblygiad y dysgwr	✓	0.815
Ansawdd addysgeg ac asesu	Q60. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r canlynol: Rwy'n hyderus bod ymarfer asesu yn fy ysgol.....[Athrawon]	Q59.7. yn defnyddio ystod eang o ddulliau asesu	✓	0.833

Enw'r ffactor	Bôn y cwestiwn	Datganiadau'r cwestiwn	Wedi llwytho ar y ffactor?	Cyfernod FA
Ansawdd addysgeg ac asesu	Q60. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r canlynol: Rwy'n hyderus bod ymarfer asesu yn fy ysgol.....[Athrawon]	Q59.8. yn helpu rhieni/gofalwyr i ddeall cynnydd eu plentyn	✓	0.792
Ansawdd addysgeg ac asesu	Q60. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r canlynol: Rwy'n hyderus bod ymarfer asesu yn fy ysgol.....[Ymarferwyr nad oedd yn addysgu]	Q60.1. yn cefnogi cynnydd pob dysgwr unigol	✓	0.844
Ansawdd addysgeg ac asesu	Q60. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r canlynol: Rwy'n hyderus bod ymarfer asesu yn fy ysgol.....[Ymarferwyr nad oedd yn addysgu]	Q60.2. yn cefnogi dysgwyr i fod yn gyfranogwyr gweithredol yn y broses ddysgu	✓	0.837
Ansawdd addysgeg ac asesu	Q60. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r canlynol: Rwy'n hyderus bod ymarfer asesu yn fy ysgol.....[Ymarferwyr nad oedd yn addysgu]	Q60.3. yn darparu adborth ystyrlon ac adeiladol i ddysgwyr	✓	0.816

Enw'r ffactor	Bôn y cwestiwn	Datganiadau'r cwestiwn	Wedi llwytho ar y ffactor?	Cyfernod FA
Ansawdd addysgeg ac asesu	Q60. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r canlynol: Rwy'n hyderus bod ymarfer asesu yn fy ysgol.....[Ymarferwyr nad oedd yn addysgu]	Q60.4. yn ymgorffori asesu o fewn addysgu a dysgu	✓	0.822
Ansawdd addysgeg ac asesu	Q60. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r canlynol: Rwy'n hyderus bod ymarfer asesu yn fy ysgol.....[Ymarferwyr nad oedd yn addysgu]	Q60.5. yn adlewyrchu'r ddealltwriaeth gyffredin o gynnydd ⓘ	✓	0.797
Ansawdd addysgeg ac asesu	Q60. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r canlynol: Rwy'n hyderus bod ymarfer asesu yn fy ysgol.....[Ymarferwyr nad oedd yn addysgu]	Q60.6. yn llunio darlun o ddatblygiad y dysgwr	✓	0.815
Ansawdd addysgeg ac asesu	Q60. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r canlynol: Rwy'n hyderus bod ymarfer asesu yn fy ysgol.....[Ymarferwyr nad oedd yn addysgu]	Q60.7. yn defnyddio ystod eang o ddulliau asesu	✓	0.833

Enw'r ffactor	Bôn y cwestiwn	Datganiadau'r cwestiwn	Wedi llwytho ar y ffactor?	Cyfernod FA
Ansawdd addysgeg ac asesu	Q60. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r canlynol: Rwy'n hyderus bod ymarfer asesu yn fy ysgol.....[Ymarferwyr nad oedd yn addysgu]	Q60.8. yn helpu rhieni/gofalwyr i ddeall cynnydd eu plentyn	✓	0.792
Hyder mewn galluogi dysgu	Q61. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r canlynol? Rwy'n hyderus...	Q61.1. yn fy ngallu i ddefnyddio arfer sy'n briodol o ran datblygiad i gefnogi cynnydd dysgwyr	✓	0.927
Hyder mewn galluogi dysgu	Q61. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r canlynol? Rwy'n hyderus...	Q61.2. yn fy ngallu i ddarparu profiadau dysgu sy'n briodol o ran datblygiad i gefnogi cynnydd dysgwyr	✓	0.926
Hyder mewn galluogi dysgu	Q61. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r canlynol? Rwy'n hyderus...	Q61.3. yn fy nghapasiti i sylwi, dadansoddi ac ymateb i anghenion dysgwyr unigol i gefnogi cynnydd	✓	0.796
Hyder mewn galluogi dysgu	Q61. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r canlynol? Rwy'n hyderus...	Q61.4. yn defnyddio'r amgylchedd awyr agored fel rhan o'm harferion addysgu a dysgu	✓	0.536
Hyder mewn galluogi dysgu	Q61. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r canlynol? Rwy'n hyderus...	Q61.5. yn gwneud y defnydd gorau o'r mannau dan do sydd ar gael ar gyfer addysgu a dysgu	✓	0.693

Enw'r ffactor	Bôn y cwestiwn	Datganiadau'r cwestiwn	Wedi llwytho ar y ffactor?	Cyfernod FA
Ymholi proffesiynol yn digwydd	Q62. Ydych chi wedi bod yn rhan o ymholi proffesiynol yn eich ysgol?	Q62. Ydych chi wedi bod yn rhan o ymholi proffesiynol yn eich ysgol?	✓	0.556
Ymholi proffesiynol yn digwydd	Q63. I ba raddau y mae ymholi proffesiynol yn cael ei annog yn eich ysgol?	Q63. I ba raddau y mae ymholi proffesiynol yn cael ei annog yn eich ysgol?	✓	0.948
Cadernid ymholi proffesiynol	Q64. Nodwch i ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau isod. Yn fy ysgol, mae ymholi proffesiynol...	Q64.5. yn cefnogi ymchwiliad i addasrwydd addysgeg ar gyfer cyd-destunau a dysgwyr penodol	✓	0.864
Cadernid ymholi proffesiynol	Q64. Nodwch i ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau isod. Yn fy ysgol, mae ymholi proffesiynol...	Q64.6. yn cefnogi ymchwiliad i addasrwydd asesu ar gyfer cyd-destunau a dysgwyr penodol	✓	0.765
Cadernid ymholi proffesiynol	Q64. Nodwch i ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau isod. Yn fy ysgol, mae ymholi proffesiynol...	Q64.8. yn cynnwys cydweithio	✓	0.798

Enw'r ffactor	Bôn y cwestiwn	Datganiadau'r cwestiwn	Wedi llwytho ar y ffactor?	Cyfernod FA
Cadernid ymholi proffesiynol	Q64. Nodwch i ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau isod. Yn fy ysgol, mae ymholi proffesiynol...	Q64.9. yn defnyddio canfyddiadau o ymchwil perthnasol	✓	0.830
Cadernid ymholi proffesiynol	Q64. Nodwch i ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau isod. Yn fy ysgol, mae ymholi proffesiynol...	Q64.10. yn archwilio achosion problemau sy'n ein hwynebu yn ein hymarfer	✓	0.841
Cadernid ymholi proffesiynol	Q64. Nodwch i ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau isod. Yn fy ysgol, mae ymholi proffesiynol...	Q64.11. yn arwain at gwir welliannau mewn ymarfer	✓	0.883
Galluedd athrawon	Q65. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r canlynol: Mae fy nghyfraniad i gynllunio a/neu ddatblygu'r cwricwlwm yn fy ysgol...	Q65.1 yn gwneud i mi deimlo bod gen i ddylanwad	✓	0.883

Enw'r ffactor	Bôn y cwestiwn	Datganiadau'r cwestiwn	Wedi llwytho ar y ffactor?	Cyfernod FA
Galluedd athrawon	Q65. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r canlynol: Mae fy nghyfraniad i gynllunio a/neu ddatblygu'r cwricwlwm yn fy ysgol...	Q65.2. yn gwneud i mi deimlo'n werthfawr	✓	0.928
Galluedd athrawon	Q65. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r canlynol: Mae fy nghyfraniad i gynllunio a/neu ddatblygu'r cwricwlwm yn fy ysgol...	Q65.3. yn gwneud i mi deimlo'n frwdfrydig yn fy ngwaith	✓	0.913
Galluedd athrawon	Q65. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r canlynol: Mae fy nghyfraniad i gynllunio a/neu ddatblygu'r cwricwlwm yn fy ysgol...	Q65.4. wedi ei lywio gan fy mhrofiadau yn y gorffennol	✓	0.751
Galluedd athrawon	Q65. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r canlynol: Mae fy nghyfraniad i gynllunio a/neu ddatblygu'r cwricwlwm yn fy ysgol...	Q65.5. wedi ei gefnogi gan berthnasoedd gwaith cadarnhaol	✓	0.779

Enw'r ffactor	Bôn y cwestiwn	Datganiadau'r cwestiwn	Wedi llwytho ar y ffactor?	Cyfernod FA
Galluedd athrawon	Q65. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r canlynol: Mae fy nghyfraniad i gynllunio a/neu ddatblygu'r cwricwlwm yn fy ysgol...	Q65.6. wedi ei gefnogi gan ansawdd yr amgylchedd ffisegol rwy'n gweithio ynddo	✓	0.583
Hyder yn nhebygolrwydd llwyddiant cwricwlwm yr ysgol	Q66. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r isod: Rwy'n hyderus y bydd cwricwlwm ein hysgol yn...	Q66.1 cefnogi ein dysgwyr i ddatblygu yn y ffyrdd a ddisgrifir yn y pedwar diben	✓	0.715
Hyder yn nhebygolrwydd llwyddiant cwricwlwm yr ysgol	Q66. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r isod: Rwy'n hyderus y bydd cwricwlwm ein hysgol yn...	Q66.2. cefnogi dysgwyr yr un mor dda i wneud cynnydd, waeth beth fo'u man cychwyn	✓	0.730
Hyder yn nhebygolrwydd llwyddiant cwricwlwm yr ysgol	Q66. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r isod: Rwy'n hyderus y bydd cwricwlwm ein hysgol yn...	Q66.3. cefnogi dysgwyr yr un mor dda i wneud cynnydd, waeth beth fo'u hamgylchiadau unigol	✓	0.710

Enw'r ffactor	Bôn y cwestiwn	Datganiadau'r cwestiwn	Wedi llwytho ar y ffactor?	Cyfernod FA
Hyder yn nhebygolrwydd llwyddiant cwricwlwm yr ysgol	Q66. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r isod: Rwy'n hyderus y bydd cwricwlwm ein hysgol yn...	Q66.4. galluogi dysgwyr o aelwydydd incwm isel i wneud cynnydd mor llawn â'u cyfoedion	✓	0.659
Hyder yn nhebygolrwydd llwyddiant cwricwlwm yr ysgol	Q67. Wrth gymharu â'r cwricwlwm blaenorol, rwy'n hyderus y bydd cwricwlwm ein hysgol yn...	Q67.1. diwallu anghenion pob dysgwr yn well	✓	0.928
Hyder yn nhebygolrwydd llwyddiant cwricwlwm yr ysgol	Q67. Wrth gymharu â'r cwricwlwm blaenorol, rwy'n hyderus y bydd cwricwlwm ein hysgol yn...	Q67.2. arwain at wella cynnydd dysgwyr	✓	0.939
Hyder yn nhebygolrwydd llwyddiant cwricwlwm yr ysgol	Q67. Wrth gymharu â'r cwricwlwm blaenorol, rwy'n hyderus y bydd cwricwlwm ein hysgol yn...	Q67.3. helpu dysgwyr i gyrraedd eu potensial llawn	✓	0.957

Enw'r ffactor	Bôn y cwestiwn	Datganiadau'r cwestiwn	Wedi llwytho ar y ffactor?	Cyfernod FA
Hyder yn nhebygolrwydd llwyddiant cwricwlwm yr ysgol	Q67. Wrth gymharu â'r cwricwlwm blaenorol, rwy'n hyderus y bydd cwricwlwm ein hysgol yn...	Q67.4. gwella lefelau cyrhaeddiad cyffredinol dysgwyr	✓	0.950

[Nodyn 11] Nid oedd y datganiadau hyn wedi cael eu cynnwys yn y gwaith dadansoddi ffactorau. Roedd y rhesymau dros hyn yn cynnwys dileu'r datganiad gan ei fod yn atal cydgyfeiriad y model ac ymatebion i gynnwys meysydd testun agored

Modelu hafaliadau strwythurol (SEM)

Beth yw SEM?

Mae SEM yn estyniad o FA gan ei fod yn caniatáu dadansoddi perthnasoedd rhwng ffactorau a nodir trwy gyfrwng FA. Ymchwilir i bob perthynas unigol rhwng ffactorau o ddiddordeb gan ddefnyddio atchweliad, sy'n cynhyrchu 'cyfernod llwybr' fel allbwn, y gellir ei ddehongli mewn modd tebyg i gydberthyniad. Nid yw SEM yn sefydlu achosiaeth – bod un ffactor yn arwain at un arall – dim ond bod sgoriau'r ymatebwyr ar ddau ffactor yn cydberthyn. Ond serch hynny, gall ddarparu gwybodaeth ddefnyddiol a fydd o gymorth i rowndiau pellach o arolygon, yn ogystal â helpu i ddeall y cysylltiadau rhwng ffactorau yn y ToC yn well.

Ar ôl cadarnhau gyda'r CFA bod y cwestiynau o dan bob ffactor yn cydberthyn yn ddigon da i archwilio perthnasoedd rhwng y ffactorau, profwyd tair damcaniaeth SEM er mwyn asesu a fyddai modd i'r ToC ddisgrifio rhyngweithiadau rhwng ffactorau hefyd. Y damcaniaethau hyn oedd “Rhoi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith”, “Ansawdd yr addysgeg a'r asesu” a “Datblygu amodau er mwyn cynnal cynnydd” a phrofwyd pob un trwy gyfrwng set o fodelau SEM gyda mân amrywiadau.


Defnyddiwyd dadansoddi atchwel er mwyn profi cryfder y berthynas rhwng pob newidyn. Cynhaliwyd y broses hon ar gyfer pob perthynas a fodelwyd ac fe'i disgrifir gan ddefnyddio diagram er mwyn hwyluso'r dehongli yn yr adrannau isod.

Er mwyn cynorthwyo wrth ddehongli'r diagramau sy'n dilyn yn yr adran hon, darparir enghraifft ddamcaniaethol isod sy'n seiliedig ar archwilio perthnasoedd rhwng newidynnau sy'n ymwneud ag agweddau tuag at ymarfer corff ac iechyd i ddangos y broses. Yn yr enghraifft hon, gallai ymchwilwyr fod yn ceisio mesur y berthynas rhwng y ffactorau “mwynhau bwyd iach”, “mwynhau ymarfer corff” ac “agwedd rhieni tuag at ymarfer corff”, a bod gan bob un ohonynt sawl cwestiwn cysylltiedig yn yr arolwg a gynlluniwyd er mwyn ceisio archwilio agweddau tuag at y cysyniadau sylfaenol hynny. Fel y disgrifiwyd uchod, gellir defnyddio gwaith dadansoddi ffactorau i ganfod i ba raddau y mae cwestiynau arolwg yn gysylltiedig â ffactor ehangach.

Yn aml, bydd perthynas ddamcaniaethol rhwng y ffactorau hyn. Gan ddefnyddio'r enghraifft iechyd, gallai'r ymchwilwyr gredu y bydd “agwedd rhieni at ymarfer corff” yn cael effaith ar “fwynhau bwyd iach” a “mwynhau ymarfer corff”, a hefyd, y gallai “mwynhau bwyd iach” effeithio ar “fwynhau ymarfer corff”. Yn achos yr arolwg hwn, defnyddir y ToC fel ffynhonnell y damcaniaethau sy'n cael eu profi.

Mae siapiau hirgrwn yn dynodi ffactorau, mae'r saethau yn dynodi cyfeiriad y perthnasoedd yr ymchwiliwyd iddynt, ac mae'r rhifau uwchben pob un yn dangos cyfernod y llwybr.

Ffigur 64. Enghraifft ddamcaniaethol o ddiagram model hafaliad strwythurol



Dehongli dadansoddiad SEM

Yn yr enghraifft uchod, mae cydberthynas gymedrol rhwng “agwedd rhieni at ymarfer corff” a “mwynhad bwydydd iach”, ond dim ond cydberthynas wan rhwng “mwynhad bwydydd iach” a “mwynhad ymarfer corff”. Felly, y dehongliad o’r model hwn fyddai bod cysylltiad rhwng agwedd eich rhieni tuag at ymarfer corff a pha mor debygol ydych o fwynhau bwydydd iach ac ymarfer corff, ond bod cysylltiad cryfach â’r olaf. At hyn, nid yw pobl sy’n mwynhau bwyd iach o reidrwydd yn debygol o fwynhau ymarfer corff hefyd – mae’r ffaith bod gan eich rhieni agwedd gadarnhaol tuag at ymarfer corff yn dangos perthynas lawer gryfach gyda mwynhau ymarfer corff.

- I asesu a yw’r model damcaniaethol a brofwyd trwy’r SEM yn cael ei adlewyrchu yn y data a arsylwyd o’r arolwg, defnyddir ‘mynegeion ffit’ oedd wedi eu sefydlu eisoes. Y trothwyon sy’n dynodi ffit model da yw:
Mynegeion ffit cymharol:^[Troednodyn 4]
 - Mynegai ffit cymharol (CFI): o leiaf > 0.9 neu’n ddelfrydol > 0.95
 - Mynegai Tucker-Lewis (TLI): o leiaf > 0.9 neu’n ddelfrydol > 0.95
- Mynegeion ffit absoliwt ^[Troednodyn 5]
 - Cyfeiliorniad brasamcan isradd sgwâr cymedrig (RMSEA): < 0.05
 - Gweddill isradd sgwâr cymedrig safonedig (SRMR): < 0.08

Defnyddiwyd pob un o’r mynegeion uchod i brofi pob model, sy’n golygu y cynhaliwyd pedwar prawf ar gyfer pob model.

Mae’n bwysig nodi, ar gyfer yr FA a’r SEMs, roedd ychydig ddata ar goll, a bu’n rhaid ei amcangyfrif, defnyddiwyd amrywiolion mwy cadarn y mynegeion ffit cymharol mewn modelau gyda gwerthoedd a oedd wedi cael eu hamcangyfrif.

[4] Mae mynegeion ffit cymharol yn cymharu model damcaniaethol gyda model sylfaenol sy’n tybio nad oes unrhyw berthnasoedd ymhlith newidynnau.

[5] Mae mynegeion ffit absoliwt yn asesu pa mor dda y mae model damcaniaethol yn atgynhyrchu’r data a arsylwyd heb ei gymharu ag unrhyw fodel amgen.

Modelu hafaliadau strwythurol (SEM)

Yn ychwanegol i'r perthnasoedd damcaniaethol rhwng rhannau yn y ToC, a adlewyrchwyd yn y ffactorau a luniwyd, roedd y ToC hefyd yn cynnwys perthnasoedd damcaniaethol rhwng ffactorau. Mae SEM yn estyniad o FA sy'n caniatáu ymchwilio perthnasoedd rhwng ffactorau. Ymchwilir i bob perthynas unigol rhwng ffactorau o ddiddordeb gan ddefnyddio atchweliad – dull ystadegol a ddefnyddir i archwilio patrymau yn y data ac amcangyfrif cryfder a chyfeiriad y berthynas rhwng ffactorau, y tybir eu bod yn dylanwadu ar ei gilydd. Mae'r atchweliad hwn yn creu 'cyfernod llwybr' fel allbwn y mae modd ei ddehongli mewn ffordd debyg i gydberthynas, sy'n awgrymu perthynas rhwng newidynnau, ond nid achosiaeth o reidrwydd. Mae cyfernodau llwybr SEM o +/- 0-0.5 yn dynodi cydberthyniadau gwan i gymedrol ac mae cyfernodau o +/- 0.5-1 yn dynodi cydberthyniadau cymedrol i gryf. Yn yr adroddiad hwn, defnyddir y derminoleg 'cydberthynol i', yn hytrach na 'rhagfynegwyd gan' sydd hefyd yn cael ei defnyddio'n gyffredin yn y math hwn o ddadansoddiad, wrth ddisgrifio'r cyfernodau llwybr.

Yn fras, defnyddiwyd yr un data yn union ar gyfer y dadansoddiad FA a SEM ag ar gyfer y dadansoddiad arall a ddisgrifir uchod. Yr unig eithriad i hyn oedd, os atebodd y cyfranogwyr “ddim yn siŵr” neu “ddim yn berthnasol” i gwestiwn a oedd â threfn ymhlyg (megis cwestiwn gydag ymatebion yn amrywio o “hyderus iawn” i “ddim yn hyderus o gwbl”), yna cafodd yr ymatebion hyn eu hailgodi fel rhai ar goll at ddibenion yr FA a'r SEM. Roedd hyn oherwydd bod angen i'r newidyn cyfan gael ei drin fel pe bai ganddo drefn ymhlyg er mwyn ffitio'r modelau.

Yn ystod y broses FA, roedd ymatebion coll i'r arolwg yn her o ran asesu a oedd y data'n ffitio pob model. Er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn, defnyddiwyd amcangyfrif tebygolrwydd uchaf gan ddefnyddio gwybodaeth lawn i ymdrin â data coll o fewn y model heb fewnbynnu gwerthoedd.^[Troednodyn6] Y bwriad oedd rhedeg y modelau ar sail achosion cyflawn yn unig, yn hytrach na thebygolrwydd uchaf gan ddefnyddio gwybodaeth gadarn i ymdrin â data coll. Fodd bynnag, ar ôl adolygu'r hyn a oedd ar goll, roedd hyn yn ymarferol ar gyfer pob SEM heblaw un, oherwydd cyfraddau cwblhau uchel yn gyffredinol nad oeddent yn athreulio'r set ddata yn ormodol.

Yna, archwiliwyd perthnasoedd rhwng ffactorau ym mhob model SEM damcaniaethol i asesu ffit pob model. Lle'r oedd SEMs lluosog yn ffit ar gyfer damcaniaeth benodedig, dewiswyd y model a oedd yn ffitio orau i adrodd amdano yn llawn yn yr adroddiad hwn, er ein bod yn nodi ystadegau ffit allweddol modelau llai llwyddiannus at ddibenion cyfeirio.

Mewn perthynas â dadansoddiad FA a SEM, un o'r cyfyngiadau oedd mai dim ond dull cadarnhaol oedd yn bosibl. Mae'n debygol iawn bod fersiynau sy'n ffitio yn well o FA a SEMs yn bodoli, gyda mân ddiwygiadau yn cael eu gwneud i ba gwestiynau sy'n llwytho ar ba ffactorau, a'r perthnasoedd rhwng ffactorau. Fodd bynnag, nid oedd yr amser a'r

[6] Mae amcangyfrif tebygolrwydd uchaf ar sail gwybodaeth lawn yn ddull ystadegol sy'n defnyddio'r holl ddata sydd ar gael, gan gynnwys data sy'n cynnwys gwerthoedd coll, i amcangyfrif paramedrau model ystadegol. Yn lle gwaredu achosion lle y gwelir data coll neu fewnbynnu gwerthoedd, mae FIML yn cynnwys yr achosion hyn yn uniongyrchol yn y cyfrifiad tebygolrwydd. Gwneir hyn trwy arsylwi tebygolrwydd y data a arsylwyd o ystyried y patrwm data coll a pharamedrau'r model.

adnoddau a oedd ar gael yn galluogi i ddull archwiliadol gael ei ddilyn. Mae'r dadansoddiad yn dangos nad yw'r modelau a archwiliwyd yn disgrifio'r perthnasoedd sy'n bresennol yn y data sylfaenol mewn ffordd ddigonol, felly maent yn dilysu'r perthnasoedd a gynigiwyd yn y ToC, yr ymchwiliwyd iddynt yn y dadansoddiadau hyn.

Roedd cymhlethdod y modelau yn gyfyngiad posibl ar gyfer y SEM hefyd. Mae perthnasoedd mwy cymhleth sy'n cael eu rhagdybio gan y ToC nag y byddai confensiwn yn ei orchymyn yn ddoeth yn gyffredinol er mwyn ymchwilio gyda maint y sampl sydd ar gael. Yn gyffredinol, y canllaw yw 10 arsylwad (ymatebwyr) fesul paramedr yn y model; mae'r modelau hyn yn cynnwys 200 o baramedrau neu fwy a 924 o ymatebwyr yn cael eu cynnwys yn y set ddata a ddefnyddiwyd er mwyn dadansoddi. Mewn geiriau eraill, dyblu y sampl neu fwy fyddai orau er mwyn ffitio'r SEMs damcaniaethol. O'r herwydd, roedd ffit model yn debygol o fod yn heriol a byddai casglu data ychwanegol wedi bod yn well o safbwynt ystadegol, er mwyn cynyddu maint y set ddata.

Canfyddiadau SEM ychwanegol: 'Datblygu amodau ar gyfer cynnal cynnydd'

Roedd modelau "Datblygu amodau ar gyfer cynnal cynnydd" yn adlewyrchu'r ddamcaniaeth bod dysgu proffesiynol ymarferwyr (mewnbyn yn y ToC), lles ac effeithiolrwydd arweinyddiaeth (canlyniadau tymor byr yn y ToC) yn gysylltiedig â chyfalaf y cwricwlwm (canlyniad tymor byr yn y ToC) ac yn ei dro, faint y mae hyn yn gysylltiedig â:

- galluedd athrawon (canlyniad tymor byr yn y ToC)
- darparu ymholi proffesiynol (gweithgarwch ymarferwyr)
- sut y caiff agweddau ar y cwricwlwm eu hadlewyrchu mewn arferion addysgu (canlyniad tymor canolig yn y ToC)
- cymorth i ddysgwyr sicrhau cynnydd mewn agweddau ar y cwricwlwm (canlyniad tymor canolig yn y ToC)
- ansawdd addysgeg ac asesu (canlyniad tymor canolig yn y ToC)
- faint o newid a wnaethpwyd er mwyn ymateb i'r cwricwlwm newydd (canlyniad tymor canolig yn y ToC)

Modelwyd naw atchweliad fel rhan o'r SEM, fel y'u cynrychiolir gan saethau yn y diagram llwybr yn Ffigur 62 ym Mhennod 45. Mae pob saeth yn adlewyrchu atchweliad unigol; er enghraifft, mae'r saeth uchaf ar yr ochr chwith yn adlewyrchu ceisio rhagweld lefel cyfalaf y cwricwlwm ar sail lefel y dysgu proffesiynol. Mae'r gwerthoedd uwch ben pob saeth yn adlewyrchu'r gydberthynas safonol ar gyfer yr atchweliad hwnnw. Mae gwerthoedd coch yn adlewyrchu unrhyw atchweliadau nad oeddent yn nodedig yn ystadegol.

Gan asesu ffit y model i ddata'r arolwg, mae'r model hwn yn cyflawni dau o'r pedwar maen prawf. Gan ystyried ffit cymharol, roedd y model SEM gorau ar gyfer "Datblygu amodau er mwyn cynnal cynnydd" wedi creu CFI cadarn o 0.787 a TLI cadarn o 0.781 (y mae'r ddau yn is na'r trothwy gofynnol isaf o 0.9). Fodd bynnag, gan ystyried ffit absoliwt, yr RMSEA ar

gyfer y model oedd 0.048 (yn is na'r trothwy uchaf o 0.05). Yr SRMR ar gyfer y model oedd 0.068 (yn is na'r trothwy uchaf o 0.08). Mae'r ddau werth hwn yn is na'r trothwy, sy'n dynodi bod y model wedi cael ei nodi yn dda, o ystyried ei gymhlethdod. Mae'r gwerthoedd hyn yn dynodi bod y model yn sgorio'n dda ar gyfer ffit absoliwt, gan awgrymu bod y model yn esbonio'r data yn dda, ond mae'r sgoriau ffit cymharol yn awgrymu, pan fyddant yn cael eu cymharu, model sy'n cymryd nad oes unrhyw berthnasoedd yn bodoli rhwng y ffactorau (model "nwl"), nid yw'r gwelliant yn ddigon arwyddocaol i ystyried bod y model gosodedig yn ffit cadarn. Gallai hyn olygu bod y model yn rhy syml neu bod y perthnasoedd yn y data yn gymharol wan.

Fel y nodwyd ym Mhennod 45, mae'r canfyddiadau yn dangos bod y model yn ffitio'r data yn gymharol dda a bod cydberthnasoedd cymedrol i uchel rhwng rhan fwyaf y ffactorau. Mae'r canfyddiadau yn dangos:

- bod cydberthynas wan rhwng lefel cyfalaf y cwricwlwm a dysgu proffesiynol a chydberthynas gymedrol gydag effeithiolrwydd arweinyddiaeth y cwricwlwm. Fodd bynnag, ni cheir cydberthynas rhwng lefel cyfalaf y cwricwlwm a lefel y lles.
- yn ei dro, ceir cydberthynas rhwng cyfalaf y cwricwlwm a lefel yr agweddau o'r cwricwlwm sy'n cael eu hadlewyrchu mewn arferion, gwireddu sy'n gefnogol o gynnydd mewn agweddau ar y cwricwlwm, ansawdd addysgeg ac asesu, newidiadau i addysgeg, cadernid ymholi proffesiynol ac ar gyfer galluedd athrawon. Y ffactor lle y gwelir y cydberthynas fwyaf cadarn yw agweddau ar y cwricwlwm yn cael eu hadlewyrchu mewn arferion addysgu, a'r gwannaf yw addysgeg ac asesu, ac i raddau llai, cadernid ymholi proffesiynol

Canfyddiadau SEM ychwanegol: "Rhoi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith" ac "Ansawdd addysgeg ac asesu"

Isod, cyflwynir canfyddiadau SEM sy'n seiliedig ar fodelau "Rhoi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith" ac "Ansawdd addysgeg ac asesu". Cyflwynir y perthnasoedd sy'n cael eu harchwilio gan bob model isod, gan ddefnyddio strwythur y ToC ar gyfer y diwygiadau asesu ac i'r cwricwlwm.

Crynodeb o'r canfyddiadau: SEM "Rhoi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith"

Ar ôl pennu, gyda gwaith dadansoddi ffactorau, bod y cysyniadau sy'n sail i'r ToC a gynigiwyd ar gyfer gwireddu'r cwricwlwm yn gallu cael eu modelu gan ddefnyddio data yr arolwg, cynhaliwyd SEMs er mwyn asesu a yw'r berthynas ddamcaniaethol rhwng ffactorau i'w gweld mewn gwirionedd.

Mae'r canfyddiadau yn dangos nad yw'r model yn cyd-fynd â'r data yn dda a bod.

- cydberthynas gymedrol rhwng lefel **cyfalaf y cwricwlwm** a lefel y **dysgu proffesiynol** a chydberthynas wan gyda **chadernid ymholi proffesiynol**.

- cydberthynas wan rhwng lefel **effeithlonrwydd arwain y cwricwlwm** a lefel **dysgu proffesiynol**, a chydberthynas gymedrol gyda **chadernid ymholi proffesiynol**.
- yn ei dro, **cyfalaf cwricwlwm** ac **effeithiolrwydd arweinyddiaeth y cwricwlwm** yn rhagweld **galluedd athrawon** mewn ffordd gymedrol.
- lefel **galluedd athrawon** yn rhagweld lefel **agweddau ar y cwricwlwm yn cael eu hadlewyrchu mewn arferion addysgu, gwireddu sy'n gefnogol o gynnydd mewn agweddau ar y cwricwlwm a newidiadau i addysgeg** mewn ffordd gymedrol.

Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu bod:

- cadernid ymholi proffesiynol yn cyd-fynd yn agosach ag effeithlonrwydd o ran arweinyddiaeth y cwricwlwm, a dysgu proffesiynol gyda chyfalaf y cwricwlwm. Os oes un o'r ffactorau hyn yn mynd i gael eu gwella, mae'r SEM hwn yn awgrymu pa un y dylid rhoi blaenoriaeth iddo, sef dysgu proffesiynol neu gadernid ymholi proffesiynol.
- ceir cydberthynas rhwng galluedd athrawon ac ymholi proffesiynol a dysgu, a gyflwynir trwy gyfalaf cwricwlwm ac effeithlonrwydd arwain. Mae ganddo gydberthynas debyg â'r ddau, gan ddynodi ei bod yn bwysig blaenoriaethu'r holl ffactorau blaenorol os mai'r nod yw gwella galluedd athrawon.
- ceir cyswllt cymedrol rhwng pob agwedd ar y cwricwlwm a adlewyrchir mewn arferion addysgu, gwireddu sy'n cefnogi cynnydd mewn agweddau ar y cwricwlwm a newidiadau i addysgeg, gyda galluedd athrawon. Unwaith eto, mae hyn yn awgrymu y gallai galluedd athrawon gefnogi rhai o'r ffactorau eraill hyn.


Nid yw'r cydberthnasoedd gwan i gymedrol rhwng ffactorau yn annilysu y canfyddiadau'n llwyr, ond maent yn dynodi y dylai casgliadau a chymau dilynol fod yn betrus, a byddai'n well aros am rownd arall o ddata arolwg er mwyn cynyddu maint y sampl cyn ffurfio casgliadau cadarn. Yn gyffredinol, achosion tebygol ffit model gwael yw:

- y gallai rhai dylanwadau ar y ffactorau yn y model fod yn ffactorau allanol heb eu cofnodi gan yr arolwg.
- efallai nad yw rhai perthnasoedd sy'n bresennol yn y data yn cael eu cofnodi gan y SEM penodol a gynigiwyd ac a ymchwiliwyd.
- bod y model yn fwy cymhleth na fyddai maint y sampl yn caniatáu i SEMs ymchwilio iddo.

Canfyddiadau manwl: "Rhoi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith"

Modelwyd naw atchweliad fel rhan o'r SEM, fel y'u cynrychiolir gan saethau yn y diagram llwybr isod. Mae pob saeth yn adlewyrchu atchweliad unigol; er enghraifft, mae'r saeth yn y gornel chwith ar y brig yn adlewyrchu ceisio archwilio cryfder y berthynas rhwng cyfalaf y cwricwlwm a lefel y cadernid o ran ymholi proffesiynol. Mae'r gwerthoedd uwch ben pob saeth yn adlewyrchu'r gydberthynas safonol ar gyfer yr atchweliad hwnnw.

Ffigur 67. Cydberthnasoedd safonol a SEM “Rhoi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith”



N = 924

Yn arbennig, roedd y rhan fwyaf o gyfernodau llwybr yn fach i gymedrol o ran maint, gyda chyfernodau safonedig yn amrywio o 0.237 i 0.603.

Ceir cydberthynas wan rhwng lefel y cyfalaf cwricwlwm a lefel cadernid ymholi proffesiynol (0.237)[Troednodyn] a cheir cydberthynas gymedrol gyda dysgu proffesiynol (0.477). Yn ei dro, mae'r ddau ffactor yn cydberthyn â lefel effeithiolrwydd arweinyddiaeth y cwricwlwm, gyda chyfernodau o 0.465 ar gyfer cadernid ymholi proffesiynol a 0.305 ar gyfer dysgu proffesiynol. Mae'n ymddangos bod cadernid ymholi proffesiynol yn ymwneud yn fwy ag effeithiolrwydd arweinyddiaeth y cwricwlwm, ac mae dysgu proffesiynol yn ymwneud yn well â chyfalaf y cwricwlwm.

Yna, ceir cydberthynas gymedrol rhwng lefel galluedd athrawon a chyfalaf y cwricwlwm (0.474) ac effeithiolrwydd arweinyddiaeth y cwricwlwm (0.410).

Yn olaf, mae lefel galluedd athrawon yn rhagweld mai lefel agweddau ar y cwricwlwm yn cael eu hadlewyrchu mewn arferion addysgu yw 0.586, mai gwireddu sy'n gefnogol o gynnydd mewn agweddau ar y cwricwlwm yw 0.603, ac mai newidiadau mewn addysgeg yw 0.526. Mae hyn yn dangos bod cydberthynas lai gref rhwng lefel galluedd athrawon a lefelau parodrwydd i wneud newidiadau i addysgeg, er mai dim ond o rhyw ychydig fel ei fod yn rhagweld y ddau ffactor arall.

Fodd bynnag, gyda'r perthnasoedd yn rhai cymedrol o ran maint cyfernodau, efallai bod perthnasoedd eraill heb eu modelu ar waith yn effeithio ar y ffactorau hyn. Gallai hyn fod yn un rheswm pam bod ffit y model yn wael.

Pan fydd ail rownd yr arolwg wedi cael ei gwblhau, byddai'n ddefnyddiol cyfuno'r data ac ailystyried y modelau hyn er mwyn cadarnhau ai maint y sampl yw'r ffactor cyfyngol. Os na, mae hyn yn pwyntio at fater cymhlethdod perthnasoedd fel achos ffit gwael y model.

Crynodeb o'r canfyddiadau: SEM "Ansawdd addysgeg ac asesu"

Ar ôl pennu, gyda gweithgarwch dadansoddi ffactorau, bod modd modelu'r cysyniadau sy'n sail i'r ToC a gynigiwyd ar gyfer y diwygiadau asesu a chwricwlwm gan ddefnyddio data arolwg, cynhaliwyd SEMs er mwyn asesu a yw'r berthynas ddamcaniaethol rhwng ffactorau i'w gweld mewn gwirionedd.

Mae'r canfyddiadau yn dangos nad yw'r model "Ansawdd addysgeg ac asesu" yn cyd-fynd yn dda â'r data. Nid yw hyn yn annilysu'r dehongliadau isod yn llwyr, ond mae'n dynodi y dylai casgliadau a chmau gweithredu dilynol fod yn rhai petrus, ac y byddai'n well aros am rownd arall o ddata arolwg er mwyn cynyddu maint y sampl cyn gweithredu yn eu cylch. Yn gyffredinol, mae achosion tebygol ffit model gwael fel a ganlyn:

- Gallai rhai dylanwadau ar y ffactorau yn y model fod yn ffactorau allanol nad ydynt wedi cael eu cofnodi gan yr arolwg
- Efallai nad yw rhai perthnasoedd sy'n bresennol yn y data yn cael eu cofnodi yn ddigonol gan y SEM penodol a gynigiwyd ac yr ymchwiliwyd iddo

- Mae'r model yn fwy cymhleth nag y byddai maint y sampl yn caniatáu i SEMs ymchwilio iddo

Mae'r canfyddiadau yn dangos bod:

- Cydberthynas wan rhwng cyfalaf y cwricwlwm a chadernid ymholi proffesiynol a bod cydberthynas gymedrol rhwng cyfalaf y cwricwlwm a dysgu proffesiynol
- Cydberthynas wan rhwng effeithlonrwydd arweinyddiaeth cwricwlwm a dysgu proffesiynol a bod cydberthynas gymedrol rhwng effeithlonrwydd arweinyddiaeth cwricwlwm a chadernid ymholi proffesiynol
- Cydberthynas wan rhwng ansawdd addysgeg ac asesu a chyfalaf y cwricwlwm ac effeithlonrwydd arweinyddiaeth cwricwlwm


Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu bod:

- Cyswllt mwy agos rhwng cadernid ymholi proffesiynol ac effeithlonrwydd arweinyddiaeth y cwricwlwm, a rhwng dysgu proffesiynol a chyfalaf y cwricwlwm. Os caiff un o'r ffactorau hyn eu hyrwyddo neu eu gwella, mae'r SEM hwn yn awgrymu ai dysgu proffesiynol neu gadernid ymholi proffesiynol y dylid rhoi blaenoriaeth iddo.
- Mae ansawdd addysgeg ac asesu yn gysylltiedig ag ymholi proffesiynol a dysgu, a gaiff ei gyfyngu trwy gyfalaf y cwricwlwm ac effeithlonrwydd arweinyddiaeth. Ceir cyswllt agosach rhyngddo, fodd bynnag, ag effeithlonrwydd arweinyddiaeth cwricwlwm, sy'n dynodi bod y ffactor hwn (a'i ragfynegydd cryfaf, sef cadernid ymholi proffesiynol) ychydig yn bwysicach i'w flaenoriaethu os mai'r nod yw gwella ansawdd addysgeg ac asesu
- Fodd bynnag, mae'r perthnasoedd hyn yn gymharol wan yn gyffredinol, gan ddynodi ei bod yn debygol bod ffactorau allanol eraill yn debygol o fod yn cael effaith fawr ar ansawdd addysgeg ac asesu, ac eithrio'r rhai yn y model
- Mae'n ddiddorol cyferbynnu'r model hwn gyda model tebyg "Rhoi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith" uchod, sydd â pherthnasoedd cryfach rhwng y ffactorau a galluedd athrawon nag sydd gan y model hwn rhwng yr un newidynnau ac ansawdd addysgeg ac asesu. Mae hyn yn dangos bod cyswllt agosach rhwng galluedd athrawon a'r ffactorau hyn nag sydd gydag ansawdd addysgeg ac asesu ac mae'n pwysleisio bod ffactorau eraill efallai yn rhagweld addysgeg ac asesu o ansawdd uchel

Canfyddiadau: Model "Ansawdd addysgeg ac asesu"

Modelwyd chwech atchweliad fel rhan o'r SEM, fel y'u cynrychiolir gan saethau yn y diagram llwybr isod. Mae pob saeth yn adlewyrchu atchweliad unigol; er enghraifft, mae'r saeth yn y gornel chwith ar y brig yn adlewyrchu ceisio rhagweld lefel **cyfalaf y cwricwlwm** yn seiliedig ar lefel **cadernid ymholi proffesiynol**. Mae'r gwerthoedd uwch ben pob saeth yn adlewyrchu'r cyfernod safonedig ar gyfer yr atchweliad hwnnw.

Ffigur 68. SEM “Ansawdd addysgeg ac asesu” a chyfernodau safonedig



N = 924

Yn arbennig, roedd y rhan fwyaf o gyfernodau llwybr yn fach i gymedrol o ran maint, gyda chyfernodau safonedig yn amrywio o 0.273 i 0.487. Mae hyn yn dangos nad yw cryfder y berthynas rhwng ffactorau mor gryf ag y mae yn y SEMs dysgwyr a rhieni. Gallai hyn fod yn un rheswm dros y ffit mwy gwael o ran y model a arsylwyd yma, o'i gymharu â'r modelau hynny.

Ceir cydberthynas rhwng lefel cyfalaf y cwricwlwm a lefel cadernid yr ymholi proffesiynol (0.329) a dysgu proffesiynol (0.450). Yn ei dro, mae'r ddau ffactor yn cydberthyn â lefel effeithiolrwydd arweinyddiaeth y cwricwlwm, gyda chyfernodau o 0.487 ar gyfer cadernid ymholi proffesiynol a 0.273 ar gyfer dysgu proffesiynol. Mae'n ddiddorol ei bod yn ymddangos bod cadernid ymholi proffesiynol yn ymwneud yn well ag effeithiolrwydd arweinyddiaeth y cwricwlwm, a bod dysgu proffesiynol yn ymwneud yn well â chyfalaf y cwricwlwm.

Yna, ceir cydberthynas rhwng lefel ansawdd yr addysgeg ac asesu a chyfalaf y cwricwlwm (0.239) ac yn gryfach gydag effeithiolrwydd arweinyddiaeth y cwricwlwm (0.347).

Yn arbennig, mae'r model hwn yn gymharol debyg i ffit gorau model 'Rhoi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith' a drafodwyd yn adran flaenorol yr adroddiad; dim ond y newidynnau canlyniadau sy'n wahanol. Felly, mae'n ddiddorol cymharu tebygrwydd y cyfernodau yng nghyfran gyffredin y model, y mae modd eu gweld yn y tabl canlynol.

Tabl 9. Cymharu cyfeirnodau SEM cyffredin

Newidyn rhagfynegi	Newidyn canlyniad	Rhoi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith	Ansawdd addysgeg ac asesu
Cadernid ymholi proffesiynol	Cyfalaf y cwricwlwm	0.237	0.329
Dysgu proffesiynol	Cyfalaf y cwricwlwm	0.477	0.450
Cadernid ymholi proffesiynol	Effeithlonrwydd arwain y cwricwlwm	0.465	0.487
Dysgu proffesiynol	Effeithlonrwydd arwain y cwricwlwm	0.305	0.273

N = 924

Yn fras, gwelir cyfernodau tebyg yn y ddau SEM mewn tri o bedwar achos, gyda'r rhes uchaf, cadernid ymholi proffesiynol, yn cydberthyn â chyfalaf y cwricwlwm, yr unig achos lle y gwelir gwahaniaeth mawr. Fodd bynnag, hyd yn oed fan hyn, nid yw'r gwahaniaeth yn fwy na 0.1, sy'n galonogol gan ei fod yn dangos bod y ddau fodel yn creu canlyniadau sy'n gymharol debyg – ni fyddem yn disgwyl yn union yr un fath gyda gwahanol ffactorau yn bresennol yn y model yn gyffredinol. Mae'r cyfernodau cymharol gyson ar gyfer y ddau fodel yn dynodi bod y canlyniadau ar gyfer pob perthynas yn gyson ar draws modelau gwahanol, sy'n arwydd o ddibynadwyedd y canlyniadau.

Fodd bynnag, gyda'r perthnasoedd yn SEM 'Ansawdd addysgeg ac asesu' yn gymedrol o ran maint cyfernodau, efallai y bydd perthnasoedd eraill heb eu modelu ar waith sy'n effeithio ar y ffactorau hyn. Gallai hwn fod yn un rheswm pam bod ffit y model yn annigonol.

I grynhoi, mae'n ymddangos ei bod yn fwyaf tebygol mai achosion posibl ffit gwael y model yw:

- Nad yw'r perthnasoedd a fodelwyd yn rhai arbennig o gryf efallai
- Efallai nad yw rhai perthnasoedd sy'n bresennol yn y data yn cael eu cofnodi mewn ffordd ddigonol gan y SEM a gynigiwyd ac yr ymchwiliwyd iddo
- Mae'r model yn fwy cymhleth nag y byddai maint y sampl yn caniatáu i SEMs ymchwilio iddo

Ar ôl y bydd ail rownd yr arolwg i uwch arweinwyr ac ymarferwyr wedi'i gwblhau, byddai'n ddefnyddiol cyfuno'r data ac ailystyried y modelau hyn er mwyn cadarnhau ai maint y sampl yw'r ffactor cyfyngol. Os na, mae hyn yn pwyntio at fater cymhlethdod perthnasoedd fel achos ffit gwael y model.

